Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

1268 e.67

4

Bt. f. S. v. Galloway, Aug. 1915.

2/6

1268 e. 67.

3/6 4/:

# *SICCRWYDD FFYDD,*

Wedi ei egoryd a'i gymhwyso;

Sef, sylwedd amryw

# BREGETHAU

*A'R HEB.* X. 22.

GAN Y PARCHEDIG


## EBENEZER ERSKINE, M. A.

Gweinidog yr Efengyl yn *Sterling*, yn *Scotland*.


---

Wedi eu Gyfieithu i'r Gymraeg er llês i'r *Cymru*.

Gan WILLIAM WILLIAMS.

Gweinidog o Eglwys *Loegr*.

---

YR AIL ARGRAPHIAD.

---


*DOLGELLEU.*

Argraphwyd, gan Thomas Williams.

BODLEIAN
26·8·1915
LIBRARY

# *SICCRWYDD FFYDD,*

## Wedi ei agoryd a'i Gymhwyso, &c.

---

*Am hynny, frodyr, gan fod i ni rydd-did i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed* JESU, *a'r hyd y ffordd newydd, a bywiol, yr hon a gyssegrodd efe i ni trwy 'r llen, sef ei gnawd ef, a bod i ni Archoffeiriad mawr ar dy* DDUW; *nessâwn a chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd.*

---

## TRAETHAWD I.

*Yn cynnwys arweiniad i mewn at y prif ddiben, ynghyd a'r drefn o'r traethawd canlynol.*

YR adnodau hyn sydd yn cynnwys symmudiad oddiwrth y rhan athrawiaethol at y rhan ymarferol o'r Epistol. Gwedi i'r Apostol ymadroddi yn helaeth ar swydd Offeiriadol Crist, yn y rhan flaenaf o'r Epistol y mae ef yn crynhoi ynghyd mewn ychydig eiriau, gynhwysiad, ystyr, a sylwedd yr hyn oll a ddywedasai *Adnod.* 19, 20, 21. ac yna yn tynnu

casgliad naturiol iawn oddiwrth y cyfan, *Adnod*, 22. *nessawn a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd*. Cyffelyb i adeiliadydd doeth, yn cloddio yn gyntaf at y sylfaen, ac yna yn galw ei hun ac eraill i adeiladu arno gyda *hyder*. Fel y bo i ni gael golwg mwy neilltuol ar y geiriau, mae yn anghenrhaid i ni ddal sylw yn gyffredin, fod yr Apostol yn dra rhagorol yn gosod allan yma ragorfreintiau 'r *Testament newydd* yn ôl *dull*, a *thafodiaeth yr hên*. Y rhagorfraint uchaf i bechadur syrthiedig yw, cael dyfod i bresennoldeb Duw ei Arglwydd, a'i benllywydd, ag oedd efe wedi ei anfodloni; yr unig ffordd o ddyfodiad yw Crist o ba un yr oedd teml Solomon yn gysgod tra rhagorol; ac mewn cyffelybiaeth i'r deml gysgodol, mae Crist yn cael ei osod allan offaen ein ffydd tan y *tair ystyriaeth* hyn *adnod*. 19, 20, 21.

(1) Megis porth, neu ddrws trwy ba un y gallwn fyned i mewn i'r cyssegr, a hynny gyd ag eondra, trwy rinwedd *eu ddadleuol waed*, adn. 19. tan oruchwiliaeth Moses, Aaron yn unig, ag nid yr Israeliaid, a allant fyned i mewn i'r *sanctaidd sanctaiddiolaf*, a hynny ond unwaith yn y flwyddyn, gyda gwaed yr anifeiliad a fyddai yn cael ei haberthu trosdo ei hun a hwythau: ond yn awr, tan y Testament newydd, trwy farwolaeth, a bodlonrwydd Mab Duw, y ffordd o ddyfodiad i gyfeillgarwch a cymundeb a'r Duw sanctaidd, yn y bŷd hwn, a'r bŷd ar ôl hwn, sydd wedi ei agoryd i bob pechadur, yr hwn trwy ffydd a ddêl i mewn tan orchgydd gwaed Iesu. Mor gynted y pechodd Adda, y drws o ddyfodiad at fawrhydi Duw a gaewyd yn ei erbyn ef a'i holl hiliogaeth, y Cerub a'i gleddyf tanllyd a safodd yn eu ffordd: ond yn awr yn

gÿmmaint a diffodd cleddyf tanllyd cyfiawnder yng ngwaed y meichiau, y drws o ddyfodiad sydd etto yn ei lawn led.

Yr ydwyf yn cofio i'r *Wraig o decoah* 2 Sam. xiv. 24. Yn ei damhegol gyfarchiad i Ddafydd yn achos Absalom, wneuthur defnydd o'r rheswm hyn, tu ag at ei enill ef i ddwyn adref ei herwr; Duw ebe hi, *a feddyliodd foddion fel na yrrer ymaith ei herwr oddiwrtho*. Hyn fydd hynodol wir mewn perthynas i'r peth mewn llaw; Duw trwy Grist, mae yn cael ei osod allan i ni tan y gydmhariaeth *o ffordd newydd a bywiol wedi ei chysegru i ni trwy 'r llen, sef ei waed ef, adn.* 20. *Y llen dufewnol*, ag oedd yn gwahanu rhwng y llê sanctaidd a'r llê sanctaiddiolaf, yn nheml Jerusalem, ydoedd yn gysgod o'r Corph hwnnw o gnawd a gymmerodd Mâb Duw, a pha un y cafodd ei *Dduwdod ei orchguddio*; a thrwy rwygo neu dorri hwn trwy ei angau ar y Groes; y ffordd at Dduw ac i ogonant a wnawd yn rhydd ac yn agored: a hon a elwir yn *ffordd newydd a bywiol*, naill ac mewn gwrthwynebiad i ffordd Adda, trwy gyfammod o weithredoedd, yr hon sydd wedi ei chau i fynu er cwymp dyn; neu yntau am nad yw hi fyth yn heneiddio, ond sydd yn wasted yn newydd, yn wyrdd-las ac yn aroglaidd i enaid crediniol. A hi elwir yn ffordd fÿwiol, o ran er i Grist farw un waith, etto byw yw yr awr hon, ac a fÿdd byw yn dragÿwydd, i roddi bywyd i bob un sydd yn dyfod at Dduw trwyddo ef. Ac yna mae hi yn ffordd wedi ei chyssegru trosom ni, y mae hi wedi ei neulltuo at wasanaeth pechaduriaid yn eu gwaith yn ymarferud a Duw; er eu mwyn hwynt (medd ef) *ydwyf yn sancteiddio fy hun*.

Ac O! beth all fod yn fwy annogaethol i bechadur colledig i wneuthur defnydd o Grist, na gwybod ei fod ef gwedi ei gyfiawn naullduo i'r gwaith hyn o gadw y rhai a gollwyd?

(2) Lle gall y pechadur wrth ddadlu, mae er bod y drws wedi ei agor, a'r ffordd newydd, a bywiol, wedi wedi ei chyssegru; naill ai mae ef mor anwybodus, fel nad yw yn adnabod yffordd hon; neu mor analluog, nas gall rodio ynddi; neu yntau mor euog, fel na faidd anturio myned i'r cyssegr: am hynny i rhagflaenu yr holl bethau hyn, Crist a osodir allan i ni fel *Archoffeiriad mawr ar dy Dduw*, adn. 21. Oh! pa annogaeth ardderchog fydd yma i gredu! *Crist fel archoffeiriad a osodir dros ddynion yn y pethau sydd tu ac at Dduw*: *Heb*. v. 1. A chan ei fod wedi ei ordeinio dros ddynion, onid all dynion wneud defnydd o'i gyfryngdod gyda hyder, a hyfdra? Heb. iv. 14—16. Ac yna wrth ei alwad y mae ef yn rhwym i gyflawni dyledswyddau ei fywyd, tu ac at bob enaid a'i gosodo ar waith yn hynny: mae yn rhwym fel Archoffeiriad i ddysgu yr anwybodus, i gryfhâu 'r gwan, i gadarnhau 'r llêsg, ac i *wneuthur cymmod dros bechodau 'r bobl*.

Am hynny byddwn ymdrechgar i wneud defnydd, ac arferiad o hono, yn enwedig wrth ystyriad ei fod yn *Archoffeiriad yr hwn sydd ar dy Dduw*, (hynny yw) y mae ganddo awdurdod, a gallu oddiwrth ei dâd tragwyddol, i negeseua ein hachosion, ac adferu ein personau, a'n cyfiawnhau yn gymmeradwy iddo ef. Mewn gair, holl drefniad o'r *hîl a'r eppil, ac o'r holl fân lestri, a'r llestri meiliau* a roddwyd iddo ie *holl Ogoniant ty ei Dâd sydd yn crogi arno megis hoel*

*wedi ei sicrhau mewn man sicr. Esa.* xxii. 24. Am hynny, gan fod genym Archoffeiriad o'r fath awdurdod a hawl, *awn yn hyderus at orseddfainc y Gras fel y derbynion drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol. Heb.* iv. 14, 15, 16. Pa bryd bynnag y chwennychom fynad i ddirgelfa ei breswylfod, neu o fwynhau cyfeillach ag ef; awn i mewn wrth gefn *ein harchoffeiriad mawr* yr hwn a gerddodd y ffordd o'n blaen, ac sydd yn ymddangos ymmhreswylfod Duw drosom ni.

Yn awr, medddaf, yr Apostol wedi gossod fel hyn Grist o'n blaen tan y golygiadau mwyaf annogaethol fel gwrthrych ein ffydd an gobaith, a'n hymddiried yn ein hymarferiadau â mawredd Duw, mae yn myned rhagddo i ganmol, a gwasgu arnom ddyledswydd gyfatebol i hynny yng ngeiriau 'r testyn, adn. 22. *Nesawn a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonau,* &c.

Cyn myned rhagom i ystyriaeth mwy neullduol o'r geiriau, mae 'n dra chymmwys i ddal sylw a'r ddull a threfn athrawiath yr Apostol, a pha fodd y mae yn cydio rhagorfraint, a dyledswydd y credadyn ynghyd; fe fynnai i'r rhagorfraint yn gyntaf gael ei chredu, ac yna i'r ddyledswydd gael ei chyflawni; fe fynnai i ni yn gyntaf gredu *fod drws i'r cyssegr wedi ei agoryd trwy waed Iesu, a bod ffordd newydd a bywiol wedi ei chyssegru i ni, a bod i ni Archoffeiriad mawr ar dy Dduw,* yn barod i'n tywys i'w breswylfod: ac ar y sylfaenau hyn o ffydd, y mae ef yn annog, ag yn gwasgu arnom y ddyledswydd, nesâwn, &c. Mae yn hyfryd oddi yma i ddal sylw, pa fodd y mae dull, a threfn y cyfammod o weithredoedd yn cael ei wrth

droi yn y cyfammod o Râs. Yn y cyfammod o weithredoedd, dyledswydd oedd sail ein rhagorfraint: dyn oedd yn gyntaf i gyflawni dyledswydd, ac ar ei waith yn gwneuthur hynny, fe allai ddisgwyl y rhagorfraint mewn ffordd o ddyled cyfammodol: ond yn awr, meddaf, yn gyfan wrthwyneb i hyn, mae dull, a thaefn Duw yn y cyfammod o Râs; canys yma yn yn gyntaf, yr y'm i gredu y rhagorfraint neu ei derbyn fel rhodd o awdurdodol râs, ac ar y sail hon i fynd yn y blaen at ein dyledswydd.

Hyn sydd beth a ddylid dal sylw arno gyda 'r difriwch mwya; o herwydd fod tuedd natur yn rhedeg yn ffordd y cyfammod o weithredoedd, megis i ddisgwyl y rhagorfraint ar gyfrif y ddyledswydd, ac i ddychmygu bod Duw yn ddyledwr i ni, pan byddom wedi cyflawni'r ddyledswydd hon neu arall ag sydd ofynedig yn y gyfraith. Lle mae ffrwd natur yn rhedeg yn hollawl wrthwyneb i'r drefn osodwyd yn y cyfammod Grâs, sef derbyn yn gyntaf y rhagorfraint mewn ffordd o râs, fel tlodion yn derbyn rhoddion Duw; ac yna cyflawni dyledswydd, fel tystiolaeth o ddiolchgarwch am y rhagorfraint a dderbyniwyd, heb ddisgwyl dim oddiwrth yr Arglwydd, a'r gyfrif y ddyledswydd a wnaethpwyd gennym ni; hyn yw'r peth y mae natur falch yn gwingo yn ei erbyn, gyda 'r anewyllysgarwch mwyaf: beth? *Derbyn y cwbl yn rhodd heb arian ac heb werth*, a chyfrif ein hunain yn weision anfuddiol wedi'r cyfan, sydd beth nas gall natur lygredig ildio iddo, nês i'r galon gael ei hadnewyddu gan awdurdodol ac effeithiol Râs.

*Ai ni fodlonir Duw a miloedd o fyheryn, neu a myrddiwn o ffrydiau olew? &c. Pa ham yr ymprydiasom*

*ac y gweddiasom ac nid adnabyddiaist?* Yw yn bendant ein ffordd naturiol o feddwl, ond er bod y ffordd hon yn gorwedd yn wrthwyneb i natur, etto hon yw'r ffordd ac y myn Duw achyb pechaduriad, neu ni chânt fyth gyfran o'i iechawdwriaeth ef: fe fyn iddynt dderbyn bywyd tragywyddol, y dechreuad o hono yma, a'r perffeithiad yn ôl hyn fel rhodd Duw trwy Iesu Grist ein Harglwydd, heb olygu un o'n cyflawniadau, fel sylfaen o'n hawl, an titl iddo. Ymffrostio sydd raid yn dragywydd gael ei gau allan, fel bo gogoniant ein Iechawdwriaeth ymchwelyd yn hollol i Râs yr hwn sydd yn teyrnasu trwy gyfiawnder cyfrifedig i fywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Am hynny meddaf, astidiwch i sicrhau ar eich meddyliau y ddull, a'r drefn a osodwyd gan Dduw yn y cyfammod grâs, lle mae y rhagorfraint a dderbyniwyd trwy ffydd yn sylfaen o ddyledswydd ac nid dyledswydd yn sylfaen o'n hawl i'r rhagorfraint. Hon yw 'r drefn a osodwyd yn y Catecism byrraf o eiddo 'r gymmanfa yn Westminister; lle mewn atteb i'r trydydd gofyniad y dywedir, fod yr ysgrythyrau yn bennaf yn dysgu pa beth yn gyntaf sydd i ddyn gredu am Dduw; ac yna y ddyledswydd y mae Duw yn ofyn ar law dyn. Ac ar ol y drefn hon, ceir yn gyntaf wrthrychiau ffydd a rhagorfraintiau'r credinwyr yn cael eu heglyro, ac yna dyledswyddau 'r gyfraith foesol, ar i'r sail hynny yn cae eu cymmell arnom, ag os bydd y drefn hon o athrawiaeth gael ei gwyr droi, fe fydd i ni ddystrywio 'r cyfammod o râs, a dychwelyd at y cyfammod o weithredoedd. Cymmaint a hyn am y cudglymiad.

Mi ddeuaf at y geiriau eu hunain, lle gallwn ddal sylw. ( 1 ) Y ddyledswydd fawr mae 'r Apostol

yn ei gymmell arnom a'r seiliau o'r blaen, nessawn. ( 2 ) Fel y mae 'n rhoi cyfrwyddiadau neullduol pa fodd y mae i ni *nessau at Dduw trwy 'r ffordd newydd a bywiol; sef, a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd &c.*

Ymherthynas i'r cyntaf, sef y ddyledswydd gyffredinol, ag fydd yn cael ei chymmell, nessawn. Nid yw 'r Apostol yn mynegu i ni yn bendant, i ba le, nag at bwy yr ydym yn agoshau, ond eglur yw oddiwrth holl amcan y testyn, a'r gwersi o'r blaen ei fod ef yn ein gwadd ni i agoshâu at Dduw, nid at Dduw a'i ystyried ei hun, o herwydd amhossibl felly i bechadur-iaid euog ddyfod atto; ond at Dduw *yng Nghrist yn cymmodi 'r byd ag ef ei hun*: dyma orsedd y gras hynny at ba un y darfu iddo ein gwadd i ddyfod gyda *hyder, fel y caffom râs ac y derbyniom drugaredd, yn gymmorth cyfamserol; Pen*. iv. 16. Y gair groeg sydd yr un peth yma ac yno.

Mae i ddal sylw arno, fel mae 'r Apostol yn rhodd i 'r cyngor, ei fod, pan y mae yn galw eraill i agoshau yn amgyffred ei hun; nid nessewch chwi ond bydded i ni nessau. Gweinidogion yr Efengyl pan byddont yn dosparthu gwirioneddau Duw, sydd i bregethu i bwrpas i'w henaidiau eu hunain, yn gystal ag i eneidiau eraill. Nid ydym ni yn traddodi gwirioneddau, neu athrawiaethau i chwi, y rhai nad ydym yn gofalu am danynt ei hunain; nage ein Heneidiau ein hunain sydd yn y ddalfa, naill o gael ei tragywyddol goll; neu eu cadw yn ôl fel y byddo i ni dderbyn, neu wrthod, y gwirioneddau gwerthfawr ag a fyddom yn eu traddodi i chwi.

Ac mewn gwirionedd ni's gallir disgwyl ini gym

hwyso gwirioneddau Duw gyda dim gwrês , a bywiogrwydd at eraill, oddieuthur i ni yn gyntaf gyda gwrês eu cymhwyso at ein heneidiau ein hunain ; ac os nad y'm yn ymborthi, ar yr athrawiaethau hynny, ac ymarferyd ar dyledswyddau hynny, ag ydym yn draddodi i chwi, ac yn ei hannog arnoch, er i ni bregethu i eraill, ni a fyddem ein hunain yn anghymmeradwy.

Y cyngor o agoshau sy'n dal allan ein pelldyr naturiol, a ndieithrwch oddiwrth Dduw: *Ni oll a grwydrasom fel defaid*, medd y prophwyd Esay. Pen. liii. 6. Pan y mae Crist amosod allan ein cyflwr gwrthgiliedig, y mae yn ei wneud tan y dull *o afradlon yn myned i wlad bell Luc*. xv. Mae tri pheth a gollasom, ag a fforffetiasom yn Adda, sef delw Duw, heddwch Duw, a chymundeb â Duw: ie cymmaint y ddarfu i ni eu colli, fel mae 'r Apostol yn eglur yn dywedyd wrthym, ein bod wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Duw yn ein cyflwr naturiol. Mae Duw yn rhoi lle i Adda ddeall hyn yn fuan yn ol y cwymp, yn y gofyniad hynny a osododd efe atto, pan oedd yn ymguddio ei hyn o'i wydd ymmysg prennau 'r ardd, *Adda pa le 'r wyt ti? Gen*. iii. 9. Fel mae Awstin, un o'r hên dadau yn deongli a'r y lle; *nid wyt lle buost o'r blaen*. Pa beth a ddaeth o'r gyfeillach a'r cymmundeb diweddar a fu rhyngof fi a thi? O fod yn fâb Duw, ti a aethost yn blentyn i ddiafol; o fod yn gyfaill a'r Nef, ad roaist mewn cyngair ac uffern. Fel hyn mae y rhwyg, a'r drylliad wedi ymledu fel y mor. A all partion, rhwng pa rai mae'r fath bellder naturiol, a moesol, gael eu dwyn yn un drachefn? Gallant; cynghor yr Apostol i agoshau sydd yn cynwys

ynddo yn eglur fod dyfodiad trwy waed Iesu, a thrwy 'r ffordd newydd a bywiol at fawrhydi 'r Nefoedd yr hwn a anfodlonwyd ac a ddigiwyd.

Hyn oedd dyfais fawr y Nêf er tragywyddoldeb, i ddwyn dyn syrthiedig etto 'nol i gymmundeb a'i wneuthurwr. Anfeidrol ddoethineb, wedi ei chynhyrfu gan anfeidrol ymesgaroedd o drugaredd, gafodd allan y ffordd a'r ffordd yw Crist. Ioan. xiv. 6. Yr unig ddiben o'i gnawdoliaeth, ac o'r cyfan oi gyfryngol waith, oedd ein dwyn ni at Dduw. 1 Pedr. iii. 18 Dwyn dieithraid, a gelynion i gariad ac undeb, sydd waith mawr ac anfeidrol; etto fe gyflawnodd y gwaith hyn trwy ei brydwerth a dalodd efe drosom, a gweithrediad ei ysbryd ynom.

Nid yw y nessâu hyn at Dduw, yn cynnwys un nessad at hanfod Duw; canys o ystyried yn hanfodol, nid yw ymmhell oddiwrth un o honom; *ynddo ef yr ydym yn byw, yn symmyd, ac yn bod.* Nid yw chwaith yn sefyll mewn cyflawniad allanol o ddyledswyddau Crefydd, *i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fyddiol: llawer sydd yn nessau at Dduw a'u geiriau, a'u gwefusau, tra byddo eu calonnau ymmhell oddiwrtho.* Ac nid yw gynnwysedig chwaith mewn prysurdeb moesol; er ei fod, fel mae yn druenus meddwl, yn waith mawr dwyn rhai pobl hyd yma: gall pobl feddu prysurdeb moesol am bethau tragywyddol, mewn ffordd, fel y pharisead a ddaeth at Grist gan ddywedyd *Athro da, pa beth da a wnaf fel 'r etifeddwyf fywyd tragywyddol?* Ie Paganiad, Mahometaniaid ac Iuddewon a allant fod yn foesol brysur yn eu bod yn agoshau at Dduw. Beth yntau meddwch chwi yw agoshau at Dduw? Yr wyf yn atteb mae gweithred y galon neu

y meddwl ydŷw, trwy ba un y mae'r enaid tan ddylanwad yr yspryd, yn felys ac yn anwrthnebol yn dychwelyd at Dduw yng Nghrist, fel unig ganol-bwynt ei orphwysfa. Yr enaid truan wedi iddo brofi ffordd Adda o neshau a chael y drws hwnnw wedi ei folltio gan y gyfraith, cyfiawnder a sancteiddrwydd Duw, fydd yn anobeithio myned i mewn trwyddo: y dyn, yn y diwedd, wedi iddo flino ei hun gan feithder ei ffordd, a chael drws y cyssegr yn agored trwy waed Iesu, a'r ffordd newydd a bywiol wedi ei hamlygu iddo yngolueni 'r gair a'r yspryd, sydd yn llefain allan ar yr olwg. Oh! dyma borth Duw, trwy y drws hwn yr âf i mewn i'th breswylfod; ie dyma fy ngorphwysfa yma y trigaf; canys chwennychais hi ac y mae wrth fy modd. O 'r fath orphwysfa felys i enaid sydd yn nhrefniad Duw o iechawdwriaeth yng Nghrist! ni's gall y dyn ond ei mawrhygu, ac ymfodloni ynddi fel dyfais ym mhob ffordd, sy'n deilwng o anfeidrol ddoethineb, gan lefain allan gyda 'r Apostol, *O! gwir yw 'r gair ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Iesu Grist i'r byd i gadw pechaduriaid*. Hyn yn gyffredinol yw ymarferiad yr enaid yn ei neshâd cyntaf, a'i rai canlynol hefyd at Dduw ymhob dyledswydd o addoliad.

Mae arferiad cysson o haeddiant a chyfryngdod Crist ym mhob cyfeiriad ŷ mae dŷn yn ei wneuthur at fawrhydi y Nefoedd; mae ef megis syfydlu ei hun yn holltau Craig yr Oesodd; y mae efe yn myned i mewn i ddirgelfâ y grisiau bendigedig, ar hyd pa rai yr ŷdym yn esgyn i'r Nef; ac yna mae yn dangos ei wynepryd, ac yn derchafu ei lef yn ei waith yn nessau at Dduw trwy 'r ffordd newydd a bywiol. Yr ydym

ni megis yn cymmeryd i fynu y iawn osododd Duw allan, yn llaw ffydd, gan ei ddal i fynu i Dduw, a dywedyd, wele, waed y cyfammod; wele o Dduw ein tarian, edrych ar wyneb dy enneiniog. Yr ydym yn hollol yn myned allan o honom ein hunain pan y bo'm yn nessau i'r cyssegr trwy waed Iesu; yr ydym yn edrych dros ben ein dyledswyddau, ein grasusau, ein tymherau a'n cyrrhaeddiadau, gan sylfaenu ein gobaith am dderbyniad a llwyddiant yn unig ar gyfrif haeddiant a chyfryngdod ein harchoffeiriad mawr, Duw a'n gwnaeth ni yn gymmeradwy yn yr anwylyd. Ac yn yr olwg hyn o bethau, mae'r enaid yn barod i ddadgan allan, fel y gwnaeth Dafydd ar yr un achos gan ddywedyd, af at allor Duw, at Dduw fy ngorfoledd pennaf. Ac os Duw a guddia ei wyneb, yr enaid a erys ac a ddisgwyl am bethau daionys ar ei law, gan ddywedyd *gobeithiaf yn Nuw, oblegid moliannaf ef etto: efe a orchymmyn ei drugaredd liw dydd, a'i gân a fudd gyda mi liw nos.* Ac os bydd i'r Arglwydd i wenu a chaniatau atteb heddychol, ni chyfrif y llwyddiant i'w ffydd, ei dymmer, n'ai wresogrwydd, ond i Grist yn unig, gan ddywedyd nid i ni, ond i'th enw dy hun dod y gogoniant. Cymmaint a hynny am y ddyledswydd enwog o nessau at Dduw.

Mae yr Apostol yn nesaf yn myned rhagddo i'n cyfarwyddo yn ein dull o agoshau: ac yn (1) y mae yn ein cyfarwyddo i nessau a chalon gywir. Hwn sydd air wedi ei lefaru yn union; pe buasau yn gorchymmyn i ni nessau a chalon berffaith-lân, a phur, yr un peth fuasau iddo erchi i ni hedfan heb adenydd, ond y mae ef yn peri i ni nessau a chalon

gywir, hynny yw, calon yn gwir ofalu am dderbyniad gyd a Duw, calon a fyddo yn gwir fodloni, ac yn ymorphwys yn y ffordd newydd a bywiol. Yn fyrr calon gywir, yma sydd wrthwyneb i galon ddauddyblig, amheüs, ddidrist, a rhagrithiol; pob twyll sydd i'w ochelyd yn ei hymarferiadau ag ef, yr hwn sydd yn chwilio 'r calonnau, ac yn profi yr arennau, ac sydd a'i lygaid fel fflam dân yn chwilio Jerusalem, megis a chanhwyllau, Psalm. li. 6. Wele ceraist wirionedd oddi mewn lle na saif y rhagrithiwr, yr hwn sydd yn nessau at Dduw a'i enau, ac yn ei anrhydeddu a'i wefusau, tra mae ei galon ym mhell oddiwrtho, o'i flaen ef. Cymmerwch ofal gan hynny fod eich calonau o feddyliau cywir tu ag at Dduw pan b'och yn nessau atto ef. ond mi gaf adael hyn hefyd, a myned rhagof at y peth mwyaf enwedigol sydd gennyf mewn golwg. sef,

Yr ail gyfarwyddyd neu gyngor mae 'r Apostol yn ei roddi mewn trefn o'n nessad llwyddiannys at Dduw, trwy 'r ffordd newydd a bywiol, a hynny yw nessau mewn llawn hyder ffydd.

Y gair gwreiddiol sydd yn arwyddo bod un wedi cyflawn goelio, neu fod yn siccr o beth; ac sydd wrthwyneb i fod yn fwhamanllyd, yn amheüs, ac yn ansiccr. Yr Apostol wedi gosod sylfaen sicr o'n dyfodiad yn yr adnodau o'r blaen sydd yn erchi i ni hyderu iddi, a gorphwys arni gyda hyder ansigledig, a hollawl sicrwydd o dderbyniad. Yr hyn sy'n angenrheidiol ymmhellach mewn ffordd o agoriad, sydd yn ein cyfarfod wrth olrhain yr athrawiaeth ganlynol. sef,

Ewyllys Duw yw bod i rhai a nessânt atto yng

Nghrist nessau mewn llawn siccrwydd ffydd, neu gyda hyder siccr, a disgwyliaid cadarn am lwyddiant a derbyniad.

Sylfaen yr athrawiaeth hon sydd eglur. Mae yn amlwg yma nad yw'r Apostol yn chwedleua am y siccrwydd hynny o râs a iechawdwriaeth ag sydd yn canlyn credu, ac sydd ganlyniad mae yr enaid yn ei dynnu wrth ddal sylw ar weithrediadau 'r yspryd glan o fewn; ond y siccrwydd sydd yn gorwedd yn yr union-gyrch weithrediad o ffydd: o herwydd amcan yr apostol yma yw, nid rhoddi arwyddion, a nodau, ond gosod allan wrthrych ffydd, sef Crist fel drws a ffordd i'r cyssegr ac fel archoffeiriad parod i'n tywys i mewn; ac ar hynny yn ein cyffroi i weithred o gredu berth'nasol i hynny, trwy nessau at Dduw a hynny mewn llawn hyder ffydd.

Wrth ymadroddi ar yr athrawiaeth hon, mi gaf trwy gymmorth Duw gynnig chwedleua.

(1) Am ffydd yn gyffredinol. (2) Am siccrwydd ffydd. (3) Am lawn siccrwydd ffydd. (4) Am y sylfaenau mae ffydd yn adeiliadu ei siccrwydd arnynt wrth nessau at Dduw. (5) Cymhwyso 'r cyfan.

# TRAETHAWD II.

## *Am ffydd yn gyffredinol.*

CYN myned rhagof i ymadroddi ar y pennau yma' mi gaf yn unig ragfynegu, fod gwybodaeth brofiadol ac ymarferol o'r athrawiaeth hon, yn beth o'r pwys mwyaf, a'r canlyniad uchaf, o ran fel mae 'r Apostol yn dywedyd wrthym Heb.vii.6. *Heb ffydd ambossibl rhyngu bodd Duw*: heb ryw radd o ffydd, nis gallwn fyth nessau yn llwyddianys at orsedd-faingc y grâs. Yr hyn a ddywedpwyd am yr Israeliaid ymmherthynas i'r Ganaan ddaiarol, na allent fyned i mewn o herwydd angrediniaeth, a ellir ei ddywedyd am y rhan fwyaf o broffeswyr tan yr Efengyl, nas gallent fyned i mewn i'r cyssegr o gymmundeb a Duw yma, nag o fwynhâd digyfrwng o hono yn ôl hyn, o herwydd angrediniaeth; ac am hynny meddaf iawn wybodaeth a derbyniad o'r athrawiaeth hon sydd o'r pwys mwyaf i'r rhai hynny ag sydd ganddynt ddim difrifwch am dderbyniad gyda Duw. Gwedi dywedyd hyn ymlaen llaw, mi âf rhagof at.

Y peth cyntaf mewn trefn a addawyd i osod gèr bron, sef ymadroddi ychydig ynghylch ffydd yn gyffredinol. Ni bydd i'm sefyll ar yr amryw rywogaethau o ffydd a grybwyllyr am danynt yn gyffredin, megis ffydd historiaol, amserol, neu wrthiol, y rhai a gaer mewn gwrthodedigion, a chredinwyr amserol;

ein hymofyniad presennol sydd yn neulltuol yng-hylch ffydd Etholedigion Duw yr hon sydd yn cael ei gosod allan yn rhagorol yn ein Catecism byrraf, fel hyn.

Ffydd yn Iesu Grist sydd râs iachusol, trwy ba un yr ydym yn ei dderbyn ac yn gorphwys arno ef yn unig am iechawdwriaeth, fel y mae yn cael ei gynnig i ni yn yr efengyl.

Er egluro 'r darluniad hŷn mi gaf gynnig ŷr ychydig ystyriaethau canlynol.

( I ) Mae, grâs cadwedigol yw ffydd. Ac y mae wedi ei fwriadu felly, o herwydd mae rhad rodd Duw ydyw, Eph. ii. 8. nid ffrwyth ewyllys rhydd ydyw, y fath flodeyn ni thyfodd erioed yng ngardd natur lygredig; nage, un o weithrediadau mwyaf yr yspryd, ar eneidiau etholedigion Duw ydyw, mewn galwedigaeth effeithiol. Nid yw yn cael ei chyfrannu ar neb ar gyfrif tymmherau da, neu gymhwysiadau blaen llaw iddi ei hyn; ffydd yw y grâs cyntaf, neu y weithred gyntaf o fywyd ysprydol, ac megis rhieni 'r grasusau eraill, o herwydd ei bod yn gwreiddio ac yn grafftio 'r enaid yng Nghrist, o ba un yn unig y caer ein ffrwyth. Cyn planniad ffydd, dim ond didduwiaeth, gelyniaeth, anwybodaeth, ac angrediniaeth, sy'n gorchguddio wyneb yr enaid; gwedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Duw, trwy 'r anwybodaeth sydd ynom; am hynny ffydd sydd raid fod yn grâs neu rad roddiad Duw yn cael ei chyfrannu heb un haeddiant blaen-llaw, tymherau da, neu gymhwysiadau ynom ni. Ffydd sydd râs iachysol, o ran pa le bynnag y mae gwir ffydd, yno y mae iechawdwriaeth wedi ei dechreu yn barod, ac a fydd yn siccr

o gael ei pherffeithio mewn amser cyfaddes. Y mae anwahanol gidunad wedi ei osod gan drefniad y Nêf, rhwng ffydd a iechydwriaeth, *Joan. iii.* 16. *Canys felly carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei unig anedig Fâb, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffal o hono fywyd tragywyddol. Marc. xvi.* 16. *yr hwn a gredo a fydd cadwedig.* Pan y byddom yn pregethu 'r efengyl dragwyddol gan roddi cynnig o Grist, ac o'i iechydwriaeth i bob creadur, yr ydym ar yr un pryd i gyhoeddi pwy bynnag fyddo ef, ag a roddo dderbyniad ffydd i'r efengyl hon o râs Duw, y bydd ef cadwedig, felly fel y mae 'r addewid hon, o gadarnhau cyd undeb rhwng ffydd a iechydwriaeth, mor helaeth ag yw cynnigiad yr efengyl, ac nid yn cael ei gwneud i gredinwyr yn unig, gan gaued allan eraill. Mae yn wirionedd diamheuol am bob Mâb i Adda ag sydd o hyd cyrrhaedd i hyfryd swn yr Iachawdwr, os bydd iddo ef gredu, y bydd ef cadwedig; a hyn yr ydym yn cael caniatâd i gyhoeddi allan yn enw Duw, fel annogaeth i bob pechadur i dderbyn ac i wneud croesaw o'n cenhadwri.

(2) Yr ydwyf yn dal sylw oddiwrth y disgrifiad hyn o ffydd, mae Crist yw ei hunig a'i phenodol wrthrych; canys ffydd yw yn Iesu Grist. Mae 'r fath berthynas agos rhwng Crist a ffydd, nas gallir eu gwahanu: cymmerwch Grist oddiwrth ffydd, ac ni fydd ond dim mewn cyfri; nid oes dim a all lanw llygad neu law ffydd, ond Crist yn unig: Crist yw bara 'r bywyd, ffydd yw genau 'r enaid ac sydd yn bwyta, ac yn ymborthi arno; Crist yw y wir sarphbrês, ffydd yw llygad yr enaid sydd yn edrych atto am iachâd; Crist yw'r amddiffynfa agored i garcharorion

gobeithiol, ffydd yw traed yr enaid ag sydd yn rhedeg atto am nodded; Crist yw ein hallor fywiol, ei haeddiant, a'i eiriolaeth fel dau gorn yr allor; ffydd sy'n ffoi i mewn yno am ddiogelwch oddiwrth y gyfraeth, a cyfiawnder Duw, y rhai sy'n ymlid ŷ pechadur am ei fywyd; Crist yw y priod fâb, ffydd fel y briodferch, sy'n ei gymmeryd ef gyferbyn ei law, gan ddywedyd yr ydwyf yn ei gymmeryd ef felly. Mewn gair, ffydd sy'n dirmygu ac yn edrych dros ben pob peth arall mewn cymmariaeth iddo ef, gan ddywedyd gyda Dafydd, Sal. lxxiii, 25. *Pwy sydd gennyf yn y nefoedd ond tydi? &c.* A chyda Phaul, *nid wyf yn chwennych gwybod dim ond Crist, a hwnnw wedi groeshoelio, ie, diau yr wyf yn cyfrif pob peth yn golled, o herwydd godidawgrwydd gwybodaeth o Grist.*

(3) Yr wyf yn dal sylw, fod ffydd yma yn cael ei discrifio yn dderbyniad o Grist, yn ol yr hyn ydym yn ei gael yn Ioan 1, 12. *Cynifer ac a'i derbyniasant ef, efe a roddes allu iddynt i fod yn feibion i Dduw, &c.* Er deall hyn, gwybyddwch fod Crist, byth yn fendigedig wrthrych o ffydd, yn cael ei osod allan yn yr efengyl, tan amrŷwiol olygiadau, a thremiadau, mewn cyfateholrwydd i ba bethau mae ffydd yn derbyn ei henwau: megis a ydyw Crist yn cael ei osod allan tan y golygiad o ymborth i'r enaid newynog; yna ffydd sy'n cael ei dodi maes fel ymborthi: a ydyw Crist yn cael ei osod allan tan y gyffelybiaeth o ddwfr y bywyd? Yna ffydd sy'n cael ei galw yn yfed: a elwir ef yn amddiffynfa? Yna ffydd a elwir ffoi atto, Heb. 17. A gyffelybir ef i wisg i'r noeth? Yna ffydd sy'n ei wisgo fel dilledyn. Y modd hyn, meddaf,

yn ôl y tremiadau a pha rai y byddo Crist yn cael ei osod allan, y mae ffydd yn derbyn ei henw, fel ym oroedd y rhai sydd yn derbyn ei henwau oddiwrth yr amrywiol wledydd a fyddont yn ei amgylchu: felly yma pan y mae Crist yn cael ei osod allan fel rhodd, yna ffydd a elwir yn dderbyniad o hono; o herwydd rhoddi a derbyn sy'n gyd berthynas, fel y gwelwch yn Ioan. iii. 27. *Ni ddichon dyn dderbyn dim,* (neu fel y mae yn ymyl y ddalen, gymmeryd dim iddo ei hun) *oni bydd wedi ei roddi iddo o'r Nef.* * Derbyn neu gymmeryd peth, nid yw ond lledrad neu yspeiliad, lle ni bydd wedi ei genhadu trwy roddiad neu ganiatad blaen llaw; felly ein derbyniad o Grist ni fyddai ond rhyfig, a chymmeriad drygionus, oni bae wedi ei roddi gan Dduw i wneuthur derbyniad o honi; a'r rhoddiad hyn o Grist yn natguddiad, a chynnygiad yr efengyl sy'n gyffredin i bawb, a chaniatad i bawb wneuthur derbyniad o hono; Ioan. vi 32. Medd Crist wrth dyrfa gymmysgedig, a rhan fwyaf o honynt yn angrediniol, fel y mae yn eglyr oddiwrth y gair y mae ef yn ei roddi iddynt, *fy nhad* (medd ef) *sy'n rhoddi i chwi y gwir fara o'r Nef,* gan feddwl ei hun. Yr ydym yn darllain yn Sal. cxix. 16. *I Dduw roddi y ddaear i feibion dynion,* hynny yw, fe wnaeth rodd o honi iddynt, i'w harferyd a'i meddiaenu ganthynt; a thrwy 'r weithred hon o rodd, cyn i'r ddaear gael

---

* *Pan y mae Crist yn cael ei dderbyn gennym, rhaid iddo gael ei gynaig, ei roddi, ei ganiatau neu ei gyfrannu ini.*

*Gwel, Owen ar ogoniant Crist, tu dal.* 128.

ei llenwi a thrigolion yr oedd yn gyfreithlon i ddyn i'w meddiannu, a'i harferyd fel ei eiddo ei hun:

Felly yma, Duw a garodd y byd o ddynol-ryw colledig felly, *Fel y rhoddodd ei unig anedig Fab, fel pwy bynnag o ddynol-ryw colledig a gredai ynddo &c. Ioan. iii.* 16. Nid yw hyn yn dwyn i mewn bryn-edigaeth gyffredinol; o herwydd nid wyf yn awr yn chwedleua am y pwrpas neu y cymhwysiad o brynedigaeth, yr hyn yn ddiammau sydd yn perthyn i'r etholedigion; ond am y rhoddiad hynny o Grist yn y gair, yr hwn sy'n rhoi sail i'n derbyniad o hono; a hyn, tu hwynt i bob amheuath, sy'n gyffredin i'r Eglwys weledig, ïe, i bawb at ba rai y mae datguddiad o Grist wedi dyfod: oblegid pe ni byddai y fath rodd-iad o Grist ag a ganiadhâu i bawb i'w dderbyn, yr angrediniol fyd nis gallai yn gyfiawn gael ei farnu yn euog am ei wrthod.

O! Yna bydded i fynydd seion lawenychu, a merched Juda (Yr eglwys weledig wyf yn ei feddwl) fod yn hyfryd, a'i dderbyn fel ymadroedd ffyddlon, "ac yn haeddu pob derbyniad, fod Mâb wedi ei roddi i ni, a Phlentyn wedi ei eni i ni,—a gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr, Tâd tragywyddoldeb, y Duw cadarn, a Thywysog tangnefedd; o herwydd y rhain sydd newyddion da o lawenydd mawr, i'r holl bobl, *Esa*. ix 6. *Luc*. ii. 10. Derbyniwch yr Iachawdwr hwn sydd yn cael ei roddi i chwi, a derbyniwch ef gyda diolchgarwch a mawl, gan byngcio allan y ffurf hono o glod a chalon ac a gwefys, diolch i Dduw am ei ddawn anrhaethol: ac os na chofiwch hyn, yr ydwyf yn dywedyd, y bydd i chwi ganlyn ar ol gwagedd ac oferedd, a gwrthod eich trugaredd eich hun.

(4) Ar y descrifiad hyn o ffydd, yr ydwyf yn dal sylw, fod ffydd yn cael ei galw nid yn unig yn dderbyniad, ond yn orphwysfa ar Grist. *Sal. xxxvii*, 7. *Distawa yn yr Arglwydd a disgwyl wrtho.* Nid ydym yn ôl fy marn i, i feddwl fod derbyniad o Grist yn un weithred o ffydd, gorphwysiad arno yn weithred arall o honi; nid ynt, ond amrywiol ddull o ymadroddion am yr un gymhwysiadol, a chyfiawnhaol ffydd, neu (fel y myn rhai) y gorphwysiad o ffydd yw y parhad a'r derbyniad. Mae amrywiol iawn o enwau i ffydd o'r un awdurdod ddwyfol, a'r ddau grybwyllwyd yn atteb y catecism, megis, bwyta, yfed, ffoi, myned i mewn, dyfod, a gobeithio, &c. Ond nid yw y rhain amrywiol weithrediadau, ond yn unig amrywiol ymadroddion o'r un weithred iachusol o ffydd, yn gwneud defnydd, neu yn cymhwyso Crist, mewn cyfatebolrwydd i'r golygiad y bo fe yn cael ei osod o'n blaen yng ngair Duw.

Nawr ymherthynas i'r dull hyn o ymadroedd o orphwys, y mae yn ein harwain i feddwl am Grist fel craig neu sylfaen gadarn, ar ba un y gallwn, ac y dylem yn wastadol roi pwys ein hachosion tragywyddol, gyda 'r hyder mwyaf.

Pan y byddom yn gosod ein pwys ar y graig, nid ydym yn ofni y bydd i'r graig suddo neu fethu tanom; felly wrth gredu, yr enaid tlawd, trwm lwythog, analluog i sefyll ar ei draed ei hun, sy'n pwyso, ac yn gorphwys a'r graig yr orsedd yma, gan fod yn hollol hyderys na fydd i'r graig hon fethu tano. Neu 'r ymymadrodd o orphwys, all fod yn meddwl am y gyffelybiaeth o ddyn yn gorphwys ar siarter am etifeddiaeth, rhwymyn neu ysgrifen law am swm o arian,

efe a orphwys arni megis rhwym dâ, a digonol; felly yr enaid, wrth gredu, sydd yn gorphwys ar ffyddlondeb a gwirionedd Duw yng Nghrist, wedi ei wystlo yn y cyfammod o râs, a'r addewidion o hono.

Ymae 'n edrych a'r y cyflawnder o râs a gwirionedd, o haeddiant ac yspryd wedi ei drysori i fynu yng Nghrist, fel y maent wedi ei gosod allan yng ngair y ffydd; gan ddywedyd gyda Dafydd, dyma fy holl iechydwriaeth: ar ba gyfri mae ffydd, Heb. xi. 1. Yn cael ei galw yn sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio; o herwydd y mae hi yn gorfoleddu yn yr addewid, fel pe bae wedi cael y peth ag ydoedd wedi ei addaw. Y gorphwys hyn fydd gogyfiwch a gobeithio, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr holl ysgrythyrau a enwid yn y Catecism ar y pen hwn. Mi gâf ddal sylw ym mhellach, cyn y byddo i mi adael y pwngc hwn, fod yr ymadroddion yma o dderbyn, a gorphwys, trwy ba rai yma mae ffydd yn cael ei gosod allan, yn dwyn, yng ngwir natur y peth yr ydys y amcanu atto, gymhwysiad neu gymmeriad ffydd ynddynt: o herwydd pan byddwyf yn derbyn rhodd, yr ydwyf yn ei gymmeryd fel fy eiddo fy hun; a phan y byddwyf yn gorphwys ar siarter neu ysgrifen-law, yr ydwyf yn gorphwys arno fel fy rhwymau digonol: ac os na chaiff hyn ei ganiatau, fe fydd i natur gynnorthwy a chynnal ffydd mewn mesur o gael ei cholli; lleddio nis gallwn byth gael ein llenwi a gorfoledd a heddwch mewn credu. Ni chaf yn unig ond chwanegu, fod y ddau ddull hyn o ymadroddion, sy'n gosod allan natur ffydd, yn ei gosod felly fel y mae allan o rester a chyfri gweithredoedd: canys pan byddo dyn tlawd yn derbyn elusen

neu ddyn blinedig yn gorphwys ei hun, nis gellir mewn iawn ymadrodd ddywedyd ei fod yn gweithio. Duw a fyn i ddynion gael ei hachub, tan y cyfammod newydd, trwy 'r fath ffordd a modd, ag y bo i weithredoedd ac ymffrost, gael yn dragywydd ei cauad allan, a grâs yn unig gael ei dderchafu.

( 5 ) Yr wyf yn dal sylw, fod ffydd yn derbyn Crist ac yn gorphwys arno ef yn unig. Yr enaid truan, cyn datguddiad iachusol o Grist, ydoedd yn cofleidio cysgodau gweigion, ac yn hyderu mewn amddiffynfeydd twyllodrus; cyffelyb i ddynion yr hên fyd, pan oedd y dyfroedd diluw yn cynyddu, yn rhedeg i'r mynyddoedd yma 'thraw, lle gallent fod yn ddiogel oddiwrth y diluw chwyddedig o ddigofaint Duw; ond pan y gorchguddiai 'r dyfroedd ei dirgel luoedd, y mae yn eu gadel hwynt, ac yn ffoi at graig yr oesoedd, gan ddywedyd *ofer yw disgwyl ymwared o'r brynniau, nag o luosogrwydd y mynyddoedd: yn yr Arglwydd yn unig y mae iechydwriaeth ei bobl. Nid oes un enw tan y nêf trwy ba un y mae'n rhaid i ddynion fod yn gadwedig, ond trwy enw 'r Iesu.* Pob dyn wrth natur gan ei fod ef yn briod a'r ddeddf yn Adda, sydd yn amcanu dringo i'r nef ar hyd ysgol dorredig y cyfammod o weithredoedd, ac i fyned tros y diluw o ddigofaint Duw ar hyd Bont syrthiedig y gyfraith: ond fel y mae byw yr Arglwydd, eich ymegniadau y ffordd hon a ânt ar feth; *o herwydd trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnwd.* Duw a sefydlodd bont o gymundeb rhwng nef a daiar, trwy ufudd-dod, Angau, ac eiriolaeth ei Fâb tragywyddol; a phob ffordd arall i'r Nêf oddigerth hon, sydd wedi ei chau gan gyfiawnder a sancteidd-

rwydd Duw. Ioan. xiv. 6. Medd Crist yno, *myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd; nid yw neb yn dyfod at y tâd ond trwyo fi.*

( 6 ) Ffydd sydd yn derbyn Crist, ac yn gorphwys arno am iechydwriaeth. Hyn sydd yn pennu at y diben sydd gan y pechadur o'i flaen, yn ei waith yn ymaflyd gyntaf yng Nghrist, y mae ef yn ffoi atto am iechydwriaeth. *Act.* xv. 11. *Yr wyf yn credu mae trwy râs ein Harglwydd Iesu Grist y byddwn gadwedig.* Wrth iechydwriaeth yma, nid ydym i ddeall yn unig tragywyddoldeb o hapusrwydd yn y mwynhad o Dduw yn ol amser, ond iechydwriaeth yn cael ei dechreu yn y bywyd presennol; iechydwriaeth o'r dechreuad o honi mewn ail enedigaeth, hyd ei pherffeithiad mewn gogoniant. Yr enaid wrth gredu, sydd yn gorphwys ar Grist am faddeuant, yr hyn yw gwaredigaeth oddiwrth euogrwydd pechod, a barn ddamniol y gyfraith: mae'n gorphwys arno am sancteiddrwydd; yr hyn yw gwaredigaeth oddiwrth ffieidd-dra ac arglwyddiaeth pechod; am ogoneddiad yr hyn yw gwaredigaeth oddiwrth y gwir fod o bechod. Ond och! Y rhan fwyaf o'r eglwys weledig sydd heb ganddynt un amgyffred arall am Grist, ond yn unig, megis Iachawdwr i'w cadw hwynt oddiwrth uffern, a'u gwaredu oddwrth y digofaint dialeddol. Gwirionedd diamheuol yw, fod ein Iesu ni yn gwaredu oddiwrth y digofaint sydd ar ddyfod; ond pa fodd y mae yn gwneuthur hynny; trwy ein hachyb oddiwrth bechod yn y lle cyntaf. *Ei enw* ( medd yr Angel ) *ar yr hwn y gelwir ef fydd Iesu o herwydd fe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau. Ei neges cyntaf a mwyaf oedd condemnio*

*pechod y teyrn fradwr pennaf hwnnw a chyntafanedig y diafol. Rhuf. viii. 3. I orphen trosedd a ι wneuthur diwedd ar bechod.* Ac am hynny mae hi yn gadwedigaeth oddiwrth bechod, yn yr euogrwydd, yr halogrwydd a'r awdurdod o hono, am ba bethau y mae ffydd yn derbyn Crist, ac yn gorphwys arno.

( 7 ) Yr wyf yn dal sylw, fod ffydd yn derbyn ac yn gorphwys ar Grist fel y mae yn cael ei gynnig yn yr efengyl. Y cynnig hwn o Grist, er ei fod yn cael ei enwi yn olaf yn y descrifiad hyn o ffydd, etto y peth cyntaf mewn trefn natur ag y mae ffydd yn ei gredu yw; oblegid oni bydd i un gredu bod Crist yn cael ei gynnig iddo ef yn neulltuol; megis rhodd Duw, ac fel sylfaen gobaith a chynnorthwy, ni bydd iddo fyth ei ddrbyn ef neu orphwys arno am iechydwriaeth.

Hyn sydd mewn trefn i gredu, crediniaeth fod Crist a iechawdwriaeth ynddo yn wir ddiammau yn cael ei gynnig, mewn trefn ei fod yn cael derbyniad a chymmeradwyaeth: am hynny, bydded i chwi hollol goelio bod Crist yn eiddo chwi yn y cynhygiad, a darfod i Dduw roddi i chwi fywyd tragywyddol yn ei Fâb; canys hyn yw tystiolaeth Duw, Ioan. v. 4. ac oddi eithr i chwi gredu hyn, *chwi wnewch Dduw yn gelwyddog, o herwydd nad ydych yn credu y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fâb.* O feistraid, *i chwi y mae Mâb wedi ei roddi, ac i chwi y mae plentyn wedi ei eni, a gelwir ei enw ef Rhyfeddol;* a darfod i Dduw roddi i fyd colledig yng nghynnigiad a dadguddiad yr efengyl, fod i *bwy bynnag a gredo ynddo ef na choller, ond caffael o hono fywyd tragywyddol, Ioan.* iii. 16. Yn nessaf chwi

ellwch ddal sylw mai yn yr efengyl y mae y cynnygiad hyn yn cael eu wneuthur, a'r rhodd hon o eiddo Duw yn cael ei dal allan i chwi. Beth yw 'r efengyl? Ond gair o râs, gair yr addewid, gair y ffydd, gair o fywyd ac iechydwriaeth, ac attoch chwi y mae gair yr iechydwriaeth wedi ei ddanfon; ac yn y gair hwn, Crist a'i gyfiawnder tragywyddol, a'i holl ddigonol gyfiawnder sydd wedi ei ddwyn yn agos attoch chwi, mewn trefn o'ch derbyniad a'ch cymhwysiad o hono at eich heneidiau eich hunain trwy ffydd. Nid rhaid i chwi ddringo i'r nêf, neu gloddio i uffern, mewn ymofyniad am Iachawdwr; o herwydd y gair sydd yn agos attat ( a Christ yn y gair ) hwn yw gair y ffydd yr hon yr ydym ni yn ei bregethu. Rhuf. x. 6—9. Fel y mae swm o arian yn cael ei dwyn yn agos at ddyn mewn rhwym ysgrifenedig fo yn cael ei gynnyg iddo, felly y mae Crist yng air yr addewid yn cael ei ddwyn yn agos attom ni, Actau. ii. 39. I chwi mae yr addewid &c. Ac heb y gair hwn o râs ac addewid, credu fyddai beth amhossibl o herwydd na's gallai ffydd byth ymaflyd yng Nghrist, na Duw ynddo ef, heb y gair hwn o ffydd.

Pe bawn yn erchi i chwi gredu ŷ byddai i rvw wr roddi swm o arian i chwi, chwi a'm tybiech yn ynfyd, oddigerth iddo roddi ei air y byddai iddo wneuthur felly; nis gallech gredu nag ymddiried ynddo, heb ei air neu ei sgrifen i fod yn sylfaen ddigyfrwng o hynny; felly yma, ein ffydd, ymddiried, neu'n hyder nis gallai fyth gael sail heb air o râs ac addewid Duw; ac wrth dderbyn ei air ŷr ydych yn ei dderbyn ef ei hunan, a holl drysorau ei râs wedi eu

gosod i gadw yng Nghrist, a chwedi eu gosod i'ch dwylaw chwi yn y gair.

Yn nessaf y mae i'w ystyried yn y ganghen hon o'r desgrifiad, fod ffydd yn ei derbyniad, a'i chymhwysiad o Grist, yn rhaid iddi gael ei rheoli gan, a dwyn cyfatebolrwydd i'r cynhygiad fyddo yn cael ei wneuthur iddi yn yr efengyl.

Canys yma fe fynegir ini fod ffydd yn dderbyniad ac yn orphwysfa arno ef fel y mae yn cael ei gynnyg, &c. Hyn sydd yn cymhwyso ein derbyniad o Grist, ac yn gwahanu rhwng ffydd y gwir gredadyn, ac eiddo dynion ffurfiol a rhagrithiol, Am hynny daliwch sylw ar hyn fel peth o'r pwys a'r canlyniad mwyaf, sef pa un a ydyw eich ffydd yn dyfod i fynu at y cynhygiad, ac yn gydseiniol ag ef. Mi gaf egluro hyn yn y pedwar peth sydd yn canlyn.

( I ) Y mae Crist yn cael ei gynnyg yn rhâd yn yr efengyl, Esa. lv. 1. Dat. xxii. 17. Felly y mae ffydd yn ei dderbyn a'i gofleidio fel rhâd rodd Duw. Gochelwch feddwl brynu 'r perl ag arian ac â gwerth, eich gweithredoedd, dyledswyddau, a'ch cymhwysiadau da, fel pe trwy y rhai'n, y caech eich addasu i wneuthur derbyniad o Grist, neu fod Duw yn gwneuthur i chwi fwy o roesaw ar gyfrif y rhai'n, i dderbyn ei rodd annrhaethol; nagè, nagê, cofiwch mai yn y gwaith o gredu, eich bod i ysgwyd eich dwylaw oddiwrth ddal gafael yn y fath fribiaeth; o herwydd nis gallir prynnu y perl o uchel bris yn y ffordd yna, gwir yw, gelwir credu yn brynnu. Esa. lv. 1. Ond yna boed i ni gofio pa fath brynniad ydyw, pryniâd heb arian ac heb werth. Pris

Duw yn marchnad yr efengyl yw dim: ac etto mae hyn yn beth mor fawr gyda dŷn fel na chaniatâ balchder ei galon iddo i'w rhifo i lawr. Nis gallwn feddwl dyfod i fynu, yn hytrach dylaswn ddywedyd, nis gallwn feddwl dyfod at bris Duw; yr wyf yn meddwl o gymmeryd Crist ac iechydwriaeth ynddo a thrwyddo am ddim, llawer sy'n dywedyd wrth Dduw fel y dywedoedd Abraham wrth frenin Sodom, Gen. xiv. 23. *Ni chymmeraf o edau hyd carrau esgid, nac o'r hyn oll sydd eiddo ti rhag dywedyd o honot, myfi a gyfoethogais Abraham*. Felly yn gymmwys y mae 'r pechadur balch hunain-gyfiawn yn dywedyd wrth Dduw ynghylch y peth yn llaw, Duw sydd yn dyfod yng ngorchwyliaeth yr efengyl, gan ddywedyd, dewch bechaduriad, mi a'ch gwelaf yn druain, yn resynol, yn dlodion, yn ddeillion, ac yn noethion: nid oes gennych ddim i roi i mi fel cyflawn werth am fywyd, cyfiawnder ac iechydwriaeth; am hynny nid wyf yn gofyn nac arian na gwerth gennych, ond yn gwneuthur rhâd roddiad o fy Mâb, ac o'i holl gyflawnder ef, am ddim, ond yn unig ei gymmeryd ef fel fŷ rhâd rodd, ac fe fydd ei hun a'r cyfan sydd yn dyfod gyd ag ef, yn eiddo chwi dros byth; nage, medd balchder y galon, yr ydwyf yn gyfoethog, ac a amlhais mewn meddiannau, nid wyf yn sefyll mewn diffyg o ddim ar law Duw: os rhydd Duw imi fywyd ar ammodau 'r cyfammod cyntaf, fel y caniatawyd i Adda; neu os (o herwydd fy mod eisaes yn bechadur, ac yn analluog i roddi perffaith a di-bechod ufudddod) bydd i Dduw esmwythau ammodau 'r cyfammod o weithredoedd, a chaniatau i mi hawl yng Nghrist, a iechydwriaeth am fy mod yn credu, neu

ar gyfrif fy amcanion union a'm dymuniadau da, neu fy ymegniadau diffuant, yr wyf yn hollol fodd-lon: ond i gymmeryd Crist, a bywyd tragywyddol am ddim, sydd beth na's gall y galon falch ddeddfol ymddarostwng iddo. O, pa wrthwynebiad melldigedig sydd yng nghalon dyn yn erbyn bod yn ddyledwr i râs, ac i râs yn unig! I brynu heb arian ac heb werth, sydd ddirgelwch nas gall calon hunanol dyn ei amgyffred.

Ond feistraid, grâs yw ffydd ac sydd yn dyfod i dderbyn, ac nid i roddi: neu os bydd iddi roddi un peth, hynny fydd drygau yr enaid, ond nid dim o ddaioni a gymmer hi arni i roddi. Y pechaur, wrth gredu a ddywaid, Arglwydd, yr wyf yn rhoddi i ti fy ynfydrwydd, ac yn dy gymmeryd di yn lle fy unig ddoethineb. Yr wyf yn rhoddi fy euogrwydd, fel y b'o i ti fod yn Arglwydd fy nghyfiawnder; yr ydwyf yn rhoddi i ti fy halogrwydd, ac yn dy gymmeryd di yn sancteiddrwydd; yr ydwyf yn rhoddi i ti fy nghadwynau, a'm llyffetheiriau, fel y byddo i mi fod yn ddyledwr i ti am fy mhrynedigaeth a'm rhydd-did; yr ydwyf yn rhoddi i ti fy nhlodi ac yn dy gymmeryd di fel fy unig gyfoeth; yr ydwyf yn rhoddi i ti fy nghalon ddrygionys, grwydredig, galed, a thywyllodrys, fel y rhoddo i mi y galon newydd, a'r yspryd newydd sy' wedi eu haddaw yn dy gyfammod. Fel hyn, meddaf, y mae Crist yn cael ei gynnyg yn rhâd, a rhaid iddo gael ei dderbyn yn rhâd.

(2) Ymae Crist yn cael ei gynnyg yn hollol, Crist cyfan sydd yn cael ei gynnyg, ac felly hefyd y mae'n rhaid ei dderbyn. Mae rhai, ag sydd yn eu ffordd o broffesu, ac o gymeryd arnynt gredu,

megis pe baent yn hanneru ac yn rhannu Crist: y mae rhai mor bell yn ei dderbyn fel prophwyd, fel yr ymddarostyngant i addysg ei air, a thrwy hynny wedi dyfod i gyrraedd mesur mawr o wybodaeth ddealldwriaethol ym mhethau Duw; ond gan eu bod yn anghydnabyddus a dysgedigaeth ei yspryd, nid ydynt fyth yn dyfod i wybodaeth o'r gwirionedd, fel ag y mae yn yr Iesu; ac oddi yma y mae, nad y'nt fyth yn ffoi atto fel iawn am beuhod, neu ymddarostwng i'w awdurdod fel Brenhin, a rhoddwr cyfraith; o herwydd cyflawniad o'i swydd brophwdol sy'n palmantu 'r ffordd tu ag at ei dderbyn fel offeiriad a Brenhin.

Rhai etto a'i derbyniant ef fel offeiriad, i'w hachyb rhag uffern a melldith; ond, trwy barhau yn eu hanwybodaeth tan ddatguddiad yr efengyl, a rhodio yn ol helynt y byd hwn, ac nid yn ol cyfreithiau Crist, maent yn amlwg yn ei wrthod ef yn Brophwyd ac yn Frenhin. Eraill etto, ac yr ydwyf yn ofni am ormod yn ein dyddiau ni, sydd yn proffesu eu bod yn derbyn Crist fel Brenhin a rhoddwr cyfraith, er niweid i'w swydd offeiriadol, tra maent yn dych'mygu, trwy eu hufudd-dod i'w gyfraith, yn enwedigol y gyfraith efangylaidd newydd o ffydd ac editeirwch (fel y geilw rhai hi) i bwrcasu hawl i Iechydwriaeth; trwy ba foddion naill a'i maent yn cauad allan yn hollol Gyfiawnder Crist, neu ynte yn cymmysgu eu gweithredoedd eu hunain o ffydd ac edifeirwch am ben cyfiawnder Crist yn y gwaith o dderbyniad a chyfiawnhâd ger bron Duw; (felly yr wyt tithau) ymha ddau achos, ni lesâ Crist ddim iddynt; y maent wedi syrthio oddiwrth râs, fel y

mae yr Apostol yn mynegu yn eglur, Gal. v. 2, 4. Fel hyn, meddaf y mae llawer o rith bropheswyr yn hanneru ac yn rhannu swyddau Crist. Ond a rannwyd Grist? naddo, Crist yn gyfan, yn gwbl, ac yn ddi-ran sydd raid i'w dderbyn, neu ddim o Grist oll; nid oes dim o Grist a all yr enaid crediniol fod mewn diffyg o hono. Gwirionedd diamheuol yw, mai ffoaduriaeth gyntaf enaid truan deffrous, pan y b'o yn ffoi o wydd wyneb y gyfraith a chyfiawnder Duw; sydd at Grist fel offeiriad; o ran y mae yma, ac yma yn unig, y mae yn cael cynnorthwy a chysgod yn y lloches o gyfiawnder tragywyddol: ond ar yr un munud ag y mae yn ei dderbyn fel Offeiriad am gyfiawnhâd, mae ef yn ymddarostwng i'w frenhinol awdurdod, fel y dywedoedd gwyr Israel wrth Gideon, *Tydi a'n gwaredaist o ddwylaw ein gelynion, am hynny llywodraetha arnom ni: O Arglwydd, Arglwyddi eraill a arglwddiaethasant arnom ni, ond trwyot ti yn unig y gwnaun goffadwriaeth o'th Enw.*

( 3 ) Crist sydd yn cael ei gynnyg, yn neulltuol i bob un o wrandawyr yr efengyl, ac yn gyfatebol i hynny y mae ffydd yn ei dderbyn ef gyda chymhwysiad neulltuol. Y galwad a'r cynnygiad cyffredinol sydd yn cyrrhaedd pob un yn ddi-wahân, ac y mae Duw yn llefaru wrth bob pechadur mor neullduol a phe bae yn ei alw wrth ei enw neu eu gyfenw. Maddeuant pechod sydd yn cael ei bregethu i chwi; yr ydŷm yn ymbil arnoch chwi i ymgymmodi: yr addewid sydd i chwi; ac, o'm rhan i, nid wyf yn gwybod pa fath efengyl y mae dynion yn ei gwneuthur, ag nad ydynt yn dioddef hyn. Yn awr,

meddaf, ffydd, yr hon yw adlais galwad a chynnygiad yr efengyl, sydd raid iddi dderbyn Crist ac Iechydwriaeth yn y cynnygiad o honynt, gyda chymhwysiad neullduol at yr enaid ei hun. I Ddyn i orphwys ar y grediniaeth gyffredinol o fod Crist yn cael ei gynnyg i'r eglwys, neu i'r etholedigion, neu fod wedi ei berswadio o allu Duw a'i ewyllysgarwch i achyb pawb a'r a ddelont at Grist, nid yw fyth ond ffydd gyffredinol, yr hon a all cythreuliad, gwrthodedigion, a rhagrithwyr fod yn feddianol arni. Tydi ddyn, tydi ddynes, y mae Crist yn sefyll wrth dy ddrws di, tydi yn neullduol, ie tydi a alwyd ac a orch'mynwyd i gredu yn Enw Mâb Duw. yma y gorwedd y wasgfa a'r cyfyngder mawr o gredu; yr enaid tan argyhoeddiad a deffroad, trwy gyfrwysdra Satan a gweithrediadau calon dwyllodrus, sydd yn taflu ymaith y gair o râs a ffydd, fel pe na bae yn perthyn iddo; hyd oni byddo i Dduw, trwy ei awdurdod a'i Yspryd lewyrchu y Gair, a goleuo meddwl y pechadur, gan beri i'r dyn ganfod, mae iddo ef y mae 'r Gair hwn o Iechydwriaeth wedi ei ddanfon: ac yma y mae ef yn credu gyda chymhwysiad neullduol, nid yn unig ewyllys da i ddynion ar y ddaear, ond ewyllys da i mi; Crist sydd yn cael ei gynnyg i mi, ac am hynny yr wyf yn ei gymmeryd yn Iachawdwr i mi fy hun; yr addewid a'r cyfammod sydd yn cael ei gyfeirio fel diogelwch i mi. Ond o bossibl y traethaf ychwaneg am hyn tan yr ail ben cyffredinol.

(4) Duw sy'n galonnog, ac mewn prysurdeb, yn ei gynnygiadau o Grist, ac o'i Iechydwriaeth. O Feistraid! na feddyliwch fod Duw 'r gwirionedd

yn cellwar a chwi, pan y byddo yn gwneuthur cynnygiad o'i rodd annrhaethawl, neu ei fod yn cynnyg i chwi beth, nad oes ganddo feddwl o'i roddi. Y mae yn d'wedyd, ïe y mae yn tyngu gyda 'r difrifwch mwyaf, i'w fywyd ei hun, ei fod mewn prysurdeb, ac nid oes ganddo hoffder yn eich marwolaeth. A chwedi hyn i feddwl nad yw mewn prysurdeb, beth ŷdyw ond rhoi ar Dduw 'r gwirionedd gelwydd ac an-udoniaeth? Nis gellwch gynnyg i un dyn geirwir fwy o ddiystyrwch. Pa mor feius ynte yw, cyfrif y fath beth i'r hwn y mae yn ammhosibl iddo ddywedyd celwydd, ac sydd yn cassâu pob twyll a rhagrith mewn eraill gyda pherffaith gasineb? Fel hyn meddaf, y mae Duw mewn prysurdeb yn ei gynnygiadau o Grist; felly ffydd sydd galonnog ac mewn prysurdeb yn ei dderbyn a'i gymhwŷso: A'r galon y mae dyn yn credu i Gyfiawnder. Holl galon a holl Enaid Duw sydd yng nghynygiad ac addewid yr Efengyl. Jer. xxxii. 41. Ac onid yw yn beth rhesymol i ni roddi iddo ef gyfarfod cyfattebol, trwy gredu a'r holl galon ac a'r holl enaid? Nid un gynneddf, ond holl alluoedd yr enaid sydd yn cyfarfod yn y gwaith hwn o gredu; er yn wir i ddywedyd yn gywraint, gyda 'r doeth a'r dysgedig Dr. Owen " Ffydd sydd yn deall yn " y deall o ran ei bod a'i harosfa; yn yr ewyllys " a'r galon o ran ei heffeithiol weithrediad." Cymmaint a hynny gaiff wasanaethu am y peth cyntaf mewn trefn, sef traethu ychydig am natur ffydd yn gyffredinol.

——o——

## TRAETHAWD III.

*Am sccrwydd ffydd.*

YR ail beth mewn trefn, oedd ymadroddi ychydig ynghylch siccrwydd ffydd. A'r hyn sydd gennyf i'w gynnyg ar y pen hwn, mi wnâf fy nghoreu ar allu ei cynnwys tan ŷ pum peth enwedigol sydd yn canlyn.

(1) Fod y ffydd hon a fum yn ei desgrifio ddau fath o siccrwydd, sef cydsyniad a chymhwysiad; y blaenaf yn ddiau sydd yn dal siccrwydd deall neu wybodaeth, Col. ii. 2. Llè mae 'r Aposol yn crybwyll am lawn siccrwydd deall, yr hwn y dylai bob Cristion lefain ar ei ôl, ag sydd feddiannol gan bob credadyn mewn mesur llai neu fwy; *o herwydd hwynt-hwy yn unig ag sydd yn adnabod ei Enw a ymddiriedant ynddo*, *Sal.* ix. 10. Y siccrwydd hyn o ddeall, fel ac yr wyf yn ei gymmeryd, sy'n sefyll mewn adnabyddiaeth o wirionedd, a godidawgrwydd pethau dwyfol a goruwch-naturiol: y mae pelydr gogoneddus Haul Cyfiawnder wedi tywynnu i mewn i enaid y dyn, yr hwn ydoedd o'r blaen yn eistedd mewn tywyllwch ac ym mrô a chysgod angeu; trwy ba un y mae ef ag oedd yn dywyllwch ynddo ei hun, wedi dyfod i fod yn oleuni yn yr Arglwydd. Mae 'n d'od yn awr i ganfod pethau ysprydol mewn goleuni arall amgen nag o'r blaen; y mae megis yn

myned i mewn, i fyd newydd o ryfeddodau ar ba gyfrif y dywedir ein bod wedi ein galw o dywyllwch i ryfeddol oleuni Duw. Fe allai fod gan y dyn, o'r blaen, beth gwybodaeth freuddwydiol, fwhwmanllyd, ac allanol ynghylch y pethau hyn; efe a glywodd am danynt wrth swn y glust, ond yn awr ei lygaid a'u gwelodd, ac y mae yn canfod cymmaint o sylwedd mewn pethau anweledig a thragywyddol, a phe byddai yn eu canfod hwynt a'i lygaid corphorol.

Hyn sydd yn cael ei alw gan yr Apostol, Heb. xi. 1. Yn siccrwydd y pethau nad ydys yn eu gweled. Y mae 'r fath siccrwydd a hyn ag sydd yn cyrraedd i fynu at amlygiad diamheuol; fel y gellwch berswadio dyn cyn gynted, ei bod yn hanner nôs pan byddo haul ganol dydd yn tywynu arno yn ei lawn ddisgleirdeb, a pherswadio dyn tan weithrediadau bywiol o ffydd, nad oes dim sylwedd a godidawgrwydd mewn pethau goruwch naturiol, ag sy wedi eu dadguddio. Hyn sydd mor hanffodol i ffydd, ag y mae yn beth tra chyffredin tan yr hên Destament, ac yn aml tan y newydd, ei bod yn derbyn ei henw oddiwrtho, Esa. liii. 11. Jer. xxxi 34. Ioan. xvii. 3. Ond i ddyfod ychydig agosach at y peth mewn llaw, y mae, meddaf, mewn ffydd siccrwydd o gydsyniad ymha un y mae'r dyn yn siccr gredu mae pa beth bynnag a ddywedodd Duw yn ei air, ei fod yn wir; a hynny nid ar dystiolaeth dynion, gweinidogion, neu angylion, ond ar dystiolaeth Duw 'r gwirionedd, yr hwn sydd ammhossibl iddo ddywedyd celwydd; sydd yn llefaru yn ei air, gan ddywedyd, fel hyn y dywaid yr Arglwydd. Ond mewn modd neullduol yr enaid sy'n rhoddi cyd-

synied i'wirionedd addewidion yr efengyl, a dadgyddiad y gair, am berson, anian, swyddau, a chyflawniadau ein Harglwydd Iesu Grist, fel Gwaredwr, Meichnydd, ac Iachawdwr pechaduriad colledig. Gan fod deall y dyn wedi ei oleuo a gwybodaeth o Grist, a chwedi cael golwg arno trwy yspryd doethineb a dadgnddiad, y mae 'n gweled fod y cwbl a lefarodd Duw am Grist yn y gair yn wir; felly fel nas gall lai yn yr achos hyn, na chyd-uno a'r Apostol, mai mewn gwirionedd gwir yw 'r gair, fod Crist wedi dyfod i'r byd i gadw pechaduriad, I Tim. i. 15. Y mae ef yn canfod gwirionedd a ffyddlondeb Duw gymmaint wedi ei rhwymo yn y cyfammod a'r addewidion o'hono, fel y maent yn fwy siccr na'r bryniau tragywyddol; Esa. liv. 10. Yn awr y siccrwydd hyn o gydsyniad sy'n cael ei alw yn iaith yr yscrythyr yn gredu ymadroedd yr efengyl, Esa. liii. 1. Yn dderbyniad o dystiolaeth Duw; a'selio mai geir-wir yw Duw, 1. Ioan. v. 10, 11.

( 2 ) Y mae mewn ffydd, siccrwydd o gymhwysiad, neu o ddefnyddio 'r gwrthrych at ei achos ei hun. Yr hyn sy'n cael ei alw yn fynych yn yr ysgrythyrau, yn orphwys, yn hyderu, neu yn ymddiried yn yr Arglwydd, ac yng wirionedd gair ei râs, a'i addewid. Trwy 'r gweithrediad hyn o ffydd, y mae 'r enaid yn cymmeryd adref yr addewid, ac yn ei chofleidio fel diogelwch hollol a da iddo ei hun: fe ddywedir am Seintiau yr hen Destament, Heb. xi. 13. Eu bod yn cyfarch yr addewidion o bell, ac yn eu cofleidio hwynt: eu ffydd yn yr addewid ydoedd yn grediniaeth, neu yn gydsyniad gyda chymhwysiad o hono at eu heneidiau eu hun, yn

gymmaint a'u bod yn edrych ar yr addewid fel eu sail. Ac oddi yma y mae yr hyn yr ydym yn ei gael yn yr adnod flaenaf o'r bennod honno, ffydd yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio. Y gweithrediad cymhwysiadol hyn o ffydd ym mha un y mae bywyd, enaid, a melusder ffydd, yn sefyll, sy'n dra hyfryd yn cael ei osod allan a'i egluro yn Nafydd; Duw a wnaeth addewid iddo o goron a theyrnas Israel, yr hyn a gynhaliodd i fynu ei ysprydoedd, pan, trwy lîd a chynddaredd Saul, yr oeddid yn ei hela fel Pettris ar hyd y mynyddoedd; ond trwy olylu 'r addewid ynghyd a ffyddlondeb yr addawwr, y mae yn gwaeddi allan, Sal. lx. 6. *Duw a lefarodd yn ei Sancteiddrwydd, llawenychaf:* ac o herwydd bod gennyf ddiogelrwydd ei addewid, mi a anturiaf ddywedyd gyda hyder a siccrwydd, eiddo fi yw Gilead, eiddo fi yw Manasseh. Yr ûn modd, gwir ffydd sy'n cymhwyso trugaredd Duw yng Nghrist at yr enaid ei hun mewn modd neullltuol, ar y sail o râd a ffyddlon addewid Duw. Mi allwn yma gadarnhau, fod y lliaws o Ddifinyddion protestanaidd yn cytuno yn eu barn yn y peth hyn. Ni châf yn bresenol, ond tynnu allan ddescrifiad o ffydd a roddwyd gan y mawr a'r dysgedig Dr. Owen yn ei Gatecism neu egwyddorion o athrawiaeth Crist; lle gwedi gofyn pa beth yw ffŷdd gyfiawnhaol? ei atteb yw, "Graslawn Orphwysiad ar
" addewidion rhâd Duw yng Nghrist Iesu am dru-
" garedd, gyda chrediniaeth gadarn o'r galon, o fod
" Duw yn Dâd cymmodol i ni ym Mâb ei gariad."
I brofi pa beth, y mae ef yn dyfod a'r ysgrythyrau canlynol, 1 Tim. i. 16. Ioan. xiii. 15. Ioan. xix. 25.

Gal. ii. 20. 2. Cor. v. 20, 21. Rhuf. iv. 5. Heb. iv. 16. Rhuf. viii. 38, 39. Ac yn ymyl y ddalen, y mae ganddo y geiriau hyn, "Ac am y ffydd hon "yr Yspryd Glân yw 'r effeithiol achos, y gair "yw 'r offeryn, y Gyfraith anhygrych yn dangos "i ni ein trueni, yr efengyl yn ddi-gyfrwng, trwy "ddal allan Iachawdwr. Ffydd ymhellach, medd "ef, sydd yn y deall o ran ei bod a'i hanfod, yn "yr ewyllys a'r galon o ran ei heffeithiol weith-"rediad."

Yn ol y cyfrif hyn o ffydd, y siccrwydd hyn ac yr wyf yn crybwyll am dano, sef, Crediniaeth o Addewid Duw gyda chymhwysiad (fel y dywed Calfin,) nis gellir ei wahanu oddi wrth ffydd mwy na goleuni oddi wrth yr haul. Y mae hi yn dwyn adref ras a thrugaredd Duw at yr enaid yn neillduol, ag oedd o'r blaen yn gyffredinol yng nghynhygiad yr efengyl.

Ac heb y cymhwysiad neillduol hwn, ni's gall cynhygiad ac addewid yr efengyl wneud i ni ddim gwasanaeth; ond sydd fel gwerth yn llaw ffol, heb un galon i wneuthur deunydd o hono. Ein bywyd a osodir o'n blaen, ni bydd iddo fyth ein porthi, oni chaiff ei gymhwyso trwy ei fwytta; felly oddi-euthr i ni fwytta cnawd, ac yfed Gwaed Mâb y Dyn trwy ffydd gymhwysiadol, nid oes fywyd ynom. Pa odidawgrwydd bynnag sydd yn Nhriagl Gilead, oddigerth i'w arferyd trwy ffydd, nis gwellhâ fyth friw Merch Seion. Mae ffydd yn atteb ac yn cyfatteb â gair y ffydd fel y mae 'r sêl ar cwyr yn atteb y naill y llall, Zech. xiii. 9. *Dywedaf, fy mhobl yw efe; ac yntau a ddywad, yr Arglwydd yw fy Nuw.*

Ni ollwng ffydd mo'i gafel yn ei Fy, pe byddai yr holl fyd yn ei gwrth-ddywedyd. Mêr yr Efengyl (fel y mae Luther yn dal sulw) sydd yn y geiriau hyn, Fy, ac Ein. Y mae ef yn peri ini ddarllain y rhain gyda difrifwch mawr; *Tolle meum, et Tolle Deum*, medd un arall, *Cymmerwch ymaith hawl, a chwi a gymmerwch ymmaith Dduw, chwi a gymmerwch ymaith Grist.*

Iaith gyffredinol ffydd yn yr ysgrythyrau, yw rhoi ei hun allan mewn geiriau o hawl; mae ganddi blesser a boddlonrwydd neullltuol yn y geiriau yma, Fy, ac Ein, ac yn eu traddodi yn ei gennau fel tammaid melus. Gwelwch mor felus y mae Dafydd yn taro ar y tant hwn, Ps. xviii. 1, 2. Nid dim llai nag wyth waith a'r un anadl, y mae ef yn ail adroedd ei gymhwysiadol Fy, Fy Nghadernid, fy Nghraig, fy Amddiffynfa, fy Ngwaredydd, fy Nuw, fy Nharian, a chorn fy Iechydwriaeth, a'm huchel Dwr.Ië, mor afaelgar yw ffydd yn y peth hyn, fel y deil hi ei Fy, yn wyneb Duw wedi ei anfoddloni, ac yn cuddio ei wyneb, Sal. xxii. 1. *Fy Nuw, fy Nuw; pa ham i'm gwrthodaist?* Fy, sydd air o ffydd, medd Fflafel ar y testyn; felly Esa. xlix. 14. *Sion a ddywedodd, yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd.* Ond nid rhaid i mi roi amlygiadau yn y chwaneg o'r fath yma, gan fod, fel y mae un yn dal sulw, ffydd yn yr ysgrythyrau yn gosod ei hun allan, wrth y ddau air hyn, Fy, ac Ein, nid dim llai na 300 o weithiau. Fel hyn y gwelwch pa fath siccrwydd sydd mewn ffydd, sef siccrwydd o gydsyniad a chymwysiad. Y blaenaf a ellir ei gael mewn mesur

helaeth, ac o ryw ddull mewn cythreuliaid a gwrthodedigion: yr olaf sydd o natur wahanol, ac yn perthyn yn unig i ffydd etholedigion Duw, ac o'i weithrediad ef; er yn wir y gellir cael rhyw gysgod o honi mewn ffydd ryfygus rhagrithwyr, am ba un y cawn lefaru drachefn. Gwybodaeth a chydsyniad y'nt ragddarpariaeth at gymhwysiad, ym mha un y mae 'r unig fywyd o gyfiawnhaol a chadwedigol ffydd yn sefyll. A phan y byddom yn llefaru am danynt y naill ar ol y llall, nid ydynt fel pe byddent yn wir wahanol yng weithrediadau yr enaid; o herwydd yr wyf yn eu cymmeryd fel un di-gymysg anwahanol weithrediad yr enaid; hyd nod yn yr olwg a'r datguddiad cyntaf o Grist trwy'r gair a'r Yspryd; nis gall yr enaid lai gyda Thomas na llefain allan, fy Arglwydd am Duw. Nid wyf yn meddwl, bod yr enaid, bob amser yn y funud gyntaf o gredu yn gallael rhedeg cyn belled, a llefaru felly, a'r tafod: ond 'rwyf yn meddwl mai hyn a ddywedai ffydd, pe byddai iddi ond cael ei phen oddi tan y baich o anghrediniaeth, a llygredd tu-fewnol, a pha un y mae hi wedi ei gorchfygu.

Yr ail beth, a gaf gynnig yw, fod gwahaniaeth mawr rhwng siccrwydd ffydd (yr hon a fum yn awr yn ei ddesgrifio.) a'r siccrwydd o deimlad, yr hwn sydd yn canlyn ffydd. Y siccrwydd o ffydd sydd iniawn-gyrch weithrediad yr enaid; ond y siccrwydd o deimlad sydd weithrediad yn ol o hono. Y siccrwydd o ffydd sydd ganddo ei wrthrych a'i sylfaen oddi allan; ond yr hwn sydd o deimlad sydd ag ef ganddo oddi mewn, y gwrthrych o siccrwydd ffydd yw Crist wedi ei addaw ei ddatguddio a'i

gynnyg yn y gair, y gwrthrych o siccrwydd teimlad, yw Crist wedi ei ffurfio o fewn i ni gan yr Yspryd glân. Y siccrwydd o ffydd yw yr achos, yr un o deimlad yw yr effaith; y blaenaf yw y gwreiddyn, y llall yw y ffrwyth. Siccrwydd o ffydd sy'n golygu 'r addewid yn ei ddianwadalwch, yn tarddu oddiwrth ffyddlondeb yr hwn addawodd; y siccrwydd o deimlad sy'n golygu 'r addewid yn y cyflawniad gweithredol o honi. Trwy y siccrwydd o ffydd y credodd Abraham y cae Fâb yn ei henaint, o herwydd i Dduw yr hwn nis gallai ddywedyd celwydd, ei addaw; ond trwy siccrwydd o deimlad, y credodd efe pan y cafodd Isaac yn ei freichiau. Trwy y cyntaf, yr oedd Noah yn siccr na byddai iddo ef a'i deulu gael ei cyfrgolli yn y dwfr diluw; trwy y diweddaf yr oedd efe yn siccr o hynny, pan y gorphwysodd yr Arch ar ben mynydd yr Ararat, ac y dychwelodd y dyfroedd i'w lle priodol eu hun. Trwy y cytaf, yr Isrelíad crediniol oeddynt siccr y byddai Canaan yn etifeddiaeth iddynt o herwydd i Dduw wneuthur iddynt addewid o honi; trwy yr olaf yr oeddynt yn siccr o honi, pan y darfu iddynt fyned trwy 'r Iorddonen, destrywio 'r hên drigolion, a rhannu 'r hyfryd Wlâd wrth goelbren yr etifeddiaeth i lwythau Israel. Amser a ballai i mi, egluro 'r peth hyn trwy siamplau sydd ar lawr yn yr ysgrythyrau sanctaidd. Ffydd sy'n siccrhau ei hawl mewn pethau da i ddyfod, o herwydd eu bod wedi eu haddaw: teimlad sydd yn siccrhau ei hawl mewn pethau dâ presennol, o herwydd eu bod mewn meddiant; ffydd a ddywad, fy Nuw a wrendu arnaf; teimlad a ddywed, fy Nuw a wrandawodd arnaf;

ffydd a ddywad, fe'm dwg i allan i oleuni, a mi a gâf weled ei gyfiawnder; teimlad a ddywed, efe a'm dygodd allan i'r goleuni, ac yr ydwyf yn canfod ei gyfiawnder. Ymhellach, ffydd sydd yn ymarferyd a phethau nad ydys yn eu gweled, ac yn gobeithio am danynt; teimlad sydd yn ymarferyd ynghylch pethau a welir, ac mewn meddiant mwynhaol; ffydd a ddywaid, efe yw fy Nuw, oblegid iddo ddywedyd yn y cyfammod, Mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw: teimlad ymhellach a ddywed, efe yw fy Nuw oblegid mi wn i'm henaid ddywedyd wrth yr Arglwydd, fy Nuw ydwyt ti. Ffydd sydd yn sicrhau yr enaid o faddeuant pechod yng waed yr Oen, o herwydd i Dduw ddywedyd, *byddaf drugarog wrth eu hanghyfiawnderau, eu pechodau, au hanwireddau ni chofiaf mwyach*: teimlad sydd ymhellach yn sicrhau yr enaid ó feddiant, oblegid cydnabyddiaeth o bardwn mewn rhyw wenau teimladwy o wyneb yr Arglwydd, a rhyw weithrediadau iachysol o râs. Trwy ffydd yr ydwyf yn credu fy iechydwriaeth, o herwydd ei phwrcassu, ei haddaw, a'i meddiannu gan fy mhen gogoneddus Iesu Grist: ond trwy deimlad yr ydwyf yn credu fy iechydwriaeth, oblegid fy mod yn cael yr iechydwriaeth hon wedi ei dechreu yn y gwaith o ail enedigaeth, ac yn casl ei dwyn yn y blaen yn y gwaith o sancteiddhâd, *gan fod yn hyderus yn hyn y bydd i'r hwn a ddechreuodd y gwaith dâ ei orphen hyd ddydd ein Harglwydd Iesu Grist*.

Y trydydd peth yw, y saif sicrwydd ffydd ei dîr, pan y byddo sicrwydd o deimlad wedi ei hollol golli a myned ymaith. Esample eglur a gawn o hyn

a gawn yng Nghrist, pan oedd diffyg hollol o amgŷlchiadau teimladwy, ïe, pan oedd dim ond cwmmwl temhestlog o ddigofaint dialeddol yn ei amgylchu ac yn torri arno fel ein Meichniydd ni; etto, ar y pryd hyn, y siccrwydd o ffydd oedd yn maentimio ei hawl, ac yn ei ail adrodd, gan ddywedyd, Fy Nuw, Fy Nuw, ar y sail nid yn unig o'i Faboliaeth dragywyddol, ond o'r addewid a weaeth y Tâd iddo ef; Sal. lxxxix. 26. *Efe a lefa arnaf, tydi yw fy Nhâd, fy Nuw, a chraig fy iechydwriaeth*. A rhag i chwi dybied fod hyn yn unig ond peth yn perthynu i'r pen, gwelwch amlygrwydd o hono hefyd yn yr eglwys, yr hon yw ei Gorph, Esa. xlix. 14. *Sion a ddywedodd, yr Arglwydd am gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd*. Ar ba rai y mae Rytherford dduwiol yn dra melus yn deongli, " Efe a all fod yn Dduw ag a fyddo yn anghofio ac a fyddo yn ymguddio i'm teimlad, ac etto i'm ffydd fy Nuw, a fy arglwydd; fel y gall y wraig gredu fod ei gwr, yr hwn sydd anfoddlon iddi, ac yn ei gadael, i fod yn wr iddi fyth, Heman Sal .lxxxviii. Sydd mor bell wedi ei adael o ran presenoldeb teimladwy, fel y mae ef o ran ei deimlad wedi cael ei osod yn y pwll isaf, *mewn tywyllwch, yn y dyfnderau*, adnod 6. ïe adnod 7. y mae yn chwanegu, *y mae dy ddigofaint yn pwyso arnaf; ac â'th holl donnau i'm cystuddiaist*. Ac adnod 15, 16, 17. *Dygais dy ofn ac yr ydwyf yn petruso, dy soriant a aeth drosof: dy ddychryniadau am torrodd ymaith; fel dwfr y'm cylchynasant beunydd; ac a'm cyd-amgylchynasant*. I ba iselder ychwaneg y gallasai plentyn Duw gael ei ddwyn iddo tu yma i uffern?

ac etto ffydd, ymhlith yr holl gymylau hyn, sydd yn dyfod i mewn, a chanddi ei chymhwysiadol Fy, adnod 1. O Arglwydd Dduw fy iechydwriaeth. Ac mewn gwirionedd, pe ni b'ai ryw ddiddanys siccrwydd mewn ffydd, yn gweithredu ar y cyfammod anghyfnewidiol, tan oruchwyliaeth mor gymmylog ac echrydus, nis gwn pa beth a allai gadw credadyn rhag rhedeg i hollol anobaith; ond y grâs o ffydd a anturia ddiogelwch yr enaid, ar ystyllen grêf yr addewid, hyd yn oed yn yr amser y b'o cysuron teimladwy wedi myned yn ddrylliau yn erbyn tonnau cynddeiriog o drallodau allanol a thu fewnol, fel dau-for-gyfarfod yn myned tros y credadyn. Dafydd a gafodd brofiad o hyn. Sal. xxvii. 13. *Diffygaswn pe na chredaswn weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw.* oddi yma hefyd y mae, fod yr Arglwydd yn cyfarwyddo ei bobl i'r ymarferiad o ffydd yn y cyfryw achos. Esa. 1. 19. *Pwy yn eich mysg sydd yn ofni yr Arglwydd, yn gwrando ar lais ei wâs ef, yn rhodio mewn tywyllwch heb lewyrch iddo? Goheithied yn enw'r Arglwydd, ac ymddiried yn ei Dduw.*

Y pedwerydd peth yw, pan y byddom yn llefaru am siccrwydd ffydd, nid yw ei ddeall, fel pe bae pob un ag sydd yn feddianol o ffydd yn berffaith rydd oddiwrth amheuaeth. Yr wyf yn amgyffred, fod hyn yn dychrynnu ac yn ymlid llawer ymaith oddiwrth yr athrawiaeth hon o siccrwydd ffydd; maent yn meddwl, od oes siccrwydd yn hanffod ffydd, y canlyn, fod pob gwir gredadyn a chanddo bob amser y fath siccrwydd ag a fyddo yn rhydd oddiwrth amheuaeth; hyn sydd hollol wrthwyneb i bro-

fiadau cenhedlaeth y rhai cyfiawn. Ond y gwrthadl hyn sydd yn tarddu oddiwrth gamsyniad amlwg, fel pe byddai ffydd a chredadyn yn un. Yr ydym yn wir yn cadarnhau nad oes dim amheuaeth mewn ffydd, o herwydd fod ffydd ac amheuaeth yn gyffredinol yn yr ysgrythyrau yn hollol wrthwyneb y naill i'r llall; ond er nad oes dim amheuaeth mewn ffydd, etto mae llawer o amheuath yn y credadyn, o herwydd ffyniant anghrediniaeth a phechod tufewnol. pe bai yn wir nad yw siccrwydd o natur ffydd o ran nad yw y credadyn bob amser yn siccr, trwy yr un ffordd o ymresymmu, fe ganlynai nad yw gorphwysiad o'r un natur a ffydd, o herwydd nad yw credadyn bob amser yn weithredol yn pwyso ac yn gorphwys ei hun ar yr Arglwydd: neu nad yw hyderu o natur ffydd, o ran nad yw y credadyn bob amser yn hyderu. Fe ellid yn gystal wrthddadlu, nad yw gweled yn natur y llygaid, o herwydd fod yr ymrantau weithiau ynghauad, neu nad yw gwrês yn natur y tân, am nad yw ei wrês yn deimladwy, o ran y lludw sydd yn ei orchguddio: neu nad yw goleuni o natur yr Haul, o herwydd bod diffyg arno weithiau gan y lleuad sydd rhyngddo a'r ddaear yn y cyfamser, symmudwch y lludw, a gwrês y tân a ymddengus; ond i'r lleuad symmud ymaith yr haul a rydd ei lewyrch; agorwch yr amrantau, a'r llygaid a welaint: felly symmudwch ymaith anwybodreth, anghrediniaeth, a phob beichiau eraill o lygredigaeth oddiwrth ffydd, ac yna gwelwch pa beth fydd ei natur. Canys yr hyn sydd yn natur ffydd yn ei hanfod yw y gofyniad presennol, ac nid bath sydd yn trigo yn y credadyn yr hwn y mae ganddo ffydd. Mae yn

y credadyn megis tyrfa dau lu, grâs a llygredigaeth, cariad a gelyniaeth, edifeirwch a chalon-galedwch, ffydd ac anghrediniaeth, ond nid yw y rhain i'w cymmysgu ynghyd, o herwydd eu bod yn yr un dyn. Nid oes i ni gaead allan hynawseiddrwydd ac hyfrydwch yn yr Arglwydd, allan o natur cariad, o ran trwy weddill gelyniaeth a llygredigaeth fod ei gariad wedi cael ei orchfygu, fel nad yw yn gallael canfod dim o'r fath beth ynddo, ond yn hytrach y gwrthwyneb o gariad: yr un peth a ellid ddywedyd am rasusau eraill. Felly yma nid oes i ni gasglu, nad oes dim o'r sicrwydd cymhwysiadol hyn mewn ffydd, o herwydd y ffyniant o anghrediniaeth, a'r ambeuon sydd yn tarddu oddiwrth hynny.

Y pumed peth i'w osod ger bron yw hyn. Fel y mae gwahaniaeth mawr rhwng y Fy o ffydd, a'r Fy o deimlad; felly y mae llawer rhagor gwahaniaeth rhwng y Fy o ffydd ( neu o wir deimlad; yn tarddu oddiwrthi ) ar Fy o ryfyg. Hyder ryfygus, sydd ganddi ei Fy, yn gystal a ffydd ac union brofiad; fel y gwelwn yn amlwg yn achos Balaam. Num. xxii. 18. *Pe rhoddai Bâlac i mi aur lonad ei dŷ, ni allwn fyned tros air yr Arglwydd Fy Nuw.* Yn awr meddwch, gan fod hyder ryfygus yn gallael llefaru yn iaith gwir ffydd, a phrofiad ymha le y mae 'r gwahaniaeth yn gorwedd? Y mae hwn yn ofyniad defnyddiol a phwysig; a chyd ag ymddiried ar Dâd y goleuni, mi gâf amcanu ei eglurhau yn yr ychydig bethau canlynol.

( 1 ) Sicrwydd ffydd sydd yn derbyn, ac yn cymhwyso Crist at yr enaid yn neulltuol, fel y mae yn gorwedd yn y datguddiad a'r rhoddiad o hono a

wneir i bechaduriaid yn y gair; yr hwn yw sylfaen ddigyfrwng ffydd; lle mae hyder rhyfygus er ei bod yn honni hawl ynddo; etto nid yw yn ei wneuthur ar y sail hon, neu yn nhrefn a ffordd Duw o drosglwyddiad. Y mae'r Apostol yn mynegu i ni, Rhuf. x. 8. Fod Crist a'i gyfiawnder a'i iechydwriaeth wedi eu ddwyn yn agos attom yng air y ffydd.

Beth yw diben y cyfammod grâs; ac o'r cyhoeddiadau, a'r cynnygiadau, a'r addewidion yma o râs, a wnair i ni yn yr efengyl ogoneddus? Ond yn unig i ddwyn Crist yn agos attom, fel ac y b'o i ni trwy gredu ei allu ddyfod i'w gymhwyso ef a'i holl gyfiawnder at ein heneidiau, Ioan. xx. 31. *Eithr y pethau hyn a yscrifenwyd, fel y credoch chwi mae'r Iesu yw'r Crist, Mâb Duw, a chan gredu y caffoch yn ei enw Ef.* Os mynnwn gael Crist a bywyd tragywyddol ynddo ef, nid rhaid i ni esgyn i'r nêf, neu ddisgyn i uffern mewn ymofyniad am dano, fel ac y mae'r Apostol yn llefaru, Rhuf. x. 6, 7. Ond i ymofyn am dano yn yr ysgrythyrau, o herwydd mae hwynt hwy sydd yn tystiolaethu am dano ef. Crist sydd yn cael ei ddwyn yn agos attom ni yn y dystiolaeth, neu Gôf-lyfr Duw yn y gair, lle mae yn rhoddi i ni fywyd tragywyddol yn ei Fâb Crist Iesu, 1 Ioan. v. 7. Yn awr ffydd yn ei huniawn gyrch, weithrediad, meddaf, sydd yn cymmeryd Crist ac yn honni hawl ynddo, a'r y caniatâd a'r rhoddiad hyn sy'n cael ei wneud o hono yng air yr addewid, ac nid ar un sylfaen arall yr anturia hi siccrhau ei hawl ynddo ef, fel gwr cywir, yr hwn ni chyffwrdd a meddiannau, arian

E.

neu etifeddiaeth un arall, oddi eithr iddo gael siarter ysgrifen, neu destament, addewid, neu ryw gyffelyb ddiogelwch, ar ba un y geill ef gyd ag awdurdod i'w wneuthur, heb ddyfod i mewn trwy un ffordd ddrygionus: lle mae'r lleidr ar yspeilydd yn gosod eu llaw arnynt, heb edrych am y cyfryw ganiatâd, os geill gael yr hyn y mae ei feddwl ef atto yn rhyw fodd, mae ef yn esmwyth, yma y mae camsyniad marwol yn ffydd amrywiol o wrandawyr yr efengyl; hwy a ymaflant yng Nghrist a'i iechydwriaeth ond neidiant dros y rhodd a'r caniatâd o hono yn y gair, fel di gyfrwng sylfaen o'u ffydd. Os ystyriwn brofiadau 'r Saint yn yr ysgrythyrau, ni a gawn eu ffydd yn penderfynu yn ddigyfrwng ar y gair: yn ei air y gobeithias, medd, Dafydd. Cofiaf dy air trwy yr hwn y peraist i mi obeithio. Llawenychais yn dy air yn fwy nag un a fyddai wedi cael mawr olyd. Eu ffydd a ddaeth trwy wrando neu ddarllain y gair. Dyma'r cerbyd ym mha un y mae'r Arglwydd yn marchogaeth, pan y byddo yn gosod ei hun allan i ni fel gwrthddrych o'n ffydd a'n hymddiried; am hynny y ffydd honno ac sydd yn edrych dros ben yr addewid a chynygiad yr efengyl, nid yw ond ffydd ryfygus. Eiddo fi yw Gilead, eiddo fi yw Manasseh, medd Dafydd yn yr 60. Sal. A nodwyd eisoes, o herwydd i Dduw dyngu yn ei Sancteiddrwydd: felly medd ffydd gymhwysiadol, maddeuant sydd yn eiddo fi, gogoniant sydd eiddo fi yng Nghrist; ie, Duw ei hun sydd Dduw i mi, o herwydd i Dduw ei wneuthur ei hun drosof, a'r holl bethau hyn yng Nghrist i mi, yn y cyfammod o addewid, neu Destament fy Mrawd hynaf, yn hwn a seliwyd ac

a gadarnhawyd a'i waed. Ond, meddwch chwi, oni all rhagrithwyr rhyfygus gymmeryd arno i seilio ei ffydd ar yr addewid; a honni hawl ynddo, ar yr unig sail honno? Attebiad i hyn a'm harwain at yr.

(2) Y gwahaniaeth rhwng y Fy o ffydd a'r Fy o ryfygus hyder; hynnu ŷw hyn, er y gall dyn rhyfygus redeg ymaith a'r addewid, etto nid yw yn cofleidio 'r Addewid fel y mae ef yn yr Iesu, neu fel y mae 'r Iesu ynddo ef. Hyn sydd ddirgelwch yr hwn yn unig a all gael ei eglyro yn hollol gan yr hwn a agorodd y llyfr, ac a ddatododd ei saith sêl ef. Yr olwg sydd gennyf fi arno, sydd fel y canlyn; y cyfammod, a'r holl addowidion o hono, a wnawd i Grist fel yr etifedd cyntaf, trwy enedigaeth a phwrcas; efe yw Cyntaf-anedig Duw, ac am hynny yr etifedd o'r etifeddiaeth o fywyd tragywyddol. Ond heblaw hyn, fel yr ail Adda, trwy ei ufudd-dod a'i farwolaeth, gan iddo gyflawni y gyfraith a boddloni cyfiawnder; yr addewid o fywyd, a fforffetiwyd trwy bechod ac anufudd-dod yr Adda cyntaf, a ddaeth i gael ei sefydlu arno ef, a'i hâd ynddo ef.

Yn awr gan fod y pethau yn sefyll fel hyn, yr enaid, wrth gymhwyso 'r addewid, sy'n cymmeryd ei hawl o honi, nid ar sail o ddim ynddo ei hun, ond yn dyfod i mewn yn unig ar hawl a thitl Crist; ei gyfiagnder ef yw 'r unig gymmwys haeddiannol ammod o'r, ac sydd yn rhoi titl i'r cyfammod, ac o'r holl addewidion o hono. Yma y mae gwendid hyder ryfygus yn gorwedd, na chafodd dyn erioed ei hollol guro oddiwrth gyfammod Adda; y mae yn

wastad yn ymofyn ei hawl i'r addewid ynddo ei hun; rhyw ammodau neu gymhwysiadau da wedi cael eu gweithio ynddo neu gael eu gwneuthur ganddo. Y modd hyn y mae llawer yn ceisio gweithio eu hunain yn etifeddion i'r addewidion, ac i fywyd tragywyddol, ond byth nis gallant; pa ham? Oblegid nad ydynt trwy ffydd yn dyfod yn etifeddion yng Nghrist, neu ar ei hawl a'i ditl ef; a sylfaen arall ni's gall neb osod; o herwydd rhodd Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Fel hyn meddaf, ffydd ryfygus nid y'w yn cofleidio yr addewid fel y mae yng Nghrist, ym mha un y mae'r holl addewidion yn ie, ac yn Amen. Ac yna meddaf, nid yw yn cofleidio 'r addewid fel ac y mae yn yr Iesu, o herwydd fel y mae 'r holl addewidion yng nghrist, felly y mae Crist yn yr holl addewidion.

Beth a addawyd yn ei destament ef, ond ef ei hun, ynghyd a'i holl gyflawnder? Efe oedd y drugaredd fawr a addawyd i'n Teidiau. Pan y darfu i'r cyfammod gael ei gyhoeddi i Adda, ac yn ôl hynnu i Abraham, beth amgen ydoedd nag addewid o Grist? A phan, ym mhen talm o amser y darfu i'r cyfammod o râs gael ymhellach ei eglyro mewn amrywiol addewidion, beth oeddynt i gyd, ond Crist, a'r grâs sydd ynddo ef, wedi ei rannu allan i ni, fel y gallem ni trwy ffydd i'w gymhwyso ef, a'r grâs sydd ynddo yn ol ein hangen? Ac oddi yma y mae, fod y credadyn, wrth gymhwyso 'r addewid, yn cael Crist ynddo, yn ei fwytta ef, ac y mae yn orfoledd ac yn llawenydd calon iddo; y mae ef yn cael yr Arglwydd yn ei air ei hun o râs,

a hyn sydd yn ei wneud yn adfywiad ac yn gyssur mawr i'w enaid; y mae ef yn yfed o ddidwyll laeth y gair, o herwydd ynddo y mae ef yn profi fod yr Arglwydd yn dirion.

Ond yn awr ffydd ryfygus sydd yn cymmeryd i fynu yr addewidion noeth, ac am borthi 'r enaid ar Grist, yn, a thrwy 'r addewid yn unig heb ffydd. Dyn ag sydd yn feddiannol o Gaist trwy ffydd, nid yw Crist a'i addewid trwyddo, a chanddo, fel gwr a fyddai a'i arian wrth ei ymyl yn ei brenfol; nid yw y cyfammod a'r addewidion ganddo fel dyn a fyddai a'i scrifeniadau a'i siarters yn ei flwch, y y rhai o bossibl ni bydd iddo edrych drostynt un waith yn y flwyddyn; nag yw, ond y mae ganddo ef Grist yng air ei râs, fel dyn a chanddo ei fara yn ei ymyl, yr hwn y mae ef yn feunyddiol yn ymborthi arno ac yn byw trwyddo: oddi yma y mae y ffydd gŷmmwysiadol hon yn cael ei galw yn fwytta cnawd ac yfed gwaed Crist; pa eiriau sy'n dal allan y fath gymhwysiad o Grist attom ein hunain, ag sy'n dwyn gyd ag ef fagwriaeth enaid. Gwir ffydd sydd yn gwreiddio 'r enaid yng Nghrist, yn gymmwys fel mae'r pren yn gwreiddio yn y ddaear; rhinwedd ffrwythlawn y ddaear sydd yn myned i mewn i'r pren, a'r pren yn y cyfamser yn gyrru ac yn lledu ei wraidd yn y ddaear, gan dynu nodd a lleithder oddiwrthi, a danfon dosparthiad o fagwriaeth trwy'r corff, trwy ba un y mae ef yn cynyddu ac yn dwyn ffrwyth: felly yma, mewn credu, yspryd y bywyd, ag sydd yng Nghrist Iesu, sy'n myned i mewn i'r enaid; ac yn y cyfamser, megis gwreiddyn a changen, yn myned oddiwrth bob cyn-

eddf i'r enaid, ac yn gafaelu yng Nghrist, ac yn tynnu nodd oddiwrtho, trwy ba un y mae'r enaid yn cael ei wneud i gynhyddu, a blodeuo mewn grâs a sancteiddrwydd. Oddi yma y dywedir "ein bod o'i waith ef, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da. Ac y bydd i'r rhai a blannwyd yn nhy 'r Arglwydd flodeuo yng nghynteddoedd ein Duw ni."

( 3 ) Gwir ffydd sydd yn derbyn, ac yn cymhwyso Crist yn ol y drefn a osododd Duw yn ei swyddau ef, ond ffydd ryfygus sydd yn gwyrdroi 'r drefn honno. Y drefn a osododd Duw yn y cyflawniad a'r cymhwysiad o swyddau Crist yw hon, Crist sydd yn dyfod trwy ei air a'i yspryd fel prophwyd, ac yn goleuo meddwl y pechadur a gwybodaeth o'i gyflwr colledig with natur, ynghyd a'r ffordd o waredigaeth trwy ei ddadleuol waed a'i haeddiant, ar ba un y mae'r enaid trwy ffydd yn troi atto fel offeiriad, gan gymmeryd nodded tan gysgod ei dragywyddol gyfiawnder; ac felly yn ymddarostwng iddo fel Brenhin, gan dderbyn ei gyfraith o'i enau a rhoi ei hun i fynu tan ei lywodraeth, allan o egwyddor o ddiolchgarwch iddo ef, yr hwn a'i prynnodd a gwerth. Ond yn awr ffydd ryfegus y deddfwr sy'n gwyrdroi ac yn cythryddo y drefn hardd a osodwyd gan ddoethineb anfeidrol ymhlith swyddau Crst: oblegid yn ei ffordd ef o gymhwyso Crist, y mae ef yn dechreu ar ei swydd frenhinol gan gymmeryd arno ufuddhau iddo fel rhoddwr cyfraith, ac ar y sail hon yn disgwyl y bydd i Grist i'w achyb ef fel offeiriad, trwy ei gyfiawnder; ac yn y modd hyn yn gwneuthur ei ufudd-dod ei hun yn sail

o'r cyfrifiad o gyfiawnder Crist. A pheth arall yw hyn, ond dwyn arian a gwerth? Yn wrthwyneb i orchymmyn amlwg Duw, Esa. lv. 1. Nid all dim fod a mwy o dueddiâd enbyens ynddo at ddymchwelyd y rhydd-did o râs Duw, yn y gwaith mawr o gyfiawnhad a iechydwriaeth. Oddi yma y mae fod yr Apostol yn ymosod cymmaint yn erbyn y drefn hon o ymofyn cyfiawnhad, yn y galatiad; fel ac y mae yn dywedyd wrthynt yn eglur, eu bod hwynt y ffordd hon, yn gwneud eu hunain yn ddyledwyr i gadw yr holl ddeddf; ie medd ef "ni lesa Crist ddim i chwi; y rhai ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf, chwi a syrthiasoch oddiwrt râs," Cal. v. 2—4. Y dull hwn o wrthdroi y drefn o swyddau Crist, a gwneud y weithred gyntaf o ffydd i benderfynu arno fel Brenhin, fel y mae hi yn ffordd ag sydd yn cyttyno fwyaf a nattur, yr hon sydd yn rhedeg gyda thuedd nerthol tu ag at gyfam nod Adda, felly yr wyf yn barnu fod nattur yn cael ei chadarnhau yn fawr yn y ffordd hon o osod allan yr iechydwriaeth trwy Grist, trwy ddull athrawiaeth rhai dynion yn ein dyddiau ni; y rhai sydd yn cymmell ffydd ac edifeirwch, fel gorchymynion newydd, wedi ei rhoddi allan gan Grist yn yr efengyl, y rhai na ofynwyd erioed yn y gyfraith foesol a'r deg gorchymmyn. Oblegid, os ydyw hyn felly, yna y rhaid i ni yn gyntaf ufuddhau i Grist fel Brenhin, trwy ediferhau a chredu mewn trefn i ni gael ein cyfiawnhau ganddo ef fel offeiriad: heblaw amrywiol o ganlyniadau enbydus eraill, y rhai nas gellir eu gochelyd yn ol yr addurn hyn o gyfraith newydd; y cyfan o ba beth a ellir ei gochelyd trwy ddysgu,

yn ol ffordd difinyddion uniawn-gred, nad oes dim gorchymynion yn yr elengyl a'i chymmeryd ynddi ei hun; ac nad yw Crist yn yr efengyl yn rhoddi i neb gyfreithiau newydd, ond yn cymmell yr hen gyfraith, sef yr un foesol, yr hon sydd wedi ei mabwysio i mewn i'r oruchwyliaeth efengylaidd, ac sydd yn ein rhwymo ni i gredu yng Nghrist, ar gyfrif ei fod wedi ei ddatguddio i ni yn yr efengyl, ac yn ganlynol i editerhau hefyd mewn modd efangylaidd.

Canys i fod y dyledswyddau hyn o ffydd ac edifeirwch, o ran ei hanfod, yn ofynol hyd yn oed yn y gorchymmyn cyntaf o'r gyfraith foesol sy'n ddiamheuol eglur; ac yr ydwyf yn edrych arno yn beth erchyll fod hyn yn cael ei wrth-ddadlu gan neb ag sydd yn cofleidio ac yn addef athrawiaeth eglwys Yscottland, yn enwedigol y catecism mwyaf, lle y mae y pwngc hwnnw yn cael ei benderfynu yn amlwg, yn agoriad i'r rhagddywededig orchymmyn a ragfynegwyd. Ond nid yw gymmwys i sefyll ar y gwrthddadl hwn mewn traethawd o'r nattur yma; ac os anghenrhaid a fydd, fe ellir ymadroddi arno yn neullduol.

(4) Gwahaniaeth arall rhwng y Fy o ffydd a'r Fy o ryfyg yw hyn, siccrwydd ffydd a amddiffyn ei hawl a'i hyder gostyngedig, hyd yn oed tan argyhoeddiadau llymion o euogrwydd, dwfn a gofidus deimlad o oruwchafiaeth pechod; lle mae'r hyder ryfygus yn palluac yn methu wrth weled llwyddiant pechod. Y rheswm o hyn yw, am fod sylfaen hyder ryfygus ar ryw beth oddi mewn i'r dyn; rhyw dymherau a chymhwysiadau da, y rhai y

mae ef ŷn tybied ei fod yn ei gael ynddo, y rhai wedi iddynt gael ei dryllio gan rythriadau a lywodraethol drachwantau, nid oes ganddo ddim yn ychwaneg i edrych arno, y mae sylfaen ei obaith wedi myned ymaith. Ond yn awr, ffydd sydd yn adeiliadu ac yn sylfaenu ei hyder, nid oddimewn, ond ar ryw beth oddi allan, sef cyfiawnder tragywyddol yr Arglwŷdd Iesu: a thrugaredd Duw yn rhedeg yn y ffrwd hon wedi ei gosod allan yng ngair yr addewid; yma ŷ mae ffydd yn gosod ei thraed i lawr, ac ar y sylfaen hon y mae hi yn sefyll, a phyrth uffern nis gorchfygant hi: ac fel hyn, gan fod sylfaen ei hyder oddiallan nid yw yn cael ei siglo gan bob terfysg oddi mewn. Amlygrwydd o hyn a gawn yn Nafydd, Sal. lxv. 2. Y gwr Duwiol, yn y rhan flaenaf o'r adnod, sy'n llefain allan, tan y teimlad o nerth, gallu ac euogrwydd pechod, *pethau anwir am gorchfygant*. Ond beth a ddywed ffydd yn y cyfriw achos? *Ein camweddau ni ti a'i glanhau*. esampl arall o'r un nattur, a gawn yn yr un gwr duwiol, Sal. Cxxx. Yr ydym yn ei gael ef yn adn. 3. tan y fath deimlad o bechod ac euogrwydd, fel wrth olygu ei hun yn wyneb y gyfraith a chyfiawnder, nis gallai lai nag addef, *Os creffi ar anwireddau Arglwydd: O Arglwydd pwy a saif?* Ond ym mha lê y mae ffydd Dafydd yn cael lle i sefydlu ei hyn yn y cyfriw achos? Yn unig yn nhrugaredd a grâs Duw cyfammodol yng Nghrist; ac am hynny y mae ef yn chwanegu, *Ond y mae trugaredd gyda thi, fel i'th ofnir; ac aml ymwared fel y bo' i ti gael ymofyn am danat*.

Yr wyf yn addef, y gall gwir gredadyn gael ei

siglo ẏn flîn, o ran hyder ei hawl yng Nghrist, pan y byddo anwiredd yn gorchfygu; ond hyn yn ddiau i'w ei wendid, ac nid ei ffydd. Llawer o wir gredinwyr sydd yn byw mwy wrth deimlad nag wrth ffydd; ac oddi yma y mae, eu bod mor fuan yn cael eu siglo pa bryd bynnag ybyddo profiad teimadwy yn cael ei orchgyddio, tan y teimlad o bechod yn gorchfygu, er bod y poen o hono yn gyfiawn gerydd o'i hynfydrwydd.

Pa bryd bynnag y gwellhao ffydd o glwy anghrediniaeth; a golygu pa beth yw yr enaid, a pha beth sydd ganddo yng Nghrist, ac yn y cyfammod, hi a adnewydda ei chadernid a'i hyder; ac a ddwg gyda hynny nerth i'r enaid yn erben llygredigaeth, fel yr â hi allan yn ei erbyn, fel Cawr wedi ei adfywio gan wîn.

Ond, meddwch chwi, onid all ffydd ryfygus adnewyddu ei ffydd hefyd? Yr ydwyf yn atteb yn ddiau hi a all: ond yma y mae'y gwahaniaeth. Gwir ffydd sydd yn myned i weithio mewn ffordd hollol wrthwyneb, tu ag at godi 'r enaid, oddiwrth y ffordd y mae y deddfwr rhyfygus yn ei gymmeryd.

Pan y byddo dychrynfeydd y gyfraith, neu gyhuddiadau cydwybod, ar yr un amser wedi curo i lawr hyder ryfygus, y mae'r dyn yn myned i weithio, ac i lenwi i fynu y rhwyg a wnaeth y gyfraith yn ẏn ei enaid, a'r ddaear newydd o'i ufudd-dod, ei ddiwigiad a'i ddyledswyddau a'r cyffelyb ac a'r clai anhymerys yma, y mae yn llasarnu ac yn gwneuthur i fynu y rhwyg a wnaethpwyd yn ei gydwybod; ond, ar y llaw arall er bod y credadyn mor ddiwyd yn y ffordd o ddyledswydd a'r llall, etto nid oes

dim yn y Nefoedd nag ar y ddaear a all ei foddloni tan gyhuddiadau cydwybod, neu edfryd esmwythder neu lonyddwch iddo ond trwy Grist yn unig, a'i gyfiawnder wedi dal gafael arno a'i gymhwyso gan ffydd; nid oes un triagl ond yr un hynnu o Gilead, a all wellhau ei glwyf; y mae ef yn casglu ei holl feddiginiaeth oddi tan adenydd Haul y cyfiawnder, Phil. iii. 8, 9. Nid yw pob neth ond dom a cholled mewn cydmyariaeth i hwn.

Amrywiol wahaniaethau eraill a ellid rôddi. rhwng y Fy o ffydd, a'r Fy o ryfig, oni bae 'r ofn sydd arnaf o fod yn rhy faith. Yn unig, yn fyrr, pa fwyaf o siccrwydd ffydd, neu o brofiad wedi ei iawn sylfaenu, mwyaf i gid o iselder, o ostyngeiddrwydd, ac o hunain ffieiddio. pa uwchaf y byddo 'r enaid yn cael ei dderchafu yn a chan Grist, isela i gyd y mae yn suddo i lawr yn ei olwg ei hun, gan ddywedyd gyda Dafydd, pan addawodd Duw adeiladu iddo dy siccr, ac y byddai i'r Messiah ddyfod allan o'i lwynau. *Pa beth ydwyf fi, neu dy fy Nhâd, fel i'm dygid hyd yma?* Y credadyn truan, yn y cyfryw achos, sydd yn canfod ei hyn y fath ryfeddod o gyfogthog ac awdurdodol râs, hyd onid yw yn cael ei dderchafu i fynu i ddirgel syndod, a'i roi fyth i sefyll heb wybod beth i ddywedyd. A pheth a all Dafydd ddywedyd yn rhagor? A'i dyma arfer dyn, o Arglwydd Dduw? Ond yn awr pa fwyaf o hyder ryfygus, mwyaf o falchder ac o hunan-dyb, fel "Laodisea, goludog wyf, a mi a gyfoethogais, ac nid oes arnaf eisiau dim;" ac yn y cyfamser diystyru eraill mewn cydmhariaeth iddynt ei hunain; fel y phariseaid balch. "Diolch i ti o Dduw, nad ydwyf fifel dynion

eraill, neu fel ŷ pyblican hwn 'chwaith." Ym mhellach, sicrwydd ryfygus sy'n ymgeleddu rhyw ddirgel ac anwyl eulyn; y mae'r dyn yn arbed rhyw law ddeheu neu lygaid deheu o bechod, ac yn gyffredinol ei galon dywyllodrus sy'n dadleu am iddo gael ei arbed; o herwydd fod grâs yn puro'r galon, ac yn rhwymo'r dyn i ddiduedd a chyffredinol wrthwynebiad i bob pechod, fel y mae yn ddianrhydedd i Dduw, ac yn offid i'w Yspryd; ac yn barod i osod ei egni mwyaf yn erbyn y pechodau hynny ac sydd ganddynt y fantais fwyaf yn ei erbyn trwy elw, arfer, tymmer, neu ddygiad i fynu; a'r ystyriaeth o râs yn amlhau sydd mor bell o roddi annogaeth iddo mewn pechod, fel ac y mae "yn ei ddysgu i ymwadu ag annuwioldeb a chwantau bydol, ac i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn byd sydd yr awr hon."

Yn ddiweddaf. Y Fy o ffydd, neu o ddidwyll brofiad, sydd yn wastad gyd ag ef lawer o gariad at berson Crist, ac ymorphwysiad enaid arno; cays ffydd sydd yn gweithio trwy gariad; ac am hynny y pryd y bo'r enaid yn cael ei alluogi i ddywedyd, "fy anwylyd sydd eiddo fi," nis gall lai na chwanegu "a minnau sydd eiddo yntef." Un a ddywed, eiddo 'r Arglwydd ydwyf fi. Y mae'r dyn yn cyflwyno ei hun, fel aberth byw i Dduw, sanctaidd a chymmeradwy,—yr hyn yw ei resymmol wasanaeth ef. Ond yn awr, fel y mae un yn dra hynod yn dal sylw, rhyfig sydd yn gloff o'r naill law; mae ganddi law i gymmeryd pardwn, i gymmeryd nefoedd, a chymmeryd rhoddion Crist: ond fel nad oes ganddi wir gariad at ei berson, felly nid oes ganddi law i roddi neu ymroddi yr holl ddyn i fynu i'r Arglwydd, i fod drosdo ef, ac nid dros un arall;

a rheswm amlwg am hyn yw, na chafodd yr elyniaeth erioed ei thorri, a bod y dyn yn briod a'r ddeddf, ac felly a'i drachwantau hefyd. Ond gan adael hyn, mi âf rhagof at.

---o---

## TRAETHAWD IV.

### *Am lawn Siccrwydd Ffydd.*

Y trydydd pen cyffredinol a addawyd i osod allan yn y drefn, ydoedd llefaru ychydig am lawn siccrwydd ffydd; oblegid y mae graddiaeth eglur yn null yr Apostol yn llefaru, y mae ffydd, yna siccrwydd, neu hyder ffydd, ac yn olaf llawn siccrwydd. Am fy mod wedi llefaru am y ddau radd gyntaf, mi af rhagof yn awr at yr un diweddaf, ar radd uchaf o ffydd.

Cyn myned yn uniawn-gyrch i ddangos, pa beth ŷw y llawn siccrwydd hyn o ffydd, mi gaf ragfynegu y ddau neu dri pheth hyn, y rhai yr wyf yn meddwl ei bod yn gynnwysedig yn y rhan hyn o ymadrodd Yspryd Duw.

( 1 ) Nid ydyw ffydd pob credadyn o'r un faintioli a nerth. Y mae gan rai ffydd grêf, ac eraill un wan: ïe ffydd y credadyn cryfaf sydd ganddi ei chynnydd a'i hadeg; neu fel y môr ei lanw a'i drai. Er bod pob credadyn yng Nghrist, etto hid oes gan bob credadyn yr un mesur o ffydd. y mae pob seren yn awyr er nad yw pob seren o'r un faintioli. Nid oedd

ffyn ysgol Jacob i gyd ar ei phen uchaf, er bod pob ffon yn gam tua'r Nêf; felly er nad yw pob ffyddi yn gorfoleddu mewn llawn siccrwydd; etto pob gwir ffydd sydd yn tueddu atto. Chwi a ellwch ganfod un Credadyn tan awel grêf o yspryd ffydd, yn llefain allan gyda Job xix. 25. "Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw;" pan y mae un arall yn llafyrio tan y fath ddigalondid, fel y mae gyda'r publican yn sefyll o hirbell, a'r dagrau ar ei ruddiau yn llefain allan, "Duw bydd daugarog wrthyf fi bechadur!" Chwi ellwch weled un yn dywedyd gyda Phawl, efe am carodd i ac a roddoes ei hun drosof fi: un arall a ddywed trwy fod anghrediniaeth yn gorchfygu, a ddarfu ei drugaredd? A anghofiodd efe drugarhau? O bossibl y cyfarfyddwch ag un credadyn yn myned tros ben pob ofnau, ac yn dywedyd gyda'r Apostol pwy am gwahana oddiwrth gariad Crist? &c. Pan y mae un arall yn ymdrechu a llawer o amheuon, yn barod i ddadymchwelyd y sylfaen, gan ddywedyd fe'm bwriwyd allan o'th ogwg, a phob dyn sydd gelwyddog a ddywedo i'r gwrthwyneb, hyd yn oed prophwydi Duw eu hunain. Y mae gyda chredinwyr, fel y mae gyda phlant mewn teulu, un o bossibl sydd yn gorwedd yn ei gryd; arall yn cael ei arwain gan ei fam neu fammreth, arall a all rodio ei hun, a'r pedwerydd wedi dyfod i'r fath lawn nerth ag y mae yn gymmwys i waith a galwedigaeth; felly yn nheulu Duw y mae Babanod, Gwyr-ieuainc, a thadau.

(2) Yr ail beth i ragfanegu yw, mae dyledswydd pob credadyn hyd yn oed y lleiaf, yw ynofyn am ffydd yn y graddau uchaf o honi. Oddi yma y mae fod Crist mor fynych yn ceryddu ei ddisgyblion

am wendid ei ffydd; pa ham yr ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffydd? Tydi o ychydig ffydd, pa ham y petrusaist? Gwir ffydd sydd yn beth cynydd-fawr, y mae hi yn myned rhagddi o un gradd i'r llall: oddi yma y mae'r ymadaodd hwnnw o eiddo 'r Apostol. Rhuf. i. 17. "Yr efengyl sydd yn allu Duw er iechydwriaeth, canys ynddi hi y datguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd." Ffydd yn ei gweithrediadau dechreuol a gwannaf, a ffydd yn ei gweithrediadau parhaol a chryfaf, sydd yn ymnerthu ac yn penderfynu ar y cyfiawnder o weithrediad a chyfrifiad Duw; am dderbyniad, pardwn, ac iechydwriaeth. Y mae yn nattur pob gwir râs, yn enwidig y grâs o ffydd, i lefain ar ôl cynnydd a pherffeithiad o hond ei hun. Oddi yma y mae y weddi hono o eiddo 'r Disgyblion, Arglwydd chwanega ein ffydd. A'r un hynnu o eiddo 'r dyn tlawd yn yr efengyl, yr ydwyf yn credu, Arglwydd cymmorth fy anghrediniaeth. Mae yn rhaid i ni anghofio y pethau o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen, llwybr y cyfiawn sydd fel goleuni, yn llewyrchu fwy fwy hyd hanner dydd.

(3) Y trydydd peth i'w fynegu ymlaen llaw yw, bod y siccrwydd o gymhwysiad, a eglurwyd uchod, yn treio ac yn llenwi fel y bo nerth, neu wendid y cydsyniad o ffydd. Bod graddau mewn siccrwydd, nid yw yn cael ei wrth-ddadlu gan neb, ag sydd ganddynt ddim gwybodaeth naill a'i o ddifinyddiaeth, neu o philosophyddiaeth. Y mae geiriau 'r Apostol ei hunain, yn y testyn, yn dal allan, nad y'm ni ddim i orphwys yn y leiaf, ond i ymestyn at y radd fwyaf o siccrwydd ffydd; ac y mae'r Apostol yn ei chyfrif yn fendith fawr i'r Thesaloniad, fod ganddynt

F 2.

siccrwydd cryf, 1 Thes. i. 5. Yr hyn sydd yn rhoi lle i ni ddeall yn eglur y gall fod peth gwir siccrsiccrwydd mewn llai gradd. Yn awr meddaf, y siccrwydd hyn o gymhwsiad sydd yn dwyn cyfatebolrwydd i gyd syniad ffydd, ac yn lleihau neu yn mwyhau, yn ol fel y bo 'r llall yn gryf neu yn llesg; fel y mae gan gydsyniad cryf gymhwysiad cryf; a chan gydsyniad gwan gymhwysiad gwan.

Gwedi rhag fynegu y pethau hyn, mi af rhagof i ymofyn pa beth ydyw y llawn siccrwydd hyn o nydd? Neu ym mha beth y mae ef yn gynnwysedig? Ac mewn un gair, yr ydwyf yn amgyffred, ei fod yn gorwedd yn y fath gadarn ddiysgog grediniaeth, hyder neu ymddiried, yn ffyddlondeb Duw yng Nghrist wedi ei wystlo yn ei gyfammod neu addewid, ag sydd yn gorchfygu ac yn maeddu tandraed an hywsderau neu anhebygoliaethau; pob amheuon ac ofnau, o ran y cyflawniad gweithredol o'r hyn sydd gwedi ei adddo yn ffordd ac yn amser Duw; a'r cyfan o hyn gyda chymhwysiad neullduol at yr enaid ei hun. Y descrifiad hwn fyddai i mi egluro a'i amlygu yn ei amrywiol ganghenau, oni bae ei fod wedi ei wneuthur yn barod, yn y ddau ben blaenorol; nid yw hyn ddim ond gradd uwch o'r ffydd hono y fuwyd o'r blaen yn ei ddesgrifio. Y fath weithrediad a hyn o ffydd a gawn yn Abraham, Rhuf. iv. 20, 21. lle y mynegir i ni "na amheuodd efe addewid Duw trwy anghrediniaeth; eithr efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw;" ac yn gwbl sicer ganddo, am yr hyn a ddywedasai efe, ei fod yn abl i'w wneuthur hefyd. Y llawn siccrwydd hyn o ffydd, pe bae fynyddoedd o rwystrau yn ei ffordd, ni bydd iddo wneuthur

mwy o honynt na phe byddent wastadedd; y mae efyn neidio ac yn edrych drostynt oll; gan sefydlu ei olwg ar allu a ffyddlondeb yr Addawr bendigedig, fel y gwelwn yn amlwg yn achos Abraham. Ei gorph ei hun oedd yn farw ac yn anabl i genhedlu; bru Sarah ydoed yn amhlantadwy, ac yn anghymmyys i ymddwyn; teimlad a rheswm yn yr achos yma a fuasai yn barod i gasglu, i fod yn amhossibl fyth i Abraham gael Mâb; ond fe fynegir i ni Adn. 19. "Ac efe yn ddiegwan o ffydd nid ystyriodd ei gorph ei hun, yr hwn oedd yr awr hon wedi marweiddio, ac efe ynghylch can mlwydd oed, na marweidd-dra bru Sarah." ni wna efe gymmaint a gwrando ar ddrwg dybiau rhesymau cnawdol; cig a gwaed sydd yn cael ei gau allan, ac yntefyn gorphwys gyda hyder sicer, heb ameu nag anghredu, ar ffyddlondeb yr bwn a addawodd; gan fod yn sicer, y byddai i Dduw wneud iddo ef yn neullduol, fel ac y llefarodd, pan y byddai i amser y weledigaeth ddyfod.

Yr un modd yr ydys yn cael yn ol i Abraham gael Isaac Mâb yr addewid, a phan y gyrchymynodd Duw iddo ei gymmeryd ef, (o ba un yr ydoedd yr hân addawedig, Crist i ddyfod) a'i offrymmu ef a'r un o fynyddoedd Moriah! Gen. xxii. Y rheswm yma allasai fod yn barod i wrth-ddadlu, a hynny nid heb liw mawr o grefydd, a all Duw, yr hwn mor ddygn a waharddodd lofryddiaeth, orchymmyn i mi drochi fy nwy-law yng ngwaed fy Mâb fy hun? Oni bydd y cyfryw beth yn wradwydd tragywyddol i Abraham a'i grefydd? Pa beth a ddywed yr Aiphtiad, y Cananeaid, a'r Persiad sydd yn trigo yn y wlad! Beth a ddywed Sarah, a pha fodd y gallaf fyth edrych yn

ei hwyneb hi? ond yn enwedig pa beth a ddaw o'r addewid, ac o wirionedd yr hwn a'i gwnaeth, yr hwn a ddywedodd, mai yn Isaac y gelwir i ti had? Diau y gallasai anghrediniaeth a theimlad ddywedyd, naill a'i mae'r gorchymyn hwn yn hydoliaeth, neu yntau 'r addewid yn gelwydd. Ond yr oedd gan Abraham lawn siccrwydd ffydd ymherthynas i ddianwadalwch yr addewid; ac am hynny fe fynnai er pob perygl ufuddhau i orchymmyn y Duw ag oedd wedi addo; yr ydoedd efe wedi ei hollol berswadio, mae er i Isaac gaeb ei aberthu a'i losgi yn ulw, etto o ludw ei fab y gallai ac y byddai i Dduw yn weithredol gyfodi Isaac drachefn, ac felly cyflawni ei air ei hun o addewid; Abraham ar gyfrif ei ffydd ragorol odidog hon, sydd yn gymmwys o gael ei alw yn Dâd y ffyddloniaid, ei ffydd wedi ei gosod fel patrwn i bawb eraill i'w ganlyn; a phob gwir gredadyn ar y cyfrif hyn, sydd Fâb i Abraham. Ac na fydded i neb ddychymygu, nad ydynt i gredu a'r un fath ffydd ag ydoedd Abraham; o herwydd y mae'r Apostol yn mynegu yn bendant i ni, fod yr hanes o'i ffydd ef yn sefyll yn yr ysgrythyr, nid er ei fwyn ef yn unig, ond er ein mwyn ninnau hefyd, fel y bo i ni, yn ol ei esampl ef, gael ein hannog "i gredu yn yr hwn a gyfododd Iesu Crist ein Harglwydd ni o feirw. Rhuf. iv, 23,24.

Gwrth-ddadl. Ond meddwch chwi, pe byddai gennyf gystal sail i'm ffydd, ag Abraham; pe byddwn mor siccr fod yr addewid yn perthyn i mi, ag ydoedd i Abraham, mi dybygwn y gallwn gredu gyda llawn siccrwydd ffydd, fel ag y credodd yntef; ond yma y y mae'r cyfyngder. Yr ydwyf yn atteb, mae gennych chwi a minnau gystal sail o ffydd ag y fu erioed gan

Abarham; yr oedd gan Abraham Dduw ac oedd yn addaw yng Nghrist i hyderu arno, ac felly gennym ninnau; y mae gennych yr un Duw, yr un Crist, ar un cyfammod, yr un addewid ac ydoedd gan Abraham.

Ond meddwch chwi, Duw a lefarodd wrth Abraham yn neullduol wrth ei enw, pan rhoddodd iddo yr addewid, gan ddywedyd, " yn dy hâd di y bendithir holl genhedlaethau 'r ddaear.' Yr ydwyf yn atteb, er nad ydych chwi yn cael eich gosod i lawr wrth eich enwau, fel ac yr oedd Abraham; etto y mae Duw ag sydd yn addaw yng Nghrist, yn gosod attoch mor neullduol yn y gair o râs a goruchwyliaeth y cyfammod a'r addewid, a phe bae yn galw arnoch allan o'r nêf, wrth eich henwau, gan ddywedyd, " i chwi (hynny yw, i chwi bechaduriad o hiliogaeth Adda) y mae y gair hwn o'r iechydwriaeth hon wedi ei ddanfon. Y mâe'r addewid i chwi y rhai ydych ym mhell, &c. Ac nid yn unig y mae'r addewid yn cael ei gosod o'ch blaen; ond gorchymmyn pennodol o gredu sy'n cael ei chwanegu, gan ofyn a rhwymo pob dyn, yn neullduol i gymmeryd gafael o honi, a'i chofleidio; fel pa ddichellion bynnag y mae'r galon dwyllodrus ac anghredinioI yn ei wneuthur, addewid Duw sydd yn dyfod mor agos at gyflwr pod gwrandawr yr efengyl, ac mor ddi wahân, ag y daeth yr addewid hono at Abraham, pan y llefarodd Duw wrtho a llef uchel o'r Nêf; ïe y mae gennym ni air siccrach o brophwydoliaeth yr hwn, da y gywnawn i ddal gafael arno megis ar gannwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll. Ym mhellach, boed iddo gael ei ystyried, i'r addewid hwnnw gael gael ei osod allan i Abraham fel gwrthddrych a sylfaen ei ffydd, cyn y gallai ei chredu, a thrwy ei chredu, y

daeth hi yn eiddo iddo ef mewn meddiant; neu trwy ei chredu y meddiannodd efe hi fel ei eiddo ei hun; o herwydd, oni buasai iddo gredu, ni's gallasai byth feddiannu 'r fendith oedd wedi ei haddaw. Yn yr un modd y mae'r addewid wedi ei gosod allan i chwi fel digyfrwng sail o grediniaeth; ac wrth gredu yr ydych yn dyfod i fod yn feddiannol o'r pethau mawrion ag sydd yn gynnwysedig yn yr addewid, ond os ni chredwch, ni welwch iechydwriaeth Duw. Y modd hyn gwelwch fod gennych yr un sail o ffydd, a'r un awdurdod am gredu, ag oedd gan Abraham; ac nid oes dim a'ch ceidw oddiwrth y llawn siccrwydd hyn o ffydd neu o gredu heb fwhwman wrth yr addewid, fel Abraham oddigerth eich anwybodaeth a'ch anghrediniaeth eich hun. Yr wyf yn addef, fel y crybwyllwyd yn barod, nad yw pob gwir gredadyn yn dyfod i gyrraedd yr un mesur o ffydd ag Abraham, fel i gredu heb amheuaeth; ond nid hynny yw y gofyniad: y gofyniad presennol yw, onid oes gennym ni, yn awr gystal a chyn gadarnad sail; a chystal hawl i gredu'r addewid, ac oedd gan Abraham? Onid yw Crist, a'i iechydwriaeth, a'i gyfiawnder wedi cael eu dwyn mor agos attom ni yng air y ffydd ag atto yntef? Hyn sydd beth nas gall neb ag sydd yn deall rhagorfraint goruwchwiliaeth y Testament Newydd, anturio ei wadu; ie, mi anturiaf ddywedyd, fod sail ffydd wedi ei gosod o'n blaen tan y Testament newydd gyda llawer iawn mwy o fantais nag a gafodd Abraham erioed; yn gymmaint a bod datguddiad yr efengyl yn llawer iawn mwy eglur, ac yn dwyn Crist a'i iechydwriaeth yn fwy agos attom ni, nag y cafodd ef erioed, tan un oruchwiliaeth o'r hen Destament. Abraham a welodd

ei ddydd ef yn unig o bell, lle yr ydym ni yn byw yn y dydd hwnnw, ag a welodd ef yn y fath bellder rhyfeddol; ac am hynny y mae gennym ni lawer mwy o sail i gredu heb amheu nag oedd ganddo ef; ac am hynny gan fod gennym y fath hyder i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu; a chan fod gennym ffordd newydd a bywiol trwy y llen sef ei gnawd Ef, a chan fod gennym Archoffeiriad mawr ar dy Dduw, nessawn a chalon gywyr mewn llawn hyder ffydd.

——o——

## TRAETHAWD V.

*Am y seiliau o siccrwydd ffydd.*

Y pedwerydd peth a osodwyd allan yn y drefn, ydoedd ymofyn am seiliau 'r athrawiaeth hon, neu pa beth y mae ffydd yn adeiladu ei hyder arno, yn ei gwaith yn nessau at Dduw, mewn llawn siccrwydd o dderbyniad? Mewn atteb i'r gofyniad hwn, ni bydd i mi fyned yn bresennol ynghylch y seiliau yn neullduol, a osodwyd allan gan yr Apostol yn yr adnodau o'r blaen; gan i mi ymadroddi arnŷnt mewn amryw baegethau gwahanol, lle y mae ef yn dangos bod pob rhwystr, ac anhawster o dy'r gyfraith a chyfiawnder wedi cael ei hollol symmud ymaith, trwy y cyflawnder o fodlonrwydd a'r cyfryngdod llwyddiannus o eiddo Mâb Duw fel ein harchoffeiriad mawr; ar ba un y mae'r addewid o dderbyniad cywir yn dyfod allan oddiwrth Dduw cymmodol,

i bob un a ddelo atto yn y ffordd newydd a bywiol hon, am râs a phardwn yn gymmorth cyfamserol. Y modd hyn y gwelwch fod rheswm yr Apostol yn rhedeg, trwy gydmharu hyn a'r adnodau o'r blaen, a'r adnod sydd yn canlyn, yn enwedigol yr rhan olaf o honi, o herwydd ffyddlon yw yr hwn a addawodd; pa ran o ymadrodd gau ei fod yn cael ei gynnwys mewn ymsang, yr ydwyf yn amgyffred ei fod yn sefyll mewn cyd-unad, nid yn unig a'r geiriau nessaf o'r blaen yn yr un adnod, ond a geiriau fy nhestyn hefyd: ac amcan yr Apostol yw, fel pe dywedasai, neseâwn a chlon gywir mewn llawn hyder ffydd, &c paham? "o herwydd mae ffyddlon yw'r hwn a addawodd i ni roesaw i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu; ffyddlon yw'r hwn a addawodd dderbyniad yn y ffordd newydd a bywiol yr hon a gyssegrodd efe i ni: ffyddlon yw'r hwn a addawodd dosturio, pardynu, gwrando, a chynnorthwyo trwy gyfryngdod yr Archoffeiriad mawr yr hwn sydd ar dy Dduw. Am hynny gan fod ei ffyddlondeb wedi ei wystlo i'n derbyn yn y ffordd hon o'i drefniad ef ei hun; bydded i ni atteb ei ffyddlondeb, trwy nessau a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd, neu gyda llawn a siccr grediniaeth, mae yn ol ei addewid, y bydd i ni gael ein gwneuthur yn gymmeradwy yn yr anwylyd, yr hwn yw y drws i'r cyssegr, y ffordd newydd a bywiol, a'r Archoffeiriad mawr ar dy Dduw.

Felly y gwelwch y mae y sylfaen nessaf a digyfrwng o ffydd, neu o'r siccrwydd o honi, wrth nessau at Dduw, yw addewid Duw ei hun, o dderbyniad trwy Iesu Grist, a pha addewidion y gair o benbwygilydd sydd lawnach nag, Esa. xl. 7. a'r lvi. 7. Marc ix. 24.

Math. vii. 7 Ioan. xiv. 13, 14. Yn awr, ffydd, yn golygu ac yn dadleu addewid Duw yng Nghrist, sydd ganddi lawer o bethau i'w chynnal i fynu i lawn siccrwydd; mi gaf grybwyll rhai, o lawer o honynt.

(1) Grâs, trugaredd, a daioni Duw yr hwn a addawodd, wedi ei ddatguddio; a'i gyhoeddi yn y gair sydd sylfaen arddrchog i bechaduriad, a mwy etto i Seintiau ymddiried ynddo, i agoshau atto trwy Gaist, mewn llawn hyder ffydd. "Mor werthfawr yw dy drugaredd o Dduw, am hynny yr ymddiried meibion dynion tan gysgod dy adenydd." Mae yn groes i oleuni nattur, i ddyn ymddirie mewn un a fyddo fe yn deall ei fod yn elyn; ïe, os byddwn ond tybied fod ganddo un ewyllys drwg tu ag attom, neu yn meddwl ein drygu, nis ymddiriedwn ynddo: ond gwnewch i ddyn gredu un waith fod y fath un yn gyfaill iddo, a bod ganddo gariad trwyad atto, ac nad oes arno ond eisiau cyfle i wneud y gwasanaeth mwyaf ag allo ef iddo, yn y dull hyn fe ymddiried ynddo heb amheuaeth. Fel y mae yn yr achos yma, tra bo'm yn amgyffred bod Duw yn elyn an heddychol, ein rhagfarn a'n gelyniaeth i'w erbyn a erys; a thra bo gelyniaeth yn erbyn Duw yn aros yn ei lawn rym, mae yn gyfan amhossibl i ni allu rhoi ein hymddiried a'n hŷder arno ef; yn lle nessau atto mewn llawn siccrwydd ffydd, yr ydym yn ffoi oddiwrtho, fel ein rhieni cyntaf, tan deimlad dychrynllyd o'i lîd a'i ddigofaint, ond gadewch un waith i'n gael ein perswadio ei fod yn Dduw'r cariad, grâs, tosturi, ac ewyllys da yng Nghrist, y pryd hyn, ac nid cyn hyn, rhown ein hymddiried tan gysgod ei adenydd. Ac am hynny, i dorri grym ein gelyniaeth, a'n rhagfarn, ac felly i annog ein hymddir-

ied ynddo, y mae ef yn cymmeryd y poen mwya a ellyd amgyffred i ni goelio ei fod yn dwyn hoffder calon ac ewyllys da attom yng Nghrist. Ac y mae yn fwy enwedigol y tair ffordd hon gan Dduw yn ei gymmeryd i'n hargyhoeddi ni o'i ewyllys da tu ag ddyn ar y ddaear.

( 2 ) Cyhoeddiadau a hyspysiadau prysur o'i râs a'i drugaredd, Exod. xxxiv. 6, 7. Yno yr aeth Duw heibio o flaen Moses, gan gyhoeddi ei enw iddo: a pha beth yw? "Jehofah, Jehofah, Duw trugarog, a graslawn hwyrfrydig ei ddig, ac aml ei drugaredd a gwirionedd, yr hwn sy'n cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, ac na chyfrif yr anwir yn gyfiawn;" neu fel y darllen rhai, gan gyfiawnhau efe a gyfiawnhâ, hynny yw, trwy gyfiawnhau 'r pechadur oddiwrth euogrwydd; â grâs maddeuol, efe a gyfiawnhâ ei hun oddiwrth anghyfiawnder; fe wna yn eglur, ei fod yn gyfiawn, pan y mae yn cyfiawnhau yr hwn sydd yn credu yn Iesu. Ym mhob lle o'r ysgrythur y mae trugaredd faddeuol Duw yn cael ei chyhoeddi a'i gosod allan fel annogaeth i bechaduriad i ymddiried ynddo, Sal. Cxxx. 7. Disgwylied Israel am yr Arglwydd; canys mae trugaredd gyda'r Arglwydd, ac aml ymwared gyd ag ef.

( 3 ) Trwy lw difrifol. Rhag i ni anghredu ei air, y mae ef yn chwannegu ei lw, i'n hargyhoedd ni nad oes ganddo ddim ewyllys drwg ond gwir ewyllys da i'n iechydwriaeth a'n hapysrwydd, drwy'r ffordd newydd a bywiol. Esec. xxxv. 7, 11. "Fel y mae byw fi (medd yr Arglwydd) nid ym hoffaf ym marwolaeth yr annuwiol ond troi o hono oddiwrth ei ffyrdd drygionus; canys tŷ Israel pa ham y byddwch feirw?"

Llw rhwng dynion, sydd er siccrwydd o wirionedd dadleugar, ac yn derfyn iddynt ar bob ymryson, medd yr Apostol Heb. vi. 16. "Wel feistraid, a gaiff llw dyn gymmaint o barch a dibenu dadleuon rhwng dynion? Pa faint mwy y mae llw y Duw mawr i'w barchu, pan y mae ef yn gwystlo ei unig fywyd arno, nad yw yn ewyllysio fod neb yn golledig, ond ei fod ef yn dwyn gwir ewyllys da i'n iechydwriaeth trwy Grist. A fydd hyn yn ddadl mwyach gyda ni? Ammeu neu ddrwg-dybied yr hyn y mae ef yn ei ddywedyd, i'w wneuthur ei yn gelwyddog; ac ammeu ac anghredu yr yr hyn y mae ef yn ei dyngu, yw gosod ar Dduw 'r gwirionedd anudoniaeth; a gochelwch edrych arno fel peth canolig, pa un a wneloch a chredu ewyllys da, trugaredd, a grâs Duw (sydd yma yn cael ei hyspysu) neu beidio; canys rhaid ei fod yn beth o bwys mawr iawn, ym mha un y mae Duw yn gosod i mewn y difrifoldeb ö lw; a thybied amgen yw, rhoi Duw tragywyddol yn euog o halogi ei enw ei hun, yr hyn beth nas gall ddioddef mewn eraill heb yr anfodlonrwydd mwyaf.

(4) Megis pe buasai ei air a'i lw yn annigonol i'n hargyhoeddi o'i râs, a'i gariad, a'i ewyllys da tu ag attom, fe roddodd yr amlygiad mwyaf gweithgar a chyffrous o honynt ag oedd bossibl i Dduw i roddi; a hynny yw, trwy roddi ei hun ym mherson ei Fâb tragywyddol i wisgo cnawd, neu ymddangos yn ein nattur ni; ie i gael ei wneuthur fel ninnau ym mhob peth ond pechod yn unig. O mor fawr yw y dirgelwch hwn o dduwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd! Yn ddi ddadl mawr ac anchwiliadwy yw dirgelwch y cariad, a'r ewyllys da, ag sydd yn disgleirio gyda

chanol-dydd lewyrch yn Nuw yn y cnawd, pe buasai Duw heb fod yn ein caru, ac heb ddwyn y fath ddymyniad gwirioneddol at ein happysrwydd a'n iechydwriaeth; ni fuasai fyth yn gwneud y fath nessâd attom, a thrigo yn ein nattur pan aeth heibio nattur Angylion? Ie, nid oedd foddlon i fod yn un a ni mewn nattur; ond fe aeth ym mhellach i fod yn un a ni mewn cyfraith; fe roddodd ei law wrth ein rhwymau dyled, " ac a aeth yn bechod drosom, fel y byddem ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef"; fe a ddaeth yn felldith drosom fel y cae'm ni etifeddu 'r fendith. Golwg ar y ddyfais yma o gariad at ddyn, yn ymddangos yn nghnawdoliaeth Mab Duw, a wnaeth i'r Angylion ar ei enedigaeth dorri allan yn yr hymn Nefolaidd honno: " gogoniant i Dduw yn y goruchaf, ar y ddaear tangneddyf, i ddynion ewyllys da." Luc. ii. 14.

Yn awr, y cariad a'r ewyllys da hyn o eiddo Duw tu ag at ddyn, yng nghnawdoliaeth ei Fab tragywyddol, sydd yn cael ei gyhoeddi yn natguddiad yr efengyl, fel yr annogaeth fwya a ellid feddwl i bechaduriad euog a gwrthryfelgar, i osod heibio eu gelyniaeth a'u rhagfarn yn erbyn Duw, ac felly i roi eu hyder a'u hymddiried ynddo; megis y gwelir yn eglur, fel peledr yr Haul, oddiwrth yr estyn mawr hwnhw. Ioan iii. 16. " Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab." Pa ham, pa beth oedd ei ddiben ef yn yr holl ewyllys da hyn? " Fel na chollid pwy bynnag a gredo ynddo ef ond caffel o hono fywyd tragywyddol." Ac o ran rhagoriaeth y cnawd hwn, y rhydd meibion dynion eu hymddiried tan gysgod ei Adenydd. Yn awr, yr wyf yn dywedyd, ffydd yn nessau at Dduw sydd yn cymmeryd go-

lwg o'r drugaredd yma o Dduw yng Nghrist, ac ar y sylfaen hon sydd yn codi ei hun ra grydiau cuwch ag i nessau mewn llawn siccrwydd o dderbyniad. Canys yn wastad fe ddylid cofio, fod ffydd tan arweiniad yr Yspryd, yn cymmeryd i fynu y cariad, a'r drugaredd ddatguddiedig hyn o eiddo Duw at bechaduriad, gyda chymhwysiad neullduol o hono at yr enaid ei hun, fel y dywedwyd o'r blaen; a pha beth a ddichon fod yn fwy annogaethol nag yw ymddiried heb amheuaeth o dderbyniad? "O gan hynny disgwylied Israel am yr Arglwydd, o herwydd y mae trugaredd gyda'r Arglwydd." O na rywch le i ddrwg dybiau am Dduw'r cariad, megis pe bae yn anfoddhau neu yn anfoddloni wrthych am eich bod yn ymddiried yn ei drugaredd; canys yr Arglwydd sydd yn cymmeryd hyfrydwch yn y rhai a'i hoffnant ac a obeithiant yn ei drugaredd ef.

Yn ail, ffydd sydd yn sylfaenu ei siccrwydd ar anfeidrol allu y Duw sy'n addo. Pan unwaith y mae hi wedi ei pherswadio o'i gariad, a'i ewyllys da yng Nghrist, mae hi yn myned rhagddi i siccrhau ei throed ar ei dragywyddol allu, fel yn gwbl abal i gyflawni yr hyn a addawodd, gan ddywedyd, mi wn y gelli wneuthur pob peth, ac nad oes dim yn amhossibl i ti. Yn wir, anfeidrol allu wedi ei arfogi a llid a digofaint, yw dychryn pechadur euog; ond anfeidrol allu, wedi ei gynhyrfu gan anfeidrol gariad, yn cyhoeddi, nid oes llidiawgrwydd ynof, trwy y pryd-weith a gefais, sydd sail ardderchog o ymddiried ag allai gefnogi pechadur euog i gymmeryd gafael ar ei nerth ef, fel y gallo wneuthur heddwch ag ef. Oddi yma y mae, fod gallu Duw yng Nghrist yn fynych yn yr ysgry-

thryad yn cael ei osod allan fel sail o'n hymddiried, Esa. xxvi. "Ymddiriedwch yn yr Arglwydd byth, canys yn yr Arglwydd y mae cadernid tragywyddol." Ffydd Abraham a sylfaenodd ei hun ar y graig hon o allu Duw yn yr esampl a ddywedwyd. Rhuf. iv. Pan credodd yr addewid heb ammeu; wedi ei berswadio yn gyntaf o ewyllys da Duw tu ag atto, trwy roddi iddo addewid o'r Messiah i ddyfod allan o'i lwynau, ym mha un y bendithid holl genhedlaethau'r ddaear; yn nessa; y mae ef yn dal llygaid ei ffydd ar allu'r Duw yma ac oedd yn addo, ac wedi hollol goelio ei fod yn gwbl abal i gyflawni yr hyn a addawodd iddo. Felly Math. ix. 27. Yr ydym yn darllain am ddau o ddynion deillion a ganlynodd Grist, gan weiddi ar ei ôl, Iesu Fâb Dafydd trugarhâ wrthym; hwy a gredasant yn gyntaf mae Crist oedd y Messiah addewedig, Mâb Dafydd; ac yn hyn y gwelsant drugaredd ac ewyllys da i ddynion ar y ddaear, efe oedd hâd y Wraig ag oedd yn sigo pen y sarph: wel, y mae Crist yn ei harwain ymlaen yn nessaf i gymmeryd golwg ar allu Duw ynddo ef, fel sail ymmhellach o hyder, ac ymddiried, adn. 28. Iesu a ddywedodd wrthynt, "a ydych yn credu fy mod yn abal i wneuthur y pethau hyn i chwi?" Maent yn atteb adn. 29. Ydym, Arglwydd, ac ar hyn Crist a ddywedodd wrthynt, bydded i chwi yn ol eich ffydd. Fel hyn meddaf, ffydd sydd yn sylfaenu ei hyder, a'i hymddiried neu e'i siccrwydd, yn y gwaith o nessau at Dduw trwy'r ffordd newydd a bywiol, ar allu y Duw sy'n addo. O feistriaid, nid oes y fath bellder rhwng Duw yn dywedyd, a Duw yn addo, ag sydd rhwng dynion; o herwydd mae ei ddywedyd ef yw gwneuthur. Sal. xxii.

9. "Canys efe a ddywedodd ac felly y bu, efe a orchymynodd a hynny a safodd."

Mae hollalluogrwydd yng air ei orchymmyn, ac yng air ei addewid, am hynny y gelwir ef gair ei nerth. Heb. i. 3. A thrwy y gair galluog hwn y mae ef yn cynnal i fynu yr adeilad mawr o'r Nêf a'r Ddaear, fel nad ydynt yn dychwelyd i'w diddim cyntaf: ac a all ein ffydd ni ddim anturio sefyll ar y gwaelod hynny, ar ba un y mae'r Nêf a'r ddaear yn sefyll? Nid oes arnom ofn y bydd i'r corph pwysig hwn o ddaear ag sydd yn hongian yn yr awyr deneu, i lithro oddi tan ein traed gan ei phwys ei hun; Pa ham? O ran ein bod yn credu fod gair o nerth Duw wedi ei sefydlu yn ei lê addas ac nad ysgogir ef fyth. Pa ham nas gorphwysem gyda'r un hyder am bethau tragywyddol ar gyfammod ac addewid Duw, gan ystyried fod yr un nerth o eiddo Duw, yng air yr addewid, ag oedd yn y gair hwnnw sydd yn dal i fynu y Byd? Ie, y mae dull y byd hwn yn myned heibio, ond gair yr Arglwydd, gair ei râs, ei addewid, sail ffydd a hyder sydd yn parhau byth. Ystyriaeth yw hon a symmud ymaith y digalondid mwyaf y mae ffydd yn myned tano. Beth sydd yn gwahanu ein ffydd ac yn ei chadw rhag llawn siccrwydd o gyflawniad yr addewid, ond un o'r ddau beth hyn? Naill ag yr ydym yn edrych ar gyflawniad yr addewid fel anodd, neu ansiccr.

Yn awr ffydd wrth olygu Duw wedi ym gymmodi yng Nghrist, yn addo y gall yn esmwyth neidio dros ben y ddau, a chasglu bod cyflawniad o'r addewid yn esmwyth ac yn siccr. I. Mae yn siccr, o ran ei fod yn pwyso ar Dduw anghyfnewidiol, yr addewid yw'r cyhoeddiad o'r bwriad ar ewyllys da o râs sydd yn Nuw;

yr oedd yn foddlon i addo o ran fe a'i gwnaeth yn weithredol, fe aeth y gair yn weithredol allan o'i enau, ac y mae yn foddlon i'w gyflawni o ran mae Duw 'r gwirionedd yw ef, bob amser yn Ie ac yn Amen. 2. ffydd yn edrych ar allu Duw sydd yn gweled y cyflawni yn esmwyth, pa beth sydd yn fwy esmwyth na dywedyd gair? Ac etto un gair o enau Duw all gyflawni'r holl addewidion heb boen, traul, blinder, na pherygl. Gellir cyffelybu'r cyfammod o râs i bren, yr addewidion i ganghennau'r pren yn llawn o bob rhyw ffrwythau gwerthfawr: yn awr, y gair lleia yr anadliad lleia o enau Duw a sigla'r pren, ac a wna i'r holl ffrwythau gwympo i lawr, megis i fynwes y credadyn; ac o, (a all y credadyn ymresymmu,) a fydd dim i'r hwn a garodd fyd colledig felly, fel y rhoddodd ei unig anedig Fâb, ac am carodd i ac a roddodd ei hun drosof fi, a fydd ddim iddo ef ddihidlo'r gair, neu anadliad ei enau arnaf fi? Crêd nid res ond gair rhyngot a sicer drugareddau Dafydd: ie, y mae'r gair wedi myned allan o'i enau, yr wyf yn meddwl, gair y grâs, o'r addewid, ac nid oes dim yn ôl ond i chwi ei gredu, ymddiried a a hyderu ynddo, ac ar yr hwn a'ch gwnaeth; ac ar eich gwaith yn gwneuthur felly, holl sicer drugareddau'r addewid sy'n eiddo chwi yng Nghrist. Yr wyf yn meddwl nas gellwch ammeu nad Duw yr hwn nas gall fod yn gelwyddog a addawodd; yn awr y mae cymmaint rheswm i gredu y bydd iddo gyflawni, ag sydd i gredu ei fod wedi rhoi'r addewid; canys fel y mynegwyd uchod, addo a chyflawni, dywedyd a gwneuthur ydynt oll yr un peth gyd ag ef. Yn wir, pan y bo dynion yn addo, mae achos i ammeu'r cyflawniad o fanyn fynych fod pethau yn dyfod ar y ffordd, ag sydd

yn ei wneud yn ammhossibl iddynt ei wneud fel y dywedant: ond nis gall y fath beth ddigwydd iddo fe ag sydd yn berphaith ragweled yr holl ddigwyddiadau i ddyfod, ac sydd yn gorchymmyn y pethau nid ydynt, fel pe baent. Yn awr, yr wyf yn dywedyd, ffydd sydd yn gweled hyn oll, a thrwy hyn yn derchafu ei hun i lawn siccrwydd, yn y ffydd, ac heb un gradd o amheuaeth na bwhwman. Ac oni bae fod ein ffydd ni wedi ei chadarnhau ag anwybodaeth ac anghrediniaeth, nis gallai hi lai na chredu ar y sylfaen hon, fel y gwnaeth ffydd Abraham.

( 3 ) Gwirionedd a ffyddlondeb Duw, yng Nghrist yn cael ei wystlo yn yr addewid, sydd sail arall ar ba un y mae ffydd yn adeiladu, pan y mae hi yn agoshau mewn llawn hyder. Ffyddlondeb yn Nuw, ffydd mewn dyn, ydynt garenydd; a'r fath berthynas agos sydd rhwng y ddau hyn, ag nas gall ein ffydd ymgynnal heb ffyddlondeb yn Nuw. Ac ar y llaw arall, datguddiad o ffyddlondeb Duw a fyddai afreidiol, oni bae fod rhai i'w gredu ef; fe fyddai'r goleuni yn anfeidrol, pe na byddai llygaid i'w weled ef, a'r llygaid a fyddai yn ddi ddefnydd pe na byddai goleuni. Datguddiad o ffyddlondeb dwyfol, sydd mor ddiles i anghredadyn, ag yw goleuni i ddyn dall; a'n ffydd a fyddai fel llygaid heb oleuni, pe na bae ffyddlondeb yn Nuw. Ie ffyddlondeb yn Nuw sydd megis tâd i ffydd mewn dyn. Ffydd sydd ar y cyntaf, yn cael ei hennill i wneuthur a'i gweithredu yn yr enaid trwy ryw olwg ar ffyddlondeb dwyfol yng air y grâs, ac yn cael ei chynnal a'i chynnyddu trwy yr un ffordd. O ba le y mae fod rhai yn credu, a rhai nid ydynt, er eu bod yn mwynhau'r gyffelyb siccrhâd datguddiedig

o sylfaeni ffydd? Yr achos yw, fod ffyddlondeb Duw yn yr addewid a'r cyfammod yn cael ei ddatguddio trwy'r Yspryd i un, a'i guddio i'r llall, "Duw'r byd hwn yn dallu llygaid yr rhai di gred." Ac o ba le y mae fod credadyn un pryd yn gryf yn y ffydd, yn rhoddi gogoniant i Dduw; ac amser arall, yn bwhwman trwy anghrediniaeth? Y rheswm yw hyn, fod ffyddlondeb Duw mor eglur iddo ar un pryd, fel y mae yn ei weled fel mynydd o brês oddi tano, a phryd arall ei oleuni sydd mor dywyll fel y mae yn dychymygu 'r addewid a ffyddlondeb yr hwn sy'n addo, i fod fel corcenyfig anabl i ddal i fynu ei bwysau. Ond o teistraid, beth all fod sylfaen sicrwydd, ie, 'r siccrwydd llawna mwya ffydd, os nid gwirionedd y Duw hynny sydd a ffyddlondeb yn ei lwynau, ei wregis a'i arennau? Gadewch i ni ond edrych y tystiolaethau uchel o gadarnhâd trwy ba rai y mae'r ffyddlondeb dwyfol yn rhwymo ei hun wrth wneuthur yr addewid, a gwelwch ai nid oes digon o sylfaen i hwn siccrwydd ffydd? Nis gallai'r galon mwya drwgdybus ac amheus yn y byd, ddymuno mwy o gadarnhad oddiwrth y dyn mwya twyllodrus ar y ddaear, nag a ddafu i Dduw'r gwirionedd ei ganiatau i ni, at ein hannog i gredu.

(1) Gadewch i ni ystyried, fod yr addewid noeth, pe bae ddim yn rhagor, yn gyflawnder o gadarnhâd, yn enwedig pan ystyriom yr addawr pwy yw ef; Duw yr hwn nas gall ddywedyd celwydd sydd yn addo. Mae Balaam ddiras yn rhoi iddo'r dystiolaeth hon, "Nid dyn yw efe i ddywedyd celwydd, na mâb dyn i edifarhau; a ddwedodd efe ac nis gwna? A lefarodd efe ac nis daw i ben?" Ni anturiwn hyderu ar air dyn fel ni ein hunain; yn enwedig os bydd yn ddyn o gy-

wyrdeb a gonestrwydd, yr hwn, yr ydym ni yn tybied na thyr mo'i air: ac, a fydd gyda ni gymmaint o hyder ac ymddiried i roi ar ddyn a all ddywedyd celwydd ac edifarhau, ac etto dim crêd na hyder i roi ar yr hwn sydd yn amhossibl iddo ddŷwedyd celwydd? Mae cymmaint barch gan Dduw i air ei addewid, fel y mae yn fwy o bris yn ei gyfrif ef na Nêf a'r ddaear, na'r holl greadigaeth weledig; "y nefoedd a'r ddaear a ânt heibio, ond un iot o'i eiriau ef nid ânt heibio ddim." Ie mi anturiaf ddywedyd yn mhellach, fod ffyddlondeb dwyfol gymmaint wedi ei rwymo yn yr addewid, fel y mae hyd yn oed ei hanfod ef yn negeseua ynddo: dyn a all dorri ei air, a pharhau i fod yn ddyn fyth: ond nid allai Duw fod yn Dduw, pe ni byddai ffyddlon a geirwir, o ran fod ffyddlondeb yn hanfodol i'w nattur a'i fod. Yn awr, onid yw y gair hwnnw yn sylfaenddigonol o ffydd, ac o lawn siccrwydd, am gyflawniad pa un, y mae hanfod Duw'r gwirionedd yn ymrwymo? Ond nid hwn yw'r cyfan, o herwydd nid yn unig fod gair yr addewid wedi myned allan o'i enau, ond ei fod wedi ei ysgrifennu i lawr a'i osod yn rheol ei lyfr.

(2) Chwi wyddoch, gair noeth dyn gonest sydd dda, ond ei air neu ei addewid wedi ei ysgrifennu a'i osod ar gof-lyfr sydd well; pan y byddom yn gosod rhwymau gwr ar gof-lyfr llys dynol, hynny sydd mewn trefn i'n cadarnhau yn fwy, ac fel ac y gallom yngynt gael taliad o'r swm sydd yn gynnwysedig ynddi. Yn awr, Duw sydd wedi cydsynnio rhoi i lawr ar lyfr gair ei addewid, ie, y mae ef wedi ei osod yng ng hof-lyfr ysgrythyrau 'r gwirionedd; ac a ydyw hyn ddim rhwymau uchel o ffyddlondeb Duw? Fe allai

eich bod yn meddwl pe cawsach leisiau, gweledigaethau, datguddiaethau, yn ddi gyfrwng o'r Nefoedd, y gallasech gredu; ond mi allaf eich siccrhau yn enw Duw, fod y Bibl, llyfr Duw, yr hwn sydd gennych rhwng eich dwylo, yn llawer gwell, ac yn sail llawer mwy sylweddol o ffydd ac o ymddiried, na dim o'r nattur hynny. Yr Apostol Pedr a ddywedodd wrthym, ii. Pedr. i. 17. Ei gymmeryd ei hun i fynydd Tabor, ar weddnewidiad Crist, ac yno iddo glywed llais yn dyfod allan oddiwrth y rhagorol ogoniant, gan ddywedyd, *Hwn yw fy anwyl Fâb yn yr hwn i'm llwyr foddlonwyd.* Yr oedd hyn yn rhagorfraint hynod ac yn annogaeth enwedigol i gredu, ond etto medd ef, mae gennych air siccrach o brophwydoliaeth yr hwn, da y gwnewch fod yn dal arno, &c. O feistraid, myfyriwch ar hyn, a phrisiwch a defnyddiwch eich Biblau.

( 3 ) Ffyddlondeb Duw sydd gymmaint yn cael ei rwymo yn yr addewid, fel y mae ef yn weithred seliedig. Y Jehofa mawr ac afeidrol, ym Mherson ei Fâb tragywyddol, a seliodd yr addewid, ie fe seliodd a'i waed. Dan. ix. 27. Fe ddywedir i ni am y Messiah, y cadarnhau ef y cyfammod i lawerodd. A pha fodd y mae efe yn ei gadrnhau? Ond trwy ei angeu. Am hynny gelwir gwaed Crist yn waed y cyfammod felly Heb. ix. 16, 17. Oblegid lle bo Testament, rhaid yw digwyddo marwolaeth y testamentwr; canys wedi marw dynion y mae testament mewn grym, canys nid oes nerth ynddo tra fyddo'r testamentwr yn fyw. Fel hyn meddaf, mae'r addewid wedi ei chadarnhau, ei selio yng ngwaed yr Oen, y sêl fwya gwerthfawr a roddwyd wrth un weithred yn y byd.

Ac mewn arwydd a thystiolaeth o'i bod wedi ei selio yng ngwaed y cyfryngwr, Duw a roddodd ddwy sêl weledig arall wrth gyfammod ei addewid, hynny yw bedydd a swpper yr Arglwydd, y rhain yw seliau cyfiawnder a ffydd; hynny yw, fel yr wyf yn ei gymmeryd, seliau'r cyfammod hwnnw ym mha un y mae Duw yn addo heddwch a phardwn, grâs a gogoniant, ar gyfrif cyfiawnder cyfrifedig Crist yn cael ei ymaflyd ynddo trwy ffydd. A pha bryd bynnag y byddo'r sacramentau hyn yn cael eu gweini i ni yn ol ordinhâd Duw, mae gennym addewid a thestament wedi ei selio ai gadarnhau yn ein dwylo, i'n ffydd i ymborhi a gwledda arno.

(4) Ffyddlondeb Duw sydd wedi ymrwymo mor belled yn yr addawid fel y mae ei lw ef wedi cael ei ddodi i mewn, Heb. vi. 13—18. Yr ydym yn darllain yno am ddau beth dianwadal, yn yr rhain yr oedd yn amhossibl i Dduw fod yn gelwyddog. Ei air ef sydd yn ddianwadal, canys y mae ef bob amser yn Ie, ac yn Amen. Ond fel y caem ni gyssur cryf trwy sylfaen gref i'n ffydd a'n hyder, y mae ef yn chwanegu ei lw dianwadal: mae ef nid yn unig yn dywedyd, ond yn tyngu. Yn awr, daliwch sulw pa fodd y mae 'r Apostol yn dywedyd am lw, adn. 13. "Oblegid na allai dyngu i neb oedd fwy, efe a dyngodd iddo ei hun, megis pe buasai yn dywedyd, pe gallasai Duw fyned yn uwch mewn llw, fe aethai. Llw Duw sydd briodol iddo ei hun, fel mae byw fi; y mae ef yn tyngu trwy ei fywyd, trwy ei sancteiddrwydd, trwy ei hanfod, a thrwy ei Dduwdod. Mor wir a fy mod i yn Dduw, mi a'th fendithiaf medd yr Arglwydd wrth Abraham, adn. 14. Ond medd enaid tlawd pa beth yw

hynny i mi? Pw berthŷnas neu hawl sydd gennŷf fi yn llw Duw i Abraham? O, oes, medd yr Apostol, mae hyn yn perthyn i mi a chwithau, y rhai a ffoesom o gymmyryd gafael ar y gobaith a osodwyd o'n blaen. adn. 18. Megis pe dywedasai, mae hyn yn perthyn i bob enaid tlawd, ac sydd yn chwennych iechydwriaeth, yn y ffordd newydd a bywiol a gyssegrwyd i ni. Fe all ddywedyd, ac fe ddylai ddywedyd ynddo ei hun, mor wir ag i Dduw ddywedyd a thyngu wrth Abraham, mor wired a hynny i Dduw ddywedyd y cawn i fy achyb trwy ffoi am noddfa i Grist, yr hwn yw ein gobaith; megis pe buasai yr Arglwydd yn dywedyd, o bechadur, gosodaf fy Mâb fy hun o'th flaen yn yr efengyl, fel dy unig noddfa, a'th gyssegr; yr wyf yn ei osod allan meges iawn trwy ffydd yn ei waed; o ffywch atto am eich bywyd, trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol; canys mor wir a fy mod i yn Dduw, y cewch eich hachyb ynddo ef; "Israel a achubir yn yr Arglwydd a gwaredigaeth dragywyddol."

O'r fath beth mawr yw hyn! Llw Duw; beth fyth a gredwn, neu pwy a gredwn, os na chredwn Dduw'r gwirionedd yn tyngu trwy ei fywyd? Na ddywedwch nad yw ei lw ef yn perthyn i chwi; canys fel trwy gredu yr ydych yn gosod eich sêl ei fod yn eirwir yn yr hyn y mae ef yn ddywedyd ac yn ei dyngu, felly trwy eich anghrediniaeth yr ydych yn ei alw ef yn gelwyddog, ac ar yr achos yn ei alw yn anudonwr, fel y crybwyllwyd eisioes. Ac am danoch chwi, y rhai a ffoesoch trwy ffydd at ei Fâb ef, chwi fyddwch mor siccr o fendith Duw tros dragywyddoldeb ac y bu Abraham erioed, pan glywodd Dduw yn

tyngu wrtho, " yn siccr gan fendithio mi a'th fendithiaf, a chan amlhau mi a'th amlhâf di.

( 5 ) Ffyddlondeb Duw sydd ymhellach etto yn cael ei rwymo i gredinwyr yn yr addewid, trwy roddi gwystl ac ernes o'r llawn gyflawniad; a'r gwystl y mae ef yn ei roddi sydd fwy ei werth na'r Nêf a'r ddaear. O, meddwch, beth yw hynny? Yr wyf yn atteb, Yspryd sanctaidd yr addewid, yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth, Ephes. xiii. 14. Os teimlaist erioed Yspryd sanctaidd yr addewid yn anadlu arnat, trwy ddylanwadau a'i weithrediadau iachusol, mae genyt ernes yr etifeddiaeth, a gwystl y bydd yr holl addewidion i gael ei cyflawni yn gwbl yn amser Duw. Chwi wyddoch os rhydd dyn wystl, y mae yn cadarnhau am yr holl gytundeb, ac os na fydd i'r dyn gyflawni, ei holl gytundeb, y mae ef yn colli ei wystl; felly yma, fe fydd Duw mor gynted yn fforffetio ei Yspryd, a thorri ei air. Ac a yw hyn ddim yn gadarnhad hynod i gredadyn? A yw hyn ddim yn rhwymedigaeth uchel o ffyddlondeb Duw?

( 6 ) Ffyddlondeb Duw sydd ymhellach yn cael ei gadarnhau yn yr addewid, trwy gydsyniol gyhoeddiad y tystion mwya hynod erioed a ddygodd dystiolaeth mewn un achos, gyda'u gilydd yn tystiolaethu gwirionedd yr addewid, a gwirionedd yr hwn sydd yn addaw, 1. Ioan. iv. 7. " Mae tri yn twstiolaethu yn y Nêf, y Tâd, y Gair, a'r Yspryd Glân, a'r tri hyn un ydynt." Maë 'r Tâd tragywyddol yn tystiolaethu, gwirionedd yr addewid gyda, *fel hyn y dywed yr Arglwydd*. Mae'r Mâb yn ei dystiolaethu, yr hwn yw'r hanfodol a sylweddol air; canys efe yw'r gwirionedd, yr Amen, y tyst ffyddlon a chywir, ag sy'n

H.

llefaru mewn cyfiawnder. Yr Yspryd sanctaidd sy'n ei dystiolaethu; "canys efe yw Yspryd y gwirionedd:" efe yw Yspryd sanctaidd yr addewid, nid yn unig o ran ei fod ef ei hun wedi cael ei addaw, ond am ei fod ef yn tystiolaethu am wirionedd yr addewid, a ffyddlondeb yr hwn sydd yn addo; a thrwy ei nerth a'i rinwedd, sydd yn selio ac yn argraphu y rhain ar yr enaid, trwy ba beth y mae ef yn gweithio ffydd neu gredu: yn awr y tri thystion yma ydynt Un, nid yn unig mewn sylwedd, ond mewn tystiolaeth: a pha beth yw tystiolaeth y Drindod? Hyn yw, adn. 7. I Dduw roddi i ni (hynny yw canniatau yng nghyfammod ei ras a'i addewid) fywyd tragywyddol. A phan y byddo'r dystiolaeth hon o eiddo'r Drindod heb gael ei chredu, yr ydym yn gwneuthur Duw yn gelwyddog. Oddiwrth y cwbl, chwi welwch pa rwymedigaethau uchel a dwfn mae'r ffyddlon dwyfol wedi myned tano, tu ag at gyflawni ei addewid: O yna, nessawn a chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, o ran mae ffyddlon yw'r hwn a addawodd dderbyniad yn yr anwylyd. Ond yn awr, ar ol y cwbl a lefarwyd, rhai sydd yn barod i wrth-ddadlu, gwir yw, ewyllys da, gallu, gwirionedd yr hwn sydd yn addaw, ydynt annogaethau rhagorol i'r rheini sydd a hawl ganthynt yn yr addewid, i agoshau at Dduw mewn llawn hyder ffydd: ond hynny yw fy nghyfyngder i a'm hanhawsdra, yr wyf yn ammeu ac yn ofni rhag nad oes gennyf hawl na thitl i'r addewid o groesaw i'r cyssegr trwy waed Iesu, trwy'r ffordd newydd a bywiol honno. Atteb o hyn sydd yn fy arwain at y 7fed. sylfaen (gan gymmeryd mewn cydsyniad a'r rhai o'r blaen) ar ba un y gall ffydd adeiladu ei siccrwydd,

yn ei gwaith yn agoshau at Dduw trwy'r ffordd newydd a bywiol, a hynny yw yr ysgrifen gyfarwyddyd sydd ar gefn yr addewid o groesaw trwy Grist.

(7) At bwy, meddwch chwi y mae'r addewid wedi ei chyfarwyddo? Yr wyf yn atteb, mae yr addewid wedi ei chyfarwyddo at bob dyn, at ba rai y mae hyfryd swn yr efengyl dragywyddol hon yn cyrhaedd, Ioan. iii. 16. Yno gwelwch, fod yr addewid o dderbyniad, ac o fywyd tragywyddol trwy Grist, yn estyn at fyd colledig; "pwy bynnag a gredo ynddo ef ni chollir ond caffel o hono fywyd tragywyddol." Felly yma, pwy bynnag a nessao i'r cyssegr trwy waed Iesu, ar hyd y ffordd newydd a bywiol trwy gyfryngdod yr Archoffeiriad mawr, a geiff râs a thrugaredd yn gymmorth cyfamserol. Y cyfammod gras, a'r addewidion o hono, sydd felly wedi ei gosod allan gan ddoethineb anfeidrol, yng ngoruchwiliaeth allanol yr efengyl, fel y maent yn edrych ar bob dyn a dynes ac megis pe baent yn eu gwahodd i gredu, a'u hannog hwynt i fyned i mewn i'r cyssegr. Yr hwn sydd yn eistedd ar orsedd-fainc grâs, sydd yn galw ar bob dyn o fewn y greadigaeth, i ymofyn grâs a thrugaredd, gan siccrhau y sawl sydd yn dyfod, pwy bynnag a fyddent, nas bwrw ef hwynt allan ddim. A ni, cenhadon a gweinidogion y Brenhin mawr sydd a'i enw yr Arglwydd trugarog a grâs-lawn, sydd gennym awdyrdod a chomhisiwn i gyhoeddi, mae i chwi ddynion, ac i blant dynion, y mae gair yr iechydwriaeth wedi ei ddanfon; yr addewid sydd wedi ei danfon i chwi, fe sylfaen ffydd, ie, i chwi ac i'ch hâd, ac i bawb ymhell ac yn agos y cynnifer a alwo ar yr Arglwydd ein Duw ni atto. Nid oes yma ddim o'r fe allai

leiaf, ond y mae'r alwad neu gorchymmyn o gredu i bob un, pe amgen nis gallai eu hangrediniaeth fod yn bechod. Yn awr, yr addewid, yn ei ysgrifen gefn a'i chyfarwyddiad, sydd raid fod mor helaeth a'r gorchymmyn; y rhai hyn sydd wedi ei clymmu yn annatodol yn yr oruchwiliaeth allanol, a chymhwysiad tufewnol yr yspryd hefyd, fel pwy bynnag yr ydis yn ei orchymmyn i gredu, sydd a hawl i'r addewid fel sylfaen ddi gyfrwng o ffydd; a phwy bynnag a gredo yn weithredol, ac a adeilado ar y sylfaen hon, sydd ag addewid ganddo mewn meddiant. Cymmerwch ymaith yr addewid oddiwrth y gorchymmyn i gredu, chwi a wahanwch yr hyn a gysylltodd Duw ynghyd, ac mewn effaith, yr ydych yn rho'i dynion i adeiladu heb sylfaen. Gwir yw, Crist yw gwrthrych ffydd; ond mor wir yw, nas gall ef fod yn wrthrych ffydd i ni, ond fel y mae ef yn cael ei ddwyn yn agos attom yng air y ffydd a'r addewid, Rhuf. x. 8. Ac am hynny, gan fod yr addewid i mi a chwithau, a phob un sy'n clywed yr efengyl hon, mi allaf gyda'r Apostol yn eon ddywedyd, "Ofnwn, gan fod addewid wedi ei adael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ôl. Heb. iv. 1. Oddiwrth ba destyn eglur yw, fod addewid o orphwysfa dragywyddol, yn, a thrwy Grist, wedi ei adael, ie, i rheini, a all, fel yr Israeliad fod yn ol o honi trwy anghrediniaeth: a pha fodd y mae hi wedi ei gadel ond i'w chymhwyso trwy ffydd? Crist ein Brawd hynaf a adawodd ei Dstament wedi ei gadarnhau yn ein dwylo ni, i'w ddefnyddio a'i arferyd mewn ffordd o gredu, ac mewn trefn i'n gael hawl i, ac mewn amser cyfaddas i gael llawn berchenogaeth o'r orphwysfa,

yr hon yw pwrcas ei angau a'i wael. O, gan hynny ofnwn, rhag, pan y mae'r addewid wedi ei gadael i ni, bod neb o honom yn debyg o fod yn ol o'r etifeddiaeth: o ran nas gall yr addewid fod fyth yn eiddo ni mewn perchenogaeth, er ei bod wedi ei gadael i ni, oni chredwn; fel y mae yn eglur oddiwrth y geiriau sydd nessaf yn canlyn, adn. 2. lle dywydir am yr Iddewon anghrediniol, y gair a bregethwyd (hynny yw yr addewid o fyned i mewn yw orphwysfa ef, fel y mae yn eglur oddiwrth y cydsyniad) ni fu fuddiol iddynt hwy, o ran nad oedd wedi ei gyd dymheru a ffydd y rhai a'i clywsant. Cyhoeddiad ac addewid Brenhin o bardwn i liaws o wrthryfelwyr, ni lesa un o honynt ond y sawl a dderbynio. Rhodd wedi ei gadael gan ewyllys diwedda cyfaill cyfoethog a goludog, i ryw deulu, heb bennodi ond rhyw berson neullduol o'r teulu, all fod yn fuddiol yn unig i'r person hwnnw, neu'r canghennau hynny o'r teulu ag a fyddo yn cleimio hawl i'r rhodd, ar destament ei gyfaell; ond i'r lleill y mae hi yn anfuddiol, o ran trwy falchder, anwybodaeth, neu ddiogi, hwy a wrthodant ei trugrnedd ei hŷn. Neu gadewch i lythur ddyfod wedi ei gyfarwyddo i mi, yn cynnwys Banc-notes o 50, 100, neu 1000, o bynnoedd, neu, rhagor os mynnwch; yr ysgrifen ac sydd ar gefn y llythyr yn ei gyfarwyddo i mi sydd yn rhoddi i mi hawl i ddwyn y Bill i'r Banc, a gofyn y taliad; ond os, trwy falchder a hunain-dub y credaf fŷ mod yn oludog ac wedi cynnyddu o dda, ni dderbyniaf y llythur, na gofyn taliad o'r swm; yn yr achos hŷn, yr wyf yn dyfod yn fyrr o'm rhagorfraint fy hun, ac y mae yn dyfod yn afleisiol i mi. Yr wyf yn addef fod ym mhob un o'r cyffelybiaethau

hyn anghyffelybiaethau; yr unig ddefnydd, yr wyf yn ei wneuthur o honynt yw, i ddangos pwy mor agos yw Crist a'i iechydwriaeth wedi eu dwyn attom yng air y ffydd, neu'r addewid, fel y gallom trwy hynny gael ein hannog i agoshau trwy waed Iesu mewn llawn sicrwydd ffydd, gan ei fod ef yn ffyddlon wedi addo i ni dderbyniad trwy'r ffordd newydd a bywiol. At y cwbl a ddywedwyd mi a gaf yn unig chwanegu.

(8) Yr annogaeth canlynol i agoshau mewn llawn sicrwydd ffydd, nid oes un rhwystr cyfreithlawn i rwystro ein nessâd a'n llwyddiant, wrth fyned i mewn gyd ag eondra i'r cyssegr trwy waed Iesu. Pob attalfa a rhwystr ag oedd yn sefyll ar ein harchoffeiriad mawr, yr hwn sydd ar dŷ Dduw. Yr holl rwystrau a ellir bledio a'r dy Dduw ydynt y gyfraith, cyfiawnder, a sancteiddrwydd Duw; a'r holl rwystrau a ellir bledio ar ein rhan ni yw pechod: Yn awr, ni ddylai un o rhain ein rhwystro ni i agoshau yn y ffordd newydd a bywiol, mewn llawn sicrwydd ffydd. Am y ddeddf, nid all hon fod yn rhwystr cyfiawn i attal ein dyfodfa, am mae y fynud honno y bo'r enaid yn myned trwy Grist, fel ffordd at y Tâd, mae'r gyfraith yn cael ei dibenu, *Crist yw diwedd y ddeddf, am gyfiawnder i bob un sydd yn credu*. Yn awr, a all y ddeddf fod yn erbyn ei diben ei hun, neu hynny ag sydd yn rhoddi iddi ei gofyniad? Oll y mae'r y ddeddf yn ei ofyn yw cyfiawnder perphaith a dibechod; rhowch iddi hynny, ac nid oes ganddi ddim i ofyn mwyach; yn awr hynny y mae'r ddeddf yn ei gael, y fynud honno y bo'r pechadur yn credu, neu yn agoshau trwy waed Iesu. "Yr hyn nas gallai 'r

ddeddf ei gwneuthur am ei bod yn wan trwy'r cnawd, Duw a ddanfonodd ei Fâb ei hun yng nghyffelybiaeth cnawd pechadurus ac am bechod a gondemniodd bechod yn y cnawd, fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio nid yn ol y cnawd, ond yn ol yr yspryd." Rhuf. viii. 3, 4.

Oddiwrth ba le y mae yn eglur, fod pob enaid ag sydd yn credu yng Nghrist, yn y fynud hono yn cael ei wisgo, trwy gyfrifiad a chyfiawnder Mâb Duw, trwy ba ffordd y mae'r gyfraith yn cael ei derchafu a'i gwneuthur yn anrhydeddus: ac am hynny, wrth nessau trwy waed Iesu, yn lle cael y ddeddf i'n herbyn, y mae'r ddeddf o'n tu, ac o'n plaid; y mae gennym berphaith ddeddf cyfiawnder i bledio drosom. Hefyd, am gyfiawnder Duw, y mae hwn yn barod i'n gwahodd ni y rhai ydym bechaduriad euog, gymmaint ac i edrych tua'r lle sanctaidd, neu'r lle y mae anrhydedd Duw yn trigo: ond nid all hwn fod yn rhwystr i'n nessâd trwy waed Iesu mewn llawn hyder ffydd. Pa ham? Yr hyn y mae cyfiawnder yn ei ofyn, yw taliad llawn am y cam a wnawd i anrhydedd ac awdyrdod Duw, trwy dorri a halogi'r ddeddf gyfiawn a sanctaidd, yr hon oedd goppi o burdeb a chywirdeb ei nattur: yn awr, pan y byddo pechadur yn agoshau, neu yn myned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu, y mae yn rhoddi i gyfiawnder yr hyn sydd ddiffyg arno hefyd, hynny yw; iawn o anfeidrol werth, yr iawn hynny a appwyntiodd Duw ac a osododd allan yn yr efengyl i'w dderbyn trwy ffydd. Y dyn wrth gredu sydd, megis pe byddai yn cynnig y iawn hwn i gyfiawnder am bechod ei enaid; a pha bryd bynnag y gwelo cyfiawnder yr iawn hyn o Waed Iesu yn llaw

ffydd mae ef yn gollwng, ac yn rhyddhau, yr enaid oddiwrth holl ofynion y gyfraith, gan gyhoeddi "yn awr nid oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yng Nghrist Iesu" Rhuf. viii. 1. Na rodded neb ddim o hyn allan yn ei erbyn, o herwydd mae Duw sydd yn cyfiawnhau, pwy sydd yn damnio? Crist yr hwn a fu farw, ie, yr hwn a gyfodwyd hefyd, yr hwn hefyd sydd yn eiriol trostom ni. Fel hyn cyfiawnder, yn lle rhoddi rhwystr ar y ffordd i'r cyssegr, a ddaeth yn gyfaill ac a agorodd ddrws o ddyfodfa i ni; canys cyfiawn yw Duw pan y mae yn cyfiawnhau y rhai sydd yn credu yng Nghrist Iesu. Am sancteiddrwydd Duw, fe debygid ei fod yn sefyll fel attalfa anorchfygol ar ein ffordd o fyned i mewn i'r cyssegr o ran aflendid, halogrwydd, a ffieidd-dra pechod, yr hyn sydd yn ein gwneuthur yn atgas o flaen Sanct Israel: ond, gogoniant i Dduw yn yr uchelder, y rhwystr yma sydd wedi ei symmud ymaith trwy waed Iesu; canys y fynud honno y delo'r pechadur tan gysgod y gwaed yma, ac yn agoshau at Dduw tan y gorchgudd hwn, y mae yn cael ei galon trwy hynny wedi ei glanhau oddiwrth gydwybod ddrwg, a'i gorph wedi ei olchi a dwfr glân. Yn yr un fynud ac y byddo cyfiawnder yr ail Adda yn cael ei roddi i ni at gyfiawnhâd, ei Yspryd sydd yn myned i mewn i ni at sanctaiddhâd, gan ein hadnewyddu yn yr holl ddyn ar ôl delw Duw. Ac nid yw gwaed Iesu yn unig ond cuddio euogrwydd pechod, yr hyn oedd yn ein gwneuthur yn ddarostyngedig i ddeddf a chyfiawnder Duw; ond y mae fe yn cuddio halogrwydd pechod, oddiwrth olygon sancteiddrwydd dihalog; ie, sancteiddrwydd sydd gymmaint cyfaill i bechadur yn ei waith yn agoshau trwy waed

Iesu, fel y mae'r briodoledd hyn o'r nattur ddwyfol yn cael ei gwystlo yn yr addewid o dderbyniad a wnawd yng Nghrist a'i hâd, Sal. lxxxix. 2. 25. Ar ba gyfrif y caf gynghori pob math o gredinwyr yng ngeiriau'r Salmydd. Sal. xxx. 4. "Cenwch i'r Arglwydd ei holl Saint ef, a chlodforwch wrth goffadwriaeth ei sancteiddrwydd ef. Fel hyn, gan hynny yr wyf yn dywedyd, pob rhwystrau ac attalfa ar dy Dduw ac allai rwystro ein dyfodfa i'r cyssegr sydd wedi ei symmud ymaith trwy waed Iesu; am hynny nessawn a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd.

Am y rhwystrau ar ein tu ni, gellir llefaru am dannynt yn neullduol yn y cymhwysiad. Mi gaf ddywedyd yn bresennol yn unig, fod yr holl swm o honynt yn cyrraedd i hyn, ein bod ni yn bechaduriaid; mor resynol, ddall, dlawd, a noeth, ag allwn feddwl na fydd Duw fyth i'n derbyn, na rhoi craesaw i ni: ond ar unwaith i dorri ymaith y rhwystr hwn gadewch i ni ystyried fod y ffordd newydd a bywiol hon o nessau i'r cyssegr wedi ei gwneuthur yn unig i bechaduriad; nid yw Crist yn galw y rhai cyfiawn (sef diniwaid) ond pechaduriaid i fyned i mewn trwyddo fel ffordd at y Tâd: os nid oeddach chwi yn bechaduriaid, ond y rhai cyfiawn fel Adda cyn y cwymp, ni fyddai raid i chwi fyned i mewn trwy waed Iesu. Ond gan fod y ffordd a'r drws i'r cyssegr, wedi ei gwneud a'i chymnwyso yn unig i bechadur, o na fydded i'r pechadur necâu myned trwyddo i bresendoldeb Duw; yn enwedig pan y mae yn ein galw ni, bechaduriaid i nessau a chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd. Ffyddlon yw'r hwn a addawodd dderbyniad yn yr Anwylyd.

# TRAETHAWD VI.

*Y cynnhwysiad o'r athrawiaeth ragflaenol.*

AF rhagof yn awr i glymmu i fynu yr ymadroddion hyn, mewn rhyw gymmhwysiadau defnyddiol o honynt, a gynnygiaf i derfynu mor fyrred ag y gallwyf, yn yr ychydig ddefnyddiau canlynol.

( 1 ) Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gallwn weled fod dirgelwch mewn credu, yr hyn nad yw'r Byd yn ei ddeall, ie, yr hyn nis gwyr neb. " heb yr Yspryd hynny sydd o Dduw, trwy ba un y gwyddom y pethau a râd roddwyd i ni gan Dduw." Yr Apostol I Tim. iii. 9. sydd yn dywedyd am ddirgelwch ffydd. Ac yn wir pob peth o amgylch iddi sydd ddirgelwch; y ffordd o'i hennill, neu pa fodd y mae hi yn cael ei gweithio yn yr enaid, trwy allu yr Yspryd tragywyddol, sydd ddirgelwch; pwy a wyr pa fodd y ffurfir yr esgyrn yng nghroth y Feichiog? Llawer llai cymmwys ydym ni i roddi cyfrif o ffordd a dull o weithrediad yr Yspryd wrth ein llunio an creu yng Nghrist Iesu trwy ffydd. Oddi yma y mae geiriau Crist wrth Nicodemus Ioan. iii. 8. "Mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno; a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nag i ba le y mae yn myned, felly y mae pob un ag a enir o'r Yspryd." Pa fodd y mae Yspryd Duw yn diferu i'r galon, hâd anllygredig ei air ei hun, ac yn ffrwythloni yno, fel y tarddo er nad yw ynddo ei hun ond llythyren farw, i egwyddor fywiol, a fyddo yn puro'r galon, yn ffieidd-

io hunain, ac yn dwyn yr enaid yn union-gyrch at Grist am bob peth; sydd ddirgelwch nas gallwn ei gynnwys na rhoi cyfrif am dano. Ac yna gwrthrych ffydd sydd ddirgelwch mawr: Duw y gwrthrych olaf o honi, sydd ddirgelwch arswydus; pwy trwy chwilio a'i cafodd ef allan, naill a'i yn ei sylwedd, ei weithrediadau neu ddull ei hanfod, un yn dri a thri yn un? Crist, y gwrthrych mwya digyfrwng o ffydd, sydd ddirgelwch mawr, Duw yn y cnawd; "di ddadl mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd," cyfammod yr efengyl, trwy ba un yr ydym yn credu yng Nghrist, sydd ddirgelwch a guddiwyd oddiwrth oesoedd a chenhedlaethau, ond yn awr a wnawd yn amlwg i'w Saint ef. Ac yn olaf, gweithrediadau ffydd ar ei gwrthrychau sydd ddirgelwch mawr y modd y gall credadyn gwael ar y ddaear dderbyn Crist yn y Nefoedd, ar ddeheulaw Duw: y modd y mae ef yn ei gymhwyso fel ei Iachawdwr ei hun, ar y rhoddiad annherfynedig a wneir o hono yn y cyfammod newydd, lle nad yw Dyn yn cael ei alw wrth ei enw; y modd y mae ffydd yn gwneud defnydd o Grist a'i gyfiawnder, gyda'r fath rydd-did a dyn a wnai ddefnydd o'r bwyd a'r ddiod a osodid o'i flaen ef, ar ba gyfrif y dywedir ei fod ef yn bwyta cnawd ac yn yfed gwaed Mâb Duw: y modd y mae hi yn gwisgo cyfiawnder Crist, ac yn ymffrostio yn ufudd-dod un arall megis pe buasai y dyn wedi cyflawni'r gyfraith yn ei berson ei hun: y modd y mae hi yn tynnu allan gyflawnder y Duwdod sydd yn preswylio yn gorphorol yng Nghrist, ac felly yn llanw'r enaid o gyflawnder Duw: y modd y cymmer hi air noeth o enau Duw, ac a lawenhâ ynddo fel un a gafo yspail lawer: y modd y cymmer hi y gair hwn

ac yr agoshâ hi atto ef yn y ffordd newydd a bywiol mewn llawn hyder o dderbyniad; y pethau hyn ydynt ddirgedigaethau nas gall cig a gwaed eu datguddio; ag etto i bob gwir gredadyn y rhoddwyd yn llai neu fwy gwybodaeth o'r dirgeledigaethau hyn o'r deyrnas.

( 2 ) Oddiwrh yr athrawiaeth hon y gallwn weled rhagoroldeb y grâs o ffydd. Pan y bo hi yn cymmeryd golwg ar waed Iesu, o'r ffordd newydd a bywiol, ac o'r archoffeiriad mawr ar dŷ Dduw, hi all nessau i'r cyssegr mewn llawn hyder o dderbyniad; ac nid heb sail dda y mae ffydd yn addo iddi ei hun groesaw oddiwrth yr Arglwydd yn ei nessad atto trwy Grist; fe wnaeth Duw yr un, do lawer mwy o roddiad i'r grâs o ffydd nag a wnaeth Ahasuerus i Hester. Pa beth a ofynni di, a mi ai rhoddaf i ti, a pha beth yw dy ddeusyfiad, ac y fe a wneir. Cymmarwch hyn, a Ioan. xiv. 13, 14. "Pa beth bynnag ofynoch yn fy enw I hynny a wnaf, fel y gogonedder y Tâd yn y Mâb, Os gofynnwch ddim yn fy enw i hynny a wnâf. Felly Marc. xi. 24. "Pa beth oll a geisioch wrth weddio credwch y derbyniwch, ac efe fydd i chwi." Fel y rhoddodd Ahasuerus anrhydedd neullduol i Hester, ac a'i parchodd uwchlaw'r holl forwynion yn y Deyrnas; felly Duw, Brenhin y Brenhinodd, sydd yn argraphu anrhydedd neullduol ar y grâs o ffydd, gan ei pherchu uwchlaw'r holl rasusau eraill; ar ba gyfrif y gall hi ddwedyd gyda Mair, Luc. 1. 48. Efe a edrychodd ar ostyngeiddrwydd ei wasanaethyddes. Er fod Duw yn uchel, etto y mae ef yn edrych ar yr issel. Er mae efe yw yr uchel a'r dyrchafedig sydd yn cyfaneddu tragywyddoldeb, etto y mae ef yn preswylio gyda'r gostyngedig: mae ef yn pleseru dewis, a derchafu ffol,

gwan, gwael, a dirmygedig bethau'r byd hwn ; ie, y mae ef yn dewis y pethau nad ydynt, fel y diddymai y pethau sydd. Ffydd yw y gwaela, y tlotta, yr issa, a'r mwya anghenus o'r holl rasusau eraill ; o ran fod yr holl rasusau eraill yn rhoddi rhyw beth i Dduw, lle y mae ffydd, fel perphaith gardottyn, yn dyfod nid i roi un peth, ond i gael a derbyn y cwbl: ag etto y mae Duw yn cymmeryd y cardottyn hwn, a'i osod ymhlith tywysogion, a'i gyffelybu i'r ymadrodd hwnnw Sal. cxiii. 7, 8. Y fath anrhydedd a derchafiad y mae Duw yn ei osod ar y grâs hwn. (fel er iddo ddywedyd, ni roddaf fy ngogoniant i arall ; ) etto cyn lleiad eiddigedd sydd ganddo ar y grâs o ffydd, fel y mae ef megis yn ei osod ar yr orsedd gyd ag ef ei hun, gan gyfrif pethau iddo, ag sydd briodol yn unig iddo ef ei hun ; y mae yn gosod perlau ei goron ar ben ffydd. Iechydwriaeth pechadur colledig sydd yn perthyn yn unig i Dduw, "efe yn unig yw Duw iechydwriaeth, i ba un y mae yn perthyn dihangfau rhag marwolaeth ;" etto hyn sydd yn cael ei gyfrif i'r grâs o ffydd, dos mewn heddwch, medd Crist, dy ffydd a'th iachaodd. Cyfiawnhâd sŷdd yn perthyn i Dduw yn unig, Duw sydd yn cyfiawnhau, medd yr Apostol, ac y mae'r un Apostol eilwaith yn cyfrif cyfiawnhâd pechadur i ffydd, "Trwy ffydd y cyfiawnheir dyn heb weithredoedd y ddeddf." Duw yn unig yw Arglwydd y bywyd, yr hwn sydd yn lladd ac yn bywhau, etto bywyd sydd yn cael ei gyfrif i ffydd, y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd. Hollalluogrwydd sydd briodoledd neullduol i Dduw, efe yw'r Hollalluog ; ac etto y mae hollalluogrwydd yn cael ei gyfrif i ffydd, "pob peth sydd bossibl i'r hwn sy'n credu ; pe bae gennym ffydd fel gronyn o hâd

mwstard, ni allem ddywedyd wrth y mynydd hwn neu arall, symmudir di ac fe a fydd." Os darllenwch yr xi. o'r Hebrdaid, chwi gewch weled y pethau hyn yn cael ei cyfrif i ffydd, nas gallai ond yr Hollalluog ei hun ei gwneuthur, megis cau safnau Llewod, diffodd angherdd y Tân, cyfodi'r meirw a'r cyffelyb. Yn awr, a ydych chwi am wybod pa ham y mae Duw yn cyfrif gweithrediadau a chyflawniadau i ffydd, ag sydd yn perthyn iddo ef ei hun yn unig? Y rheswm eglur yw, o ran fod ffydd y fath ras issel, a gwael, hunan ymwadol, fel y mae union duedd ei nattur i gau allan hunan, ie, i gau allan ei hunan, i ymffrostio yn unig yn yr Arglwydd; ac i roddi iddo ef y gogoniant dyledus i'w enw, gan ddywedyd, nid i ni ond i'th enw dy hun dod y gogoniant A ydyw ffydd yn ein hachyb? Ydyw, y mae hi; yna y mae hi yn troi gogoniant ein iechydwriaeth at yr Awdwr o honi gan ddywedyd, ein Duw ni yw Duw iechydwriaeth. A ydyw y cyfiawn yn byw trwy ffydd? Ydyw, yna y mae ffydd yn taro i mewn gyd ag ( nid myfi ) Gal. ii. 20. "Byw wyf fi ac nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi." A ydyw ffydd yn cyfiiawnhau? Ydyw mae, ond yna ei hiaeth hi ydyw, diau yn yr Arglwydd y mae i mi gyfiawnder, ynddo ef yn unig i'm cyfiawnheir, ac ynddo ef yn unig yr y mffrostiaf. A wna ffydd bob peth? Gwna, ond trwy bwyso ar fraich yr Hollalluog mi wnaf bob peth trwy Grist yn fy nerthu. Fel hyn, yr wyf yn dywedyd, nid yw ffydd yn rhyfygu cymmeryd dim iddi ei hun, ond yn rhoddi i'r Arglwydd y gogoniant dyledus i'w enw. Ac mor wresog yw ffydd i dderchafu Duw yn unig, yn enwedig ei râs yng nghyfiawnhâd a iechydwriaeth pechadur, fel er mae

credu yw y weithred ucha, a mwya o ufudd-dod a all neb roddi i'r gyfraith foesol; etto er mwyn i ymffrost gael ei chau allan yn dragywydd, y mae hi yn cae ei hun allan o'r cyfrif, a rhês o weithredoedd o ufudd-dod, Rhuf. iv. 6. "I'r hwn nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, ei ffydd (a'i hystyried yn wrthrychol) a gyfrifir iddo yn gyfiawnder." Rhagoriaeth neillduol ffydd yw, ei bod yn darostwng ei gweithrediad ei hun, er mwyn i Grist ei bendigedig wrthrych gael ei dderchafu, oll yn oll: mae hi yn llawenhau yng Nghrist Iesu, ac yn gorfoleddu bob amser ynddo ef. Ac er, fel y dywedais, eu bod yn un o'r grasusau tlotta, issa, mwya anghenus o'r holl rasusau, etto y mae hi yn râs ag a sydd yn ymfalchio ei hun yn yr Arglwydd Iesu, a thrwy ei waed yn myned i mewn gyd ag hyfdra i'r cyssegr.

(3) Os ewyllys Duw yw, i ni agoshau mewn llawn siccrwydd ffydd; oddi yma yr wyf yn casglu, na all anghrediniaeth, naill a'i yn teurnasu yn y rhai drwg, neu ei weddill yn y Saint, lai na bod yn eitha gwrthwynebol ac atgas iddo ef. 1. meddaf, anghrediniaeth, yn teurnasu yn yr anuwiol, sydd yn gyfan wrthwnyeb i ewyllys Duw: y dyn dan awdyrdod anghrediniaeth, yn lle nessau mewn llawn siccrwydd ffydd, sydd yn pallu oddiwrtho, trwy anghrediniaeth a drwgdybiaeth o'i râs, ei allu, a'i wirionedd. Fel y dywed Solomon Diar. vi. 34. "Cynddaredd yw eiddigedd gwr." Os bydd i'n ond cadw a mynegu drwg dyb neu anghred am wirionedd gwr, digon yw i gyffroi ei lid a'i gynddeiriogrwydd i'n herbyn: pa ham? Pan y bo'm yn mynegu drwg dyb am dano mewn effaith yr ydym yn ei alw ef yn gelwyddog. Ac os dyn, yr hwn sydd

wagedd, a mâb dyn yr hwn nid yw ond celwydd, a'i cyfrif yn fath ammharch fod ei wirionedd a'i ewyllys da yn cael ei roddi mewn dadl, pa faint mwy ammharch sydd yn cael ei wneuthur iddo ef, yr hwn y mae yn ammhsibl iddo ddywedyd celwydd? O feistrad, anghrediniaeth sydd yn cynnig y dirmyg mwya amlwg i Dduw'r gwirionedd, ag all fod yn bossibl i greadur wneuthur. Duw, fel y clywsoch, i annog ein ffydd a'n hyder ynddo ei hun, a roddodd bob siccrwydd ag oedd bossibl ei roddi; ie, ni allasai y galon mwya drwgdybus yn y byd ofyn gwell ssccrwydd oddiwrth y dyn mwya bradwrus ar y ddaear, nag a roddodd Duw yn ei air; canys er fod gair noeth ei addewid yn ddigon i ofyn ffydd oddiwrth holl ddynol-ryw, etto heb-law ei air fe roddodd ei ysgrifen; heb-law ei ysgrifen, fe roddodd ei lw sanctaidd; heb-law ei lw sanctaidd fe roddodd feichiau; heb-law meichiau fe chwanegodd ei selfiau parchedig, ac a gadarnhaodd y cwbl trwy unol dystiolaeth y tri ag sydd yn tystiolaethu yn y Nêf, y Tâd y Gair, a'r Yspryd-Glân. Yn awr ar ol yr holl ddiogelwch hyn, cadw gwan grêd am dano, megis pe bae heb fod yn ffyddlon i'w ei addewid o groesaw a derbyniad yn yr anwylyd; beth arall yw hyn ond ei wneuthur ef yn gelwyddog? Ffyddlondeb a gwirionedd yw gwregis e lwynau a'i arennau; ond angrediniaeth sydd yn gwneud ei goreu am ddattod ei wregis gan osod arno fradwriaeth ac anffyddlondeb. Chwi a'i cyfrifech yn achwyniad uchel iawn ac erchyll, i un dyn osod arnoch gabledd yn erbyn Duw; ac etto mi fyddaf hyf i ddywedyd, pob anghredadyn sydd yn gablwr Duw; canys a all mwy cabledd fod tan y nêf na gwneuthur Duw yn gelwyddog? Mae yn wir diamheuol,

y myn Duw ei gael yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog. Etto yr anghredadyn sydd yn gwneud ei orau i'w wneuthur ef yn gelwyddog; trwy wrthod rhoi crêd i'w air. Ac, ar ôl y cyfan, a ydyw yn rhyw ryfeddod fod Duw Sanctaidd yn eiddigus wedi llidio cymmaint yn erbyn y pechod o anghrediniaeth a chyhoeddi, *yr hwn nad yw yn credu a ddamniwyd eisioes*, a bod digofaint Duw yn aros arno ef? Credwch, hyn festrad, os parhau a wnewch i gablu Duw trwy eich anghrediniaeth yma, chwi gewch amser i'w gablu ef yn uffern gyda Diafliad ac ysprydion damnedigaeth dros oesoedd anherfynol dragywyddoldeb. Ioan. viii. 24. "Os na chredwch mae myfi yw efe, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau. Ioan. xv. 22. "Oni buasai i mi lefaru wrthynt, ni buasau arnynt bechod, ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod."

(2) Nid yw'r athrawiaeth hon yn unig yn condemnio anghrediniaeth sydd yn teyrnassu yn y rhan fwyaf o wrandawyr yr efengyl, ond hefyd gweddill anghrediniaeth yn y credinwyr ei hunain. Duw a wyr pa sawl anghrediniol gredadyn sydd yn ein mysg; nid oes nemmawr o gredinwyr nad ydynt yn euog o ddêg, os nid o ugain gweithred o anghrediniaeth am bob un o ffydd. O nas gallwn gywylyddio, ie, credinwyr ei hunain allan oddiwrth ei hangrediniaeth! Ni ddywedaf yn unig ond bod eich angrediniaeth chwi yn llawer mwy afresymmol ac anesgusodol nag anghrediniaeth rhai eraill: pa ham? Ni roddodd Duw ddim i chwi yn unig sylfaen ffydd megis y rhoddodd i eraill, ond fe roddodd y grâs o ffydd, ac anghredu yn y fath achos a hyn, sydd fai o'r nattur fwya du ac arswydus.

Os plentyn, yr hwn a flagurodd allan o lwynau ei Dâd, a'r hwn yw gwrthrych o'i serchiadau anwylaf, fyddai iddo ei alw ef yn gelwyddog, oni roddai hyn glwyf mwy teimladwy i galon y Tâd na phe buasai yn cael ei alw gan rwy berson arall; hyn yw ein gwir gyflwr ni gredinwyr; Duw a'ch cymmerodd chwi i'w deulu ac a roddodd i chwi enwau meibion a merched, ac fe ddywedodd wrthych mewn effaith megis Jer. iii. 4. "Oni elwch chwi o hyn allan fy nhad," oni nessewch chwi atto o hyn allan fel Tâd, ac fel eich Tâd yng Nghrist mewn llawn hyder ffydd? Ac etto, ar ol y cwbl, ei alw ef yn gelwyddog, trwy eich anghredin-iaeth, a dywedyd fod ei addewid ef yn methu byth, neu iddo anghofio bod yn drugarog; o, pa fath glwy dwfn yw hyn, dybygwch, yn ei roi i galon eich Tâd nefol! Annogaethau i ddigofaint oddiwrth Feibion a Merched, yn enwedig oddiwrth anghrediniaeth, sydd yn cyfarfod ag ef yn y man mwya tyner.

Chwi ellwch ofyn yn fuan, ymha le y mae anghrediniaeth credinwyr yn datguddio ei hun?

( 1 ) Y mae yn datguddio ei hun yn ei waith yn dadleu ym mhlaid anghrediniaeth, a hynny tan gysgod têg o ostyngeiddrwydd. O, medd y dyn, mae yn beth rhy fawr i'm bath i anturio i mewn i'r cyssegr; fe fyddai yn rhyfig ynwyf, i agoshau mewn llawn hyder ffydd, gan ofyn hedd, maddeuant, grâs a gogoniant; nis gallaf gyfarfod a rhodd Duw, na chymmeryd gafael ar ei gyfammod; fy mysedd sydd yn rhy aflan i gyffwrdd a'r fath bethau Sanctaidd. Dyma yn wir liw ac ymddanghosiad teg o ostyngeiddrwydd, ond feistrad nid yw ddim ond y diafol o anghrediniaeth wedi ei wisgo ym mantell Samuel; dadleu o achos anghredin-

iaeth yw, a gwrthod ufuddhau i orchymmyn eglur Duw, tan esgus nad ydych yn ddigon addas i gredu, bod arnoch eisiau y cymmhwysiad hyn ac arall; a pha beth yw hyn ond sawyr o'r hen Addu, ac archwaith y cyfammod o weithredoedd? Pa beth bynnag a ddychymygo rheswm cnawdol, gwir ffydd, er ei bod y peth hyfa, etto yw'r peth mwya gostyngedig a hunan wag-haol yn y byd; a pha fwya o hyfdra a siccrwydd ffydd, bob amser mwya gostyngedig; a rheswm o hyn sydd eglur, o ran fod ffydd yn ei gwaith yn negeseua a Duw yn diystyru cymmaint a thaflu golwg ar un grâs neu gynneddf yn yr enaid ei hun, yn unig ond ar y gwag-ter, tlodi, a'r trueni mwya, &c. Ac adeiladu ei holl hyder ar sylfaen tu allan iddo ei hun, sef cymmhwys-iadau ardderchog yr Archoffeiriad mawr yr hwn sydd ar dy Dduw.

( 2 ) Anghrediniaeth credinwyr sydd yn amlygu ei hun yn y ffordd wan, lesg, ofnys o gredu, megis pe bea'r tir sydd tan ei thraed, yn anabl o'n cynnal; yn gyffelyb iawn i ddyn yn cerdded ar hyd iâ gwan, yr hwn er ei fod yn mentro ei bwys arno, etto y mae ef bob munud yn ofni, rhag i'r iâ dorri oddi tano a'i oll-wng i'r gwaelod; fel hyn yn union y mae hi gyd ag amryw gredinwyr, hwy a fentrant ar Grist, ar ei gyf-iawnder, ac ar ffyddlondeb Duw sydd yn cael ei gynnig yn yr addewid, gyda rhyw ofn dychrynllyd, megis pe baent yn cwympo danynt, a'i gadael i golli dros byth; a pha beth yw hyn, ond anghrediniaeth neu wan grêd o ffyddlondeb Duw neu o gyfiawnder Crist, i ddal yr enaid i fynu yn ei achosion tragywyddol.

( 3 ) Anghrediniaeth credinwyr sydd yn ymddan-gos yn ei tueddiad at y ffordd o fyw wrth deimlad:

teimlad, oni cheiff y trysor yn ei law ei hun, nid yw yn cyfrif addewid Duw werth ffyrling; ond ffydd, sydd yn gorfoleddu yn yr addewid fel ei lluniaeth, hyd yn oed yn un pryd y bo teimlad wedi myned allan.

Y credadyn, sydd yn byw wrth deimlad, ni chred yr addewid, neu ni choelia wirionedd yr hwn sy'n addo, oni bydd wedi ei gyflogi a'i wobrwyo a chyssuron ac amlygiadau teimladwy, yn gyffelyb iawn i Thomas, Ioan. xx. 25. "Oni welaf yn ei ddwylo ef ol yr hoelion, a gosod fy mysedd yn ol yr hoelion, a rhoddi fy nwylaw yn ei ystlus ni chredaf ddim." Mae gyd ag amryw gredinwyr megis gyda nofiadwyr anghyfarwydd, hwy a fentrant i'r dyfnder, os chwi a ymrwyma i ddal eu pennau hwynt i fynu, ac nid amgen; nid gwir nofio yw hyn, gwir nofio yw bod dyd yn mentro pwys ei gorph i'r dwfr, a thrwy rym y dwfr, a gwaith ei ddwylo a'i aelodau, i ddal ei hun i fynu heb suddi. Felly gwir gredu yw nid i ddyn ymddiried yn Nuw a'i addewid, yn unig, pan y byddo yn cael ei ddal i fynu a chyssuron teimladwy; ond i ddyn i orphwys, sefyll, a dal i fynu ei enaid ar addewid noeth Duw, ie, yn y pryd y byddo'r holl attalfeydd hyn wedi ei symmud ymaith: gobeithio yw yn enw'r Arglwydd ac ymddiried ein hunain arno ef fel Duw i ni, pan y byddom yn rhodio mewn tywyllwch heb lewyrch i ni.

( 4 ) Yr athrawiaeth hon sydd yn gwasanaethu i amlygu beth yw grym a maintioli ein ffydd o ran y modd oedd yr Apostol yn y testyn, fel y dywedwyd eisios sy'n eglur iawn yn cynnwys, bod credinwyr o amryw faintioli yn nhy Dduw. Yn awr, i helaethu'r defnydd hwn mae dau neu dri o bethau yn perthyn i'r rhan ymarferol o grefydd, y rhai a gynnygiaf yn fyr ei dadrys.

(1) Pa fath yw arwyddion cynnefin ffydd gref.

(2) Pa fath yw arwyddion cynnefin ffydd wan.

Pa fodd y gwybyddir gwirionedd ein ffydd er ei bod yn radd issa a gwanna?

Cwest. I. Pa beth yw arwyddion neu nodau ffydd gref?

Atteb. I. Pa fwya byddo deddfoldeb y galon yn cael ei orchfygu, mwya yw ffydd dyn. Pob dŷn wrth nattur sydd wedi ymbriodi a'r ddeddf fel cyfammod; a thra fyddo dim o'i anian yn y credadyn, fe geiff weled tuedd cryf yn ei galon, yn ei droi at weithredodd y ddeddf, fel sylfaen o'i dderbyniad ger bron Duw. Ac o, mor esmwyth a dirgel y llithra ein hyspryd i elfen yr hen gyfammod yma, gan ddychymygu fod Duw yn ein derbyn yn well ar gyfrif ein sancteiddrwydd tu mewnol ein hunain, neu weithrediadau allanol o ufudd-dod! Yn awr, yr wyf yn dywedyd, pa fwya cryf y byddo'r tuedd hyn o'n calon yn cael ei orchfygu, cryfa i gîd yw'n ffydd. Ffydd gref a bywiol sydd yn edrych dros ben yr holl ddyledswyddau, grasusau, doniau, a phrofiadau, fel sylfaenau o'n derbyniad, gan osod ei holl hyder yn unig ar waed Iesu, haeddiant a chyfryngdod yr Archoffeiriad mawr yr hwn sydd ar dy Dduw, trwy rinwedd y cyfammod gras a'r addewid rhydd o dderbyniad ynddo ef. Y credadyn cryf sydd yn bwrw allan y wasanaeth-ferch a'i had o weithredoedd deddfol, gan gyfaddef ei hun yn unig yn fâb y wraig rydd, etifedd yr addewid o râs a gogoniant trwy Grist a'i gyfiawnder cyfrifol: ar y graig hon y bwrw ef i lawr ei Angor, ar y sylfaen hon yr adeilada ef ei obaith gan wadu ei ddaioni megis peth na fyddai yn perthyn i'r Arglwydd, gan gyfrif ei gyfiawnder ei hun, pa un bynnag a'i deddfol, a'i efengylaidd, naill a'i cyn,

neu ar ol troedigaeth, fel dom a cholled, fel y caer ef yng Nghrist, a chael y cyfiawnder sydd trwy ffydd yng Nghrist: ni chymmer gymmaint a'r garreg neu'r hoel leiaf o weithredoedd y ddeddf, i helpu i fynu yr adeilad newydd o râs, na wna, fe geiff bod i gyd yn râs o'r pen i'r sylfaen, a thrwy bob rhan o hono grâs yn teyrnassu trwy gyfiawnder cyfrifol. Eph. ii. 8. "Trwy râs yr ydych yn gadwedig trwy ffydd, a hynny nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw; nid o weithredoedd fel na ymffrostia neb.

(2) Fydd gref a adeilada ei hyder, ym mherthynas i bethau mawrion, ar air noeth yn dyfod allan o enau Crist, hyd yn nod pan y byddo'r teimlad a rheswm, ie, trefn gyffredin rhagluniaeth yn ei herbyn. Hyn yr ydym yn ei weled yn achos Abraham, wedi ei dd'wedyd eisioes Rhuf. iv. Er fod pob peth megis yn golygu yn ei erbyn, etto "nid ammheuodd efe addewid Duw trwy anghrediniaeth, ond gan fod yn ddiegwan yn y ffydd efe a ogoneddodd Dduw:" ie, ffydd gref sydd yn dal gafael yn yr annogaeth leiaf oddiwrth yr Arglwydd, ac yn adeiladu ei siccrwydd ar hynny am fwynhad o'r peth y mae hi yn ddymuno, Math. viii. 6—8. Y cannwriad a ddaeth at Grist yn achos ei wâs, yr hwn oedd yn glâf o'r parlys, ac mewn poen ddirfawr. Crist sydd yn atteb adn. 7. "Mi ddeuaf ac a iachiâf ef." Wele, ffydd y dyn a ddaliodd afael ar y gair unig hwn o addewid, ag y mae ef gymmaint wedi ei gadarnhau yn ewyllys da, gallu a ffyddlondeb yr hwn sydd yn addo, fel nad yw ddim yn ammeu mwy am iachiâd ei wâs na phe buasau eisioes wedi ei wneuthur, gan fod yn siccr ynddo ei hun fod clefydon a heintiau gymmaint tan awdurdod Crist, a llawer yn

rhagor, nag oedd ei filwyr a'i weision at ei orchymmyn ef ei hun; ac y gallai air o orchymmyn Crist ei iachau mor effeithiol o bell ag o agos: ar hynny adn. 10. y dywedir i'r Iesu synnu, gan ddywedyd, "ni chefais gymmaint ffydd, na ddo yn yr Israel."

( 3 ) Ffydd gref sydd yn gyffredin yn perchennogi bwriad cadarn sefydlog i bwyso ar yr Arglwydd, hyd oni chaffo hi y neges ag oedd hi yn ei ymofyn; ac na chaiff un digalondid ag ellir feddwl am dano wneud iddi ollwng ei gafael, Jacob oedd gredadyn cryf, a thrwy rym ei ffydd, fe gafodd allu gyda Duw, cafodd nerth ar yr Angel a gorchfygodd. Yr ydym yn darllain, Gen. xxxii. "Ar ol noswaith faith o ymdrech, yr Arglwydd a ddywedodd wrtho, gollwng fi ymaith, canys y wawr a gyfododd; Jacob a attebodd, ni'th ollyngaf, oni'm bendithi." Fe dybygai un fod hyn yn ddigwylydd-dra a drwg foesau yn Jacob, i ddwedyd hyn wrth Dduw: nage nid oedd yn ddigwylydd-dra, ond yn ymroad ei ffydd ef. Arglwydd, a allasai Jacob ddywedyd, os wyt yn gofyn fy nghennad i fyned ymaith, nis gallaf mewn un modd ei ganiattau gwawried y dydd ag aed heibo, doed y nos a dydd drachefn, Jacob gloff a'r Duw byw nis ymadawent, hyd oni chaffwyf y endith; a'r ffydd ymrous hon fel tywysog a orchfygodd O, bydded holl hâd Jacob i ddilyn ei esampl ef, a hwy a borthir ag etifeddiaeth Jacob eu Tâd. Yr un gyffelyb ffydd yr ydym yn ei weled yn y wraig o Ganaan, Math. xv. 22. Ffydd a dorrodd trwy bob digalondid, ie, y mae hi yn defnyddio yr hyn sydd yn ymddangos i'w digalonni fel rhesymmau i gadarnhau ei chais; am hynny Crist ymhen tro sydd yn atteb "O Wraig mawr yw dy ffydd." Ffydd gref fydd marw yn hytrach yn

y fan, nag y gollwng ei gafael: pe lladdai ef fi (medd Job) etto mi a ymddiriedaf ynddo ef.

( 4 ) Er y gall ffydd gref gael ei chythryblu pan y byddo'r Arglwydd yn cuddio ei wyneb, etto nis bwrir hi i lawr wrth bob cwmmwl, megis pe bae yr Arglwydd wedi anghofio bod yn drugarog; na wna, hi dry ei golwg yn union ar y cyfammod ac a ddarllain gariad yng ngeiriau Duw, pan nas gallo hi ei weled yn ei wyneb; gan ddywedyd, gyda'r eglwys hynny, Mich. vii. " Er fy mod yn eistedd mewn tywyllwch, yr Arglwydd fydd oleuni i mi, fe'm dwg allan i oleuni, a mi a gaf weled ei gyfiawnder." Pa ham? Fe dd'wedodd a'i air sydd siccr, fod ei fynediad ef wedi ei ddarparu, neu eu gadarnhau fel dyfodiad y boreu. Hos. vi. Am hynny nid wyf yn anghredu mwy am ddychweliad yr Arglwydd, nag wyf am ddychweliad yr Haul yn y boreu, pan y byddo fe yn myned o'r golwg yn yr hwyr; pa mor dywylled bynnag y byddo'r nos, etto'r wawr a dyrr, a'r cysgodau a ffy ymaith; tros nos y gall wylofain bara, ond erbyn y boreu y daw gorfoledd. Ac fel y mae ffydd gref yn cadw'r galon rhag soddi tan gymmylau o ymgudd wyneb Duw, temtasiwnau helbylon tymhorol; felly ceidw hi yspryd dyn i fynu mewn cyd-bwys tan holl gyfnewidiadau amser fel na ofna chwedl drwg, ei galon a attaliwyd, ac yn gobeithio yn yr Arglwydd, Er na flodeua'r ffigisbren &c. Etto fe a flodeua yn yr Arglwydd, a bydd hyfryd yn Nuw ei iechydwriaeth. Hab. iii. 17, 18. Ffydd wrol sydd a Lleuad y Byd hwn oddi tan ei thraed; mae hi yn trechu holl gyfnewidiadau amser, gan ddywedyd gyda'r Apostol, mi ddysgais ym mhob cyflwr y byddwn ynddo i fod yn foddlon &c. Pa fodd bynnag

y byddo matterion yn sefyll yn nhrefn rhagluniaeth, etto ffydd dduwiol a wêl nad oes dim cyfnewidiadau yng nghyfammod Duw, dim cyfnewid o'i gariad a phwrpas ei râs.

( 5 ) Pa fwya ffrwythlon y bo' un mewn arferiad o rasusau eraill mwya i gyd yw ei ffydd ef, chwi wyddoch, fod cyflawnder a maintioli o ffrwythau pren yn dilifo oddiwrth y llawnder o sûdd ac o gryfder yn ei wraidd; felly yma, ffydd sydd râs gwreiddiol, y gwraidd ar ba un y mae pob grasusau eraill yn tyfu; ac am hynny pa fwyaf y bo dyn yn ymgyfoethogi mewn cariad, gobaith, edifeirwch, addfwynder, gostyngeiddrwydd a phob grasusau eraill, mwya bywiog yw ei ffydd ef; canys fel y mae'r pren yn gyrru ei wreiddiau i'r ddaear, ac oddi yno yn tynnu ac yn danfon maeth bywiol trwy'r amrywiol ganghennau, trwy ba un y maent yn cael eu gwneuthur i flodeuo, a dwyn ffrwyth; felly ffydd sydd yn uno'r enaid a Christ trwy air y grâs, ac yn tynny allan sûdd a grym o'r wir Olywydden hynny, trwy ba un y mae'r enaid yn cael ei wneuthur i adfywio fel ŷd, i dyfu fel y winwydden, a'i arogl fel Libanus.

Cwest. 2. Pa bethau yn gyffredin sydd yn cydgerdded a ffydd wan?

Atteb i'r cwestiwn hwn a ellir yn esmwyth ei dynny allan oddiwrth yr hyn a adroddwyd mewn atteb i'r cyntaf; ffydd wan sydd ganddi wrthwyneb arwyddion i'r ffydd gref. Pa fodd bynnag heb-law yr hyn a ellir gasglu y ffordd hon, mi a adroddaf y ddau beth neullduol sydd yn canlyn.

( 1 ) Mynych ammeu, bwhwman, ac anwadalwch y galon, sydd yn wastad yn cyd gerddad a ffydd wan.

Chwi wyddoch fod llawer o fwg yn codi o'r tân, tra fo' yn wan, ac heb ennyn i fynu; felly, pa fwyaf o fwg anghrediniaeth, amheuaeth, ofnau, a drwg-dybiau, lleia i gyd sydd o ffydd. Am hynny ammeu a chredu sydd wrthwyneb i'w gilydd, "O tydi o ychydig ffydd pa ham y petrusaist?" Tramgwyddo wrth yr addewid trwy anghrediniaeth, sydd wrthwyneb i rym ffydd. Rhuf. iv. 20. Y gair sydd yn cael ei fenthycca oddi wrth un yn rhodio, traed pa un trwy wendid sydd yn taro y naill wrth y llall, yr hyn sydd yn gwneud iddo newid ei gerddediad, un cam yn fuan a'r llall yn araf; fel yma ffordd ffydd wan sydd anghyfarwydd; fe allai tan fwynhad teimladwy y bydd ef yn awr yn gorfoleddu ar ei uchel leoedd; ond yn y man y mwynhâd a giliodd, ac y mae ef yn newid ei gamrau, ac yn tramgwyddo trwy anghrediniaeth, gan ddywedyd, fe balloddi ei addewid ef tros byth, efe a anghofiodd drugarhau.

( 2 ) Pa fwyaf anioddefus a llawn o frys i'w'r enaid, pan y byddo Duw yn oedi, gwanna i gyd yw ei ffydd ef. Yr wyf yn casglu hyn oddiwrth Esa. xxviii. "Yr hwn sy'n credu ni fyfyria." Ffydd wan sydd gymmaint ei brys, fel nas gall oddef ddim amser i redeg rhwng y gofyniad a'r atteb, os ni ddaw yn union, y dyn sydd barod i dynnu canlyniad, yr Arglwydd nid yw yn gwrando, a Duw Jacob nid ystyria. Ond yn awr ffydd gref sydd yn gwneud yr enaid i aros amser ac odfa Duw; gan ddywedyd, anfonaf fy ngweddi attat ac edrychaf i fynu; edrychaf am yr Arglwydd, a disgwyliaf am Dduw fy iechydwriaeth, am Dduw yn gwmpeini i mi.

Cwest. 3. Pa fodd y gall gwirionedd ffydd gael ei

adnabod, er ei bod yn radd issa a lleiaf? Yr wyf yn atteb. I. Gwir ffydd hyd yn oed y radd wanaf a lleiaf a edrych ar bechod fel gelyn, er o bossibl nas meiddia gymmeryd hawl o Grist fel cyfaill. Gwir ffydd sydd yn puro'r galon, Act. xv. 9. Egwyddor fywiol yw yn yr enaid, yr hon sydd bob amser yn gwrth'nebu cynhyrfiadau llygredigaeth tu mewnol. Er yn wir, rai prydiau nis gellir ei amgyffred, o ran ffyniant pechod, mwy na'r man y mae'r dwfr yn tarddu yng ngwaelod y ffynnon, pan y bo'r clai wedi ei llwydo hi; etto, fel ffynnon o ddwfr bywiol, y mae hi bob amser yn gweithio allan y dom a'r clai, hyd oni byddo'r dwfr yn berphaith loyw.

Feallai bod yr enaid mor bell oddiwrth ddirnad dim gwirioneddol râs, un hawl weithredol yng Nghrist, fel nad yw yn gweled dim ond didduwiaeth, gelyniaeth, anghrediniaeth, anwybodaeth, balchder, a'r fath brysed uffernol yn ymlusgo ym mhob cwr; ond etto yr egwyddor fywiol o ffydd yng ngwraidd y galon, sydd yn gweithio ac yn ymdrechu yn erbyn y rhai'n, rai prydiau mewn gruddfannau, os truan o ddyn, pwy am gwared &c? Rai prydiau trwy achwyniadau, fy anwireddau a amlhasant i'm herbyn. Rai prydiau trwy edrych i'r Nêf am gynorthwy, nis gwn pa beth i'w wneuthur, ond fy llygaid sydd arnat ti. Rai prydiau trwy lefain i'r Nêf, gorthrymmwyd fi, esmwytha arnaf. Rai prydiau trwy anadlu dymmuniadau am fwy o sancteiddrwydd, crëa ynwyf galon lân; gwna fy nghalon yn ddisigl yn dy ddeddfau; O, na unionet fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau. Trwy'r pethau hyn, y gellir adnabod gwirionedd a chywirdeb ffydd, hyd yn oed y graddau lleiaf. 2. Gwir ffydd, bydded mor wan ag y bo', sydd

ganddi y parch mwya i Grist, a thuedd a thynfa neull-duol atto ef. 1. Pedr. ii. 8. "I chwi sydd yn credu y mae Crist yn urddas." Esa. xxvi. 8. "Dymuniad ein henaid sydd at dy enw, a choffadwriaeth o honot." Nis gall ffydd wan feiddio myned mor belled o bossibl, a dywedyd gyda'r eglwys, "fy anwylyd sydd eiddo fi, a minnau yn eiddo yntef: etto hi a ddywedyn fynuch o na bae yn eiddo fi! O na bae fel brawd i mi, yn sugno bronnau fy mam! A phe cai ond rhoddi ei hanadl allan hi a lefai, abba dâd; fy Arglwydd a'm Duw; ond y mae hi megis yn cael ei chadw i lawr, a'i mygu gan anghrediniaeth, pan y byddo hi am ddywedyd felly. Pa le y byddo gwir ffydd mae gwagter, eisiau, ac an-esmwythder enaid, fel Pysg o'i helfen neu asgwrn o'i le, hyd oni ddelo rhyw olwg ar Grist, ac yna yn wir y mae ef yn dychwelyd i'w orphwysfa. Yr wyf yn cofio ar ol creadigaeth Adda, i Dduw beri i'r holl gre-aduriaid i ddyfod o'i flaen ef; ond yn ei mysg hwynt i gyd ni chafwyd ymgeledd cymmwys iddo: yr oedd rhyw beth yn anghyttunol ac yn annigonol yn yr holl greaduriaid di reswm; fel er eu bod i gyd ganddo at ei orchymmyn, etto fyth dyn oedd mewn cyflwr unig, Gen. ii. 20. Ond mor gynted bynnag y cafodd y Wraig ei rhoddi iddo, fe ddywedodd adn. 23. hon sydd asgwrn o'm hasgwrn, a chnawd o'm cnawd; hon yn wir sydd ymgeledd gymmwys i mi. Felly yn union y mae gyda'r enaid ym mha un y mae egwyddor o wir ffydd; rhoddwch gyfoeth, elw, plesser, a phob bodd-lonrwydd bydol iddo, y mae ef yn cael rhyw beth ang-hyttunol a diflas yn y cwbl; ond gadewch i Grist gael ei ddatguddio iddo. yn fuan fe a lefai allan, o dymma ymgeledd gymmwys i mi. Esa. xi. 10. "Ag ef yr

ymgais y cenhedloedd, a'i orphwysfa sydd ogoniant." Sal lxxiii. 25. "Ni ewyllysiaf fi ar yr holl ddaear, neb gyda thi, a phwy sydd gennyf yn y Nefoedd ond tydi?" 3. Gwir ffydd hyd yn oed y radd leiaf, ni orphwys yno, ond sydd yn brefu yn ol graddau uwch o ffydd. Gosodwch y radd uchaf o ffydd o flaen credadyd gwan, dywedwch wrtho am ffydd Abraham, fel y credodd ef heb ammeu; y dyn yn wir a ymostwng tan deimlad o'i fyrdra, ac a alara am ei anghrediniaeth; etto, ar yr un pryd, fe geiff brofiadau a dymuniadau taer yn yr enaid am y fath grediniaeth; felly yn gyffelyb i Paul, efe a anghofiodd y pethau o'r tu cefn ac y mae yn ymestyn at y pethau o'r tu blaen, &c. Pan y clywo credadyn am lawn siccrwydd ffydd, ei iaith yw, Arglwydd cymmorth fy anghrediniaeth, Arglwydd chwanega fy ffydd. Mi allwn ddywedyd i chwi lawer o arwyddion eraill o wirionedd a diragrithrwydd ffydd, er ei bod yn wan, megis, ei bod yn gweithio trwy gariad, ei bod yn gwaghau'r enaid, ac yn ei ddarostwng; er nad yw y dyn yn gweled ei hun yn fawr yng ngolwg Duw, etto y mae ef yn ei gweled ei hun yn ddim yn ei olwg ei hun; fel y mae ef yn cyfrif Crist yn uchel, ei hun yn llai na'r lleiaf o holl drugareddau Duw.

(5) A ewyllys Duw yw i ni agoshau atto yng Nghrist, mewn llawn hyder ffydd? Yn awr gadewch i ni astudio gwendid ewyllys Duw yn y pethau hyn. Gan'ein bod yn gweled drws y cyssegr yn agored, ffordd wedi ei chyssegru i ni, ar Archoffeiriad mawr wedi myned tu mewn i'r llen, nessawn a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd. Yr wyf yn eich cynghori nid yn unig i gredu, ond byddwch gadarn yn y ffydd.

Astudiwch i gael ffydd gyfatebol mewn rhyw fesur i sylfaenau ffydd a enwyd eisioes.

Oddi yma y gofynnir cwestiwn yn fuan, a'i dyled holl wrandawyr yr efengyl ar y cyntaf yw credu yn y ffordd hon, neu i agoshau mewn llawn hyder ffydd?

( 1 ) Yr wyf yn addef, fod nessad cyntaf pechadur at Dduw yng Nghrist trwy ffydd, trwy nerth a grym anghrediniaeth, holl deimlad o anheilyngdod, ac argraphiadau parchus o ogoneddus fawrhydi Duw, gan mwyaf, yn llesg, ac yn wan, a llawer o ofn a dychryn yn cyd gerdded a hi; y pethau hyn sydd yn ei wneuthur ef yn barod gyda'r Publican, i sefyll o hir bell, gan guro ei ddwyfron a llefain, Duw bydd drugarog wrthyf fi bechadur! Ond etto.

( 2 ) Yr wyf yn cadarnhau fod sylfaen ddigonol wedi ei gosod yn natguddiad yr efengyl i bechadur, hyd yn oed yn ei nessâd cyntaf at Dduw yng Nghrist, i ddyfod mewn llawn hyder ffydd; hyn a ymddengys yn eglur, pan yr ystyriom fod trwy'r efengyl ogoneddus ddrws helaeth o dderbyniad wedi ei agor i bawb yn ddiwahân; pob sylfaen o angrediniaeth, a gwan gred sydd yn cael ei symmud ymaith, pob attalfa a rhwystr, ag allai eu gwneud hwynt yn gloff au llesghau sydd wedi cael eu treiglo ymaith, Hyn sydd yn cael ei rodi mewn awdyrdod i weinidogion, "i baratoi ffordd y bobl; i balmantu prif ffordd; ei digaregu hi, a chyfodi maner i'r bobloedd:" Esa. lxii. 10. Pan y byddom yn galw pechaduriad i gredu, nid ydym yn ei galw i ddyfod a ffydd wan, neu a ffydd amheus a dadleugar; ond yr ydym yn galw i dyfod gyda sicrwydd o dderbyniad a chroesaw, wedi ei sylfaenu ar ddi ysgog air yr addewid, "doed pawb a ewyllysio, nis bwriaf ef allan ddim."

(3) Yr wyf yn cael yr Arglwydd yn cyfarwyddo pechaduriad, i nessau atto yng Nghrist, mewn llawn hyder ffydd, hyd yn nod yn ei nessâd cyntaf. Jer. iii 19. "Ond mi ddywedais pa fod i i'th osodaf ym mhlith y Plant, ac y rhoddaf i ti dir dymmunol," sef etifeddiaeth ardderchog lluoedd y cenhedloedd? Dyma gwestiwn dyrus iawn, nas gall neb ei atteb ond Duw ei hun. Wele, ond beth yw'r atteb, y mae Duw yn roddi yng ngenau pechadur? Tydi fy ngelwi, fy Nhâd, ac ni thor ymaith oddiwrthyf. Yr anadliad cyntaf o yspryd mabwysiad yw, abba dâd, Rhuf. viii. 15. Gair o ffydd Crist sydd yn dodi geiriau o siccrwydd yn ei geneuau, gan ein dysgu, pan weddiom i dd'wedyd, Ein Tâd yr hwn wyt yn y Nefoedd.

A phob un sydd ar ei ben ei hun, fy Nhâd yr hwn wyt yn y Nefoedd &c. Cyfattebol i hyn yw'r cyfarwyddid sydd yn cael ei roddi yn 1. Iago. vi. 5. "Od oes ar neb eisiau doethineb (boed ef sant neu bechadur) gofynned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi i bob dyn heb ddannod, ac fel rhoddir iddo." Wele dymeu annogaeth ardderchog i bawb; ond y sawl sydd am ffynnio yn dda, perir iddynt ddyfod mewn llawn hyder ffydd adn. 6. "Gofynned mewn ffydd heb ammeu dim.

(4) Yr wyf yn cael pechaduriad, yn ei dyfodiad cyntaf, rai prydiau yn arferyd y moddion hyn, ac yn dyfod a geiriau siccrwydd, Jer. iii. 22. Medd yr Arglwydd, "dychwelwch feibion cyndyn, a mi a iachiaf eich gwrthgiliadau chwi." A pha beth yw adsain gyntaf ffydd i'r galwad hwn? Wele, yr ydym yn dyfod attat, canys tydi yw yr Arglwydd ein Duw. felly Zach. xiii. 9. "Mi ddywedaf, fy mhobl yw efe;"

dyna air y grâs a sylfaen ffydd: a iaith ffydd gyfatebol i hynny sydd yn inion fel y canlyn, "a hwythau a ddywedant, yr Arglwydd yw fy Nuw: Esa xlv. 24. Diau medd un, yn yr Arglwydd y mae i mi gyfiawnder a nerth. Heb-law hyn oll, ni does neb, yr wyf yn meddwl, all ammeu, nad dyled y pechadur ydyw, ar y cyntaf, mewn ufudd-dod i'r gorchymmyn cyntaf, i adnabod ac i addef yr Arglwydd fel Duw, ac fel ein Duw ni; a pha fodd y gwneir hyn, ond trwy gredu, nis gallaf ddywedyd. Wele gan hynny, gan fod y fath ddrws i ffydd wedi ei agor yn yr efengyl i bechaduriad, bydded i bechaduriad fyned i mewn yn hyderus; a bod yn gadwedig. Ioan. x. 9. "Myfi yw'r drws (medd Crist) os â neb i mewn trwyofi, efe fydd cadwedig," ac fe a â i mewn ac allan, ac fe geiff borfa. Cwrth'adl 1. Gall pechadur ddywedyd, pa fodd y gallaf fi anturio agoshau mewn hyder derbyniad? Mae'r fath faich o bechod ac euogrwydd yn gorwedd arnaf fi; ac y mae ganddo'r fath awdyrdod arnaf, fel y mae fy hyder yn cael ei anurddo yn hollol; o fy rhan i, mi allaf yn hawdd ddywedyd gyda Dafydd; Sal. lx. 12. "Drygau aneirif am cylchynasant o amgylch, fy anwireddau a'm daliasant nis gallaf edrych i fynu; amlach ydynt na gwallt fy mhen, am hynny pallodd fy nghalon ynwyf." I hyn yr wyf yn atteb.

(1) Mewn ffordd o ganiatâd, fod yn wir yn ammhossibl i ddyn i fyw yn y cariad a'r arferiad o un pechod, i agoshau at Dduw mewn llawn hyder ffydd: canys yn yr unig weithrediad o agoshau y mae'r galon yn cael ei phuro trwy ffydd yng ngwaed Iesu; neu fel y mae yn cael ei osod allan yn y rhan olaf o'r testyn. "Mae ei galon ef wedi ei thanellu oddiwrth gydwybod

ddrwg a'i gorph wedi ei olchi a dwfr glân." Wrth gredu yr ydym yn gadael heibio wneuthur drwg, ac yn dysgu gwneuthur da. Ffydd wrth ymaflyd yn nhrugaredd Duw yng Nghrist, sydd yn troi yr enaid oddiwrth bechod at Dduw; felly fel ag y mae mor ammhossibl i ddyn agoshau at Dduw mewn llawn hyder ffydd, tra fyddo byw yn y cariad ar arferiad o bechod, ag yw i ddyn ddyfod attoch chwi, a myned oddiwrthych ar yr un amser. Tra fyddo'r galon mewn undeb a phechod, y mae hi yn ymadael oddiwrth yr Arglwydd: Pa fodd gan hynny yn yr achos hyn y gall pechadur i agoshau at Dduw? Llawer llai y gall ef agoshau gyda siccrwydd o dderbyniad. Y mae gwahaniaeth rhwng anwiredd yn gorchfygu yn y galon, ac anwiredd yn cael ei barchu yn y galon. Yn y cyflwr diweddaf nis gall agoshau gyda derbyniad, Sal. lxvi. 18. "Pe edrychaswn ar anwiredd fy nghalon, ni wrandawsai yr Arglwydd arnaf fi," megis pe dywedasai, os caraf ef, neu roi derbyniad croesawys iddo yn fy nghalon nis derbyniau'r Arglwydd fi, na'm gweddi, o ran, yr achos hynny, ni's gallai agoshau a chalon gywir, yr hon yw cyfeillas an wahanol siccrwydd ffydd. Ond yn yr achos cyntaf, hynny yw, anwiredd yn gorchfygu, nid yw yn unigyn bossibl, ond yn weithredol, y mae yn cael ei arfer, i ddyn agoshau mewn llawn hyder ffydd; megis gwelwn yn Nafydd Sal. lxv. 3. "Pethau anwir (medd ef) am gorchfygasant." Ond beth sydd yn canlyn? "Ond ein hanwireddau ni ti a'u glanhau." Yn awr, hyn yw'r peth ag ydys yn amcanu atto yn y gwrth'adl, ni ddylai fod yn rhwystr, na rhagfarn i'ch nessâd i'r cyssegr trwy waed Iesu, mewn llawn hyder ffydd, gan ei fod

ef yn ffyddlon yr hwn sydd yn addo derbyniad yn yr anwylyd.

( 2 ) Ym mha le yr wyt, o bechadur, yn achwyn ar faich o bechod ac euogrwydd yn gorwedd arnat, yr hyn sydd yn gwanhau dy hyder; yr wyf yn gofyn yn unig, i bwy meddi di yr agorwyd y ffordd i'r cysegr trwy waed Iesu? A'i i'r rhai cyfiawn, neu i bechaduriad euog? Dyn diniwaid neu sanctaidd, nid rhaid wrth y fath ffordd o nessâd: mae hi yn unig wedi ei gwneuthur a'i threfnu i bechaduriad a throseddwyr euog, y fath ag wyt ti; ac er fod dy bechodau fel yr yscarlet wedi cochi fel y porphor, etto hwy fyddant fel eira a gwlân, y funud honno yr eloch i mewn trwy waed Iesu; am hynny nessawn a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd. I ba le yr â pechadur euog, ond at yr Arglwydd sydd yn maddau anwiredd, camwedd, a phechod? I ba le yr â pechadur halogedig ond i'r ffynnon sydd wedi ei hagoryd i bechod ac aflendid?

( 3 ) Hyfdra a sicrwydd ffydd ydynt nid yn unig yn gyttynol, ond bob amser yn cyd gerdded a theimlad o hollol anheilyngdod, y fath sydd yn gwneud iddo ffieiddio ei hun o herwydd euogrwydd halogrwydd ac awdyrdod pechod: a rheswm o hyn sydd eglur, o ran, wrth gredu y dyn wrth weled ei bechod a'i euogrwydd, sydd yn myned allan o hono ei hun i ymofyn sefyllfa a hyder mewn arall, sef yng Nghrist a thrugaredd Duw ynddo ef. Felly Dafydd Sal. cxxx. 3. "Os creffi ar anwiredd o Arglwydd pwy a saif? Ond y mae maddeuant gyda thi fel i'th ofner &c." Am hynny bydded i deimlad o bechod yn ei euogrwydd a'i awdyrdod; dy ddwyn allan o honot dy hun, i

nessau trwy waed Iesu mewn llawn hyder ffydd. Yr ydoedd hi yn ffordd anneheu o ymresymmu ym Mhedr pan ddywedodd, "Arglwydd does ymaith canys dyn pechadurus ydwyf fi." Fe ddylasai ddywedyd yn hytrach, Arglwydd agoshá attaf fi, canys dyn pechadurus ydwyf: canys pa le y gall pechadur fod yn well na chyda Iachawdwr pechaduriad.

Gwrth'adl. 2. Yr ydych yn ein galw i agoshau mewn llawn hyder ffydd; ond O! Pa fodd y gallaf wneuthur hynny gan fy mod yn dywyll o'm hawl yng Nghrist? Pe gwybyddwn fod gennyf heddwch tu ag at Dduw, fy mhechod wedi ei faddeu, fy mherson yn gymmeradwy; a'm bod mewn cyflwr o râs a ffafr; yn y cyflwr hwnw mi allwn agoshau mewn hyder yn wir: ond y mae'r peth yn gyfan wrthwyneb, cymmylau a thywyllwch sydd o'm hamgylch, yr wyf yn ammeu pa un a wnaeth Duw trwy ei râs a delio a'm calon yn effeithiol erioed a'i peidio: pa fodd gan hynny y gallaf agoshau mewn llawn hyder ffydd?

Atteb. 1. Os na nessewch fyth at Dduw mewn hyder ffydd, hyd oni ddeloch mewn siccrwydd teimladwy o'ch hawl yng Nghrist ac o'ch bod mewn cyflwr o râs, ni nessewch atto tra fyddoch byw; a rheswm o hyn yw, o ran siccrwydd teimladwy o hawl yng Nghrist ydyw ffrwyth ac effaith o nessâd yn y r enaid trwy ffydd, ac nis gall yr effaith fyth fyned o flaen yr achos. Y ffordd o gyrraedd y siccrwydd o râs yw agoshau mewn llawn siccrwydd ffydd, wedi ei sylfaenu, nid ar un gwaith grasol oddi mewn i chwi, ond ar addewid Duw yn ei air, a chyfryngdod yr Archoffeiriad mawr ar dŷ Dduw. Heb. iv. 14, 16. "Gan fod i ni Archoffeiriad mawr yr hwn aeth i'r Nefoedd, Iesu

Mâb Duw, awn yn hyderys at orsedd Grâs &c."
Ffydd (fel y dywedais eisioes) sydd yn wastad yn ymofyn sylfaen ei hyder, nid yn y grâs a dderbyniodd, nag mewn dim yn y dyn, ond yn unig yng Nghrist, ac yn yr addewid rasol o dderbyniad trwyddo ef: ac am hynny, y ffordd orau yn y byd i ennill tros yr holl ammheuon hyn, ofnau ac aflonyddwch ynghyd eich cyflwr o râs, yw, myned trwy weithred uniongyrch o ffydd at Dduw ar hyd y ffordd newydd a bywiol, gan fod yn siccr ac yn hollol goelio yn eich heneidiau eich hunain, fod Duw grâs a chariad, yn ffieiddio gollwng ymmaith, Esa. l. 10. "Yr hwn sydd yn rhodio mewn tywyllwch heb lewyrch iddo, (pa ffordd a gym mer?) Gobeithied yn enw'r Arglwydd ac ymddirieded yn ei Dduw."

Ym mha le wrth enw'r Arglwydd y mae i ni ddeall, grâs a thrugaredd, gallu a ffyddlondeb Duw wedi ei wystlo yn addewidion y cyfammod. Yma yr ydym i daflu angor; ar y pethau hyn yr ydym i adeiladu hyhyder a siccrwydd ffydd, pan na byddo gennym ddim i edrych arno nag i ymddiried ynddo. Ffydd yn ei gweithred gyntaf, cystal ac yn ei gweithrediadau canlynol; sydd yn glynnu wrth yr enw yma o eiddo'r Arglwydd: pan y byddo hi ar y cyntaf yn tynnu yr enaid allan o dywyllwch a'i gyflwr anaturiol, a phan eilwaith trwy ei gweithrediadau newydd, y bo' hi yn dwyn yr enaid o tan gymmylau tywyll a duon o anobaith, temptasiwnau a Duw yn cuddio ei wyneb, y mae hi yn ymddiried fyth yn enw Duw, fel y mae ef wedi ei osod allan yng Nghrist, a'i osod allan yn y cyfammod yn neullduol ei addewidion diammodol ef. Ac am hynny, er yn wir, yn y ddyledswydd o hunain ym-

holiad, yr ydym yn edrych i mewn am nodau ac arwyddion o râs, mewn trefn i gyrraedd at siccrwydd o deimlad: etto yn y ddyledswydd o gredu, ac mewn trefn i'n gyrraedd siccrwydd ffydd, yr y'm yn hollol i edrych allan i'r addewid, ac enw Duw yn cael ei gynnig yno. Fel hyn y gwnaeth Abraham Tâd y ffyddloniad, Rhuf. iv. 20, 21. Ac felly ninnau os mynnwn fod yn wir hâd Abraham.

Gwrthddadl. 3. Yr ydych yn galw pechaduriad i gredu, a chredu a ffydd siccr, ond i ba ddiben mae hyn oll? All un ddywedyd; rhodd Duw yw ffydd, gwaith ei Yspryd, nid oes gennyf allu i gredu, hyd oni's gweithio Duw ynof; am hynny yr holl ymdrech hyn o'n perswadio i gredu, ellid ei arbed. Yr wyf yn atteb; eich analluogrwydd i gredu, trwy ddim gallu neu rym o'ch eiddo eich hunain, sydd mor belled o fod yn rheswm yn erbyn, fel y mae yn un o'r rhesymau cyntaf pa ham y dylech gredu: o ran, pan y bo'm yn eich galw chwi i gredu, nid ydym yn eich galw i weithio, neu wneuthur dim trwy eich nerth eich hunain; ond o ran nad oes gennych allu eich hunain; i ymddiried yng ngwaith a gallu un arall, yr hwn fel y gweithio eich holl waith drosoch, felly y mae ef yn ymrwymo ei hun trwy ei addewid, i weithio eich holl weithred ynoch: yn enwedig gan ei fod ef yn awdwr a pherffeithydd ein ffydd, y mae ef yn barod ac yn ewyllysgar i gyflawni ynoch holl blesser ei ddaioni, a gwaith ffydd gyda gallu.

Pob creadur sydd yn atteb ei enw, ac a fydd Duw yn fyrr o atteb ei eiddo ef? Na fydd yn wir, yr enw y mae ef yn ei gymmeryd iddo ei hun sydd yn mynegu ei nattur; ac am hynny, o ran iddo gymmeryd

yr enw hwn iddo ei hun, o fod yn awdwr ffydd a'i pherffeithydd, ni a allwn gyda'r siccrwydd mwya o ffydd ymddiried yn yr enw hwn o eiddo'r Arglwydd, y bydd iddo ddechreu'r gwaith da, a'i ddwyn hefyd yn y blaen hyd ddydd ein Harglwydd Iesu Grist. A'r rhoddiad hyn o weithio ffydd ynddo ef, oddiwrth deimlad o'n hanallu ein hunain, yw y llwydda hynny ag yr ydym yn eich galw chwi iddo. Grâs yw ffydd ag sydd yn tarddu allan o ddinistr hunain-ddigonoldeb a hunain-arddercbawgrwydd; gan ei bod yn methu cael cyfiawnder na gallu oddi mewn, y mae hi yn edrych allan, ac yn gweiddi, 'diau yn yr Arglwydd y mae i mi gyfiawnder a nerth.' Anghrediniaeth a rheswm cnawdol sydd barod i wrthddadlu, am fod yn rhaid i Dduw trwy ei yspryd wneud y cwbl, gan hynny ni a eisteddwn i lawr ag ni wnawn ddim: ond Yspryd Duw; rhesymmau pa un ( yr wyf yn siccr) sydd yn anfeidrol well, sydd yn dadleu mewn ffordd gyfan wrth wyneb, Phil. ii. 13. "Gweithiwch allan eich iechydwriaeth mewn ofn a dychryn; canys Duw sydd yn gweithio ynom yr ewyllysio a'r gallu o'i ewyllys da ei hun." O pa fath annogaeth ogoneddus sydd yma i bechadur tlawd ac annalluog i gyfeirio atto, a gwendid prawf o gredu! Dyma fraich hollalluogrwydd, yn estyn ei hun allan at gymmorth a'i nerthu yn y gwaith y mae ef yn ei alw iddo. I fynu gan hynny, a bydd weithgar, 'canys dy Dduw sy'n gorchymmyn dy gryfder, ac am hynny bydded ef yn ogoniant dy gryfder.' Ond meddwch chwi gan nas gall weithio gwaith ffydd, pa ham y mae ef etto yn ei orchymmyn? Ond ydyw'n galed i ofyn gennym yr hyn na does gennym allu i'w wneuthur? Atteb. Pa ham yr ydych yn

danfon eich plant i'r Ysgol ag A. B. C. yn eu dwylo cyn gallel darllain un llythyren? Nid ydych yn gweled yn galed i roddi llyfr yn eu llaw, a pheri iddynt ddarllain, er nas gwyddont lythyren, o ran eich bod yn cynnig eu dysgu hwynt eich hunain, neu trwy un arall yn eich lle. Felly yma yr ydis yn eich gorchymmyn i weithio gweithredoedd Duw yr hyn yw credu yn yr hwn a anfonodd efe; yr hyn etto nid yw anodd, er ein bod yn analluog i'w wneud o honom ein hunain, o ran yn yr un pryd y bo' fe yn gorchymmyn i ni gredu y mae ef yn dywedyd er ein hannogaeth, mae ef ei hun yw awdwr y ffydd, ag sydd barod i weithio ynom yr ewyllys a'r gallu. Pe byddai Meistr i orchymmyn y gwas i bwyso a'i law neu godi baich ag na's gallai ei syflyd, neu weithio tra na does ganddo fedr i fyned trwyddo; yn wir fe fyddai abl i ddigalonni'r gwas o gynnyg, os bydd yn gofyn iddo i wneud o'i allu neu o'u fedr ei hun: ond pan bo'r Meistr yn dywedyd wrtho mi'th gynnorthwya, mi'th gyfarwydda, mi wna'r cwbl yn unig dod dy law wrtho; pwy was a ballai, neu ochela y gwasanaeth hyn? neu pe pallai, onid ydych yn tybied yr haeddai ei guro a llawer o ffynnodiau? Y cymhwysiad sydd eglur: ffordd Duw yn gyffredin yw dyfod a chyssylltu'r enaid tlawd, a'i gynnorthwyo i gredu pan, mewn ufudddod i'w orchymmyn y mae ef yn amcanu credu yng Nghrist. Fel Ysgol-feistr addfwyn, pan y byddo'r plentyn mewn ufudd-dod iddo, yn cymmeryd y pen ysgrifennu yn ei law, gan sgriblan y ffordd fel ag y medr, y meistr a gymmer ei law ef yn ei law ei hun, ac a'i harwain ac ai dysg i ysgrifennu: felly, pan y byddom ni yn cymmeryd megis, y pen yn ein llaw, ac yn

cynnyg ysgifennu, ar ei orchymmyn ef, y mae ef yn cymmeryd ein llaw yn ei law ei hun, gan ein cyfarwyddo, ein cryfhau, a'n nerthu i gredu. Felly, fel nid oes ond meddwl ewyllysgar at y gwaith hwn, mae yn gymmeradwy: lle mae ef yn rhoi ewyllys, mae ef yn rhoddi hefyd allu i wneuthur, o'i ewyllys da; y ddau beth hyn sydd wedi ei cysylltu yn anwahanol yn nhrefn cyfammod Duw.

Ond chwi ellwch fyth wrth'adlu, holl ymegniadau dyn anianol ydynt fyth yn weithrediadau, dyn anianol a phechadurus, ac a fydd i Dduw fyth gydsynio trwy ei anfeidrol allu a gweithrediadau ac ymegniadau nattur? Atteb. Er nad yw Duw yn rhwym i gydsynio ag ymegniadau nattur, etto y fath yw ei râs a'i gariad a'i ewyllys da tu ag at ddyn ar y ddaear, y fath yw grym ei dderbyniad ar ol ein iechydwriaeth, y fath yw ei blesser yn y pechadur a gredo, y fath barch sydd ganddo at y peth y mae ef ei hun yn ei orchymmyn, fel ag yr ydym yn ei gael ef amrywiol o weithiau yn cydsynnio yn weithredol a'r pechadur tlawd di gwmmorth, yn ei amcanion llesg at ufudd-dod i'r peth y mae ef yn ei alw am dano. Nid egwyddor rasol, oedd yn cyffroi Naman y Siriad i ymolchi yn nyfroedd yr Iorddonen, etto am iddo wneud yr hyn a orch'mynwyd iddo, fe welodd Duw yn dda i gydsynio a moddion o'i osodiad ei hun, ac a iachiaodd ei gorph gwahan-glwyfus, ac ar wn i, ei enaid hefyd. Gadewch i ni gredu fel y gallom, mewn ufudd-dod i orchymmyn Duw, a chyda hyder ar ei anfeidrol allu; a thra byddom yn gwneuthur felly, er na fydd y weithred yn y dechreu ond anianol, etto wrth ein gwaith yn cynnig, grâs wedi ei addo a'i brynnu a'i daro i mewn, a'i droi i

weithred oruwch naturiol o gredu: megis pan oedd Crist am weithio y rhyfeddod hono yng Nghanân Galilea, nid yw yn gyntaf yn troi'r dwfr yn win, ond yn peri iddynt yn gyntaf dywallt allan y dwfr, ac wrth ei dywallt allan y dwfr a drodd yn win; felly y tortorthau a amlhawyd, tra yr oedd y disgyblion wrth orchymmyn Crist yn ei rhannu rhwng y dyrfa; felly yn gymmwys yma, tra fo'r enaid tlawd, mewn darostyngiad i'r gallu dwyfol, yn amcanu credu, Duw y gras a gyfnewid ei amcan i wir ac union ffydd; felly fel hyn y daw'r enaid, trwy alluog nerth Duw, cyn y bo' yn meddwl, i'w ddwyn i gredu yn wirioneddol, a hynny mewn ffordd na's gwyr pa fodd; "canys y mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno, a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nag i ba le y mae yn myned, felly y mae pob un a aned o'r Yspryd." Fel hyn, meddaf, wrth weithredu ffydd, yr ydym yn cael ein nerthu i'w gweithredu; tra fo'm yn cymmeryd y pen ysgrifennu yn ein dwylo, Duw sydd yn ein cymmeryd gerfydd ein llaw, ac yn ysgrifennu trosom, gan ein harwain yn y ffordd nis gwyddom. Y mae ef gyda ni lawer pryd wrth gredu fel wrth weddio; y dyn a'i galon a'i weddi mor oer a'r iâ, ac mor galed a maen issaf y felin; nis gall agor ei enau o flaen yr Arglwydd, ei dafod sydd yn glynnu, ei galon sydd wedi ei chloi i fynu: ac etto tra fo'r enaid tlawd yn amcanu tywallt ei galon i fynwes Duw, Yspryd yr Arglwydd a ddisgyn arno, sef yspryd grâs a gweddi, trwy ba un y mae ei rwymau yn cael ei dattod; a'i enaid yn cael ei wneuthur fel cerbydau Amminadab. Felly tra fo'r enaid tlawd yn amcanu at gredu, yspryd ffydd sydd yn dyfod ac yn cyd redeg ag ef, gan dynnu

allan yr anfeidrol fawr a'r galluog nerth hwnnw a gyfododd Iesu oddiwrth y meirw, trwy ba un y mae yn dyfod i gael ei lanw o lawenydd a hedd trwy gredu. Fe allai y dywedwch, yr ydych yn ein hannog ni yn fawr i wneud prawf o gredu; ond attolwg rhowch eich cyngor goreu pa fodd y terfynwn yn yr achos hwn: o na bae yspryd Duw yn cyd redeg? Y mae'r ddau neu dri pheth hyn gennyf i'w cynnig mewn ffordd o gyngor, i chwi y rhai sydd yn bryssur; ac i bob dyn sydd ag enaid ganddo i gadw, ag sydd yn edrych ymlaen i dragywyddoldeb maith o happusrwydd, neu wae, ag na fydd yn bryssur yn yr achos hyn! Fy nghyngor cyntaf gan hynny yw hyn, astudiwch i gael eich calonnau wedi ei llanw a'r fath ystyriaethau, ac a fo' fel cynnydd cymmwys trwy ba un y mae ffydd yn cael ei chenhedlu, yng nghalonnau pechaduriad. Er fod y weithred o ffydd gadwedigol yn effaith a gallu a'r grâs dwyfol, etto y mae yng ngallu nattur, trwy ymgrych cyffredin, i drysori yn, a llanw'r meddwl a'r pethau ag sydd yn hadau ffydd. Yr hwsmon nas gall ddodi y gronyn ŷd i dyfu, etto fe a all aredig a hau ei dir; a phan y gwnelo ei ran, y mae yn gadael yr hâd tan y pridd, ac a edrych i fynu i'r nefoedd a'm y cynnar a'r diweddar wlaw; ac ar ol hynny yn gyffredin Duw sydd yn coroni ei ymegniadau a llwyddiant, gan 'wneud i'r Nefoedd wrando ar y ddaear, a'r ddaear wrando ar yr ŷd.' trwy ba un y mae hi yn dwyn peth ar y ddegfed, peth ar ei ugainfed, neu beth ar y genfed.

Felly yma, gwnawn ni yr hyn sydd ddyled arnom, a'r hyn sydd gennym allu mewn ffordd gyffredin i'w wneuthur: llauwn yr hâd, yr wyf yn meddwl, llanwn

ein meddyliau o bur a gwerthfawr wirioneddau Duw, ac ymgynefinwn ein hunain a'r pethau sydd i'w credu, megis y maent yn cael eu gosod o'n blaen yn ysgrythyrau'r gwirionedd; ac wedi rhoi i mewn fel hyn yr hâd yn y ddaear, neu ym meusudd ein calonnau, edrychwn i fynu, a disgwyliwn am gawod o ddylanwadau'r Yspryd yn ol y gair hwnnw o râs neu addewid. Esa. xliv. 3. "Mi dywalltaf ddwfr ar y sychedig, a ffrydiau ar y sych-dir." Chwi a wyddoch am y rhai a aberthant gynt, er nas gallent wneud i dân ddyfod i lawr o'r nefoedd, i ddifa'r aberthau, etto hwy a allent ddyfod a'r Bustach o'r preseb, a'r Oen allan o'r gorlan; hwy a allent ei ddwyn i'r allor, a'i rwymo a rheffynau wrth gyrn yr allor, hwy a allent gasglu eu coed, a gosod i mewn gynwydd addas; ac ar ol gwneud eu rhan, hwy a edrychant i fynu tu a'r nêf, am dân nefol i osod y cyfan yn danllwyth gyda ei gilydd: yn yr un dull meddaf, gwnewch yr hyn sydd ddyled arnoch, cesglwch eich coed, gosodwch i mewn addas gynnwydd ffydd, llenwch eich meddyliau a defnyddiau i gredu, y rhai ydych beunydd yn eu darllain ac yn eu gweled yn y gair: astudiwch i argraphu ar eich eneidiau yr athrawiaethau o'ch cyflwr colledig yn yr Adda cyntaf, a'r ffordd o'ch iechydwriaeth trwy râs yn a thrwy yr ail Adda, sef Iesu Grist: meddyliwch am y nessâd agos a wnaeth yr uchel a'r dyrchafedig attom y'mherson ei dragywyddol Fâb, trwy ei ymddanghosiad yn ein nattur ni, pan yr aeth heibio i nattur angylion: o meddyliwch ar ardderchawgrwydd ei nattur, fel y mae yn Immanuel. Duw ddyn. Duw gyda ni. Duw o'n tu, i sigo pen yr hen ddraig, ag oedd wedi ein 'speilio a'n dinystro: meddyliwch ar ei feichniaeth ef, y modd y

daeth i fod yn ein lle ni, y modd y gwnawd ef yn bechod trosom ni, fel y gwnelyd ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef: y modd y gwnawd ef yn felldith drosom, fel y bo' ni i gael ein gwared oddi tan y felldith; y traddodwyd ef tros ein camweddau ni, ac y cyfododd eilwaith er ein cyfiawnhâd: meddyliwch ar y cyfiawnder o râs a gwirionedd, haeddiant ac yspryd sydd ynddo ef, ar modd y mae'r holl gyflawnder o'r grâs hynny ag sydd wedi ei osod i fynu ynddo ef, yn cael ei osod allan i ni mewn cyfammod o râs ac addewid, a'r addewid neu'r cyfammod hwnnw wedi ei adael i ni, a'i roddi yn ein dwylo ni, a chan ofyn gennym i gymmeryd gafael arno, i wned defnydd o hono mewn ffordd o gredu. Y rhain yw, rhai o ddefnyddiau ffydd; ffydd sydd yn dyfod trwy glywed y pethau hyn, ac wrth feddwl a myfyrio arnynt: trwy'r pethau hyn y mae dynion yn byw, ac yn yr holl bethau hyn y mae bywyd ein hysprydoedd. Esa. xxxviii. 6. Am hynny treiglwch hwynt yn eich meddyliau, trowch hwynt fel tammaid melus tan eich tafodau, myfyriwch, a myfyriwch drachefn arnynt; a thrwy fyfyrio gosodwch hwynt o flaen eich deall, fel pethau sydd yn perthyn ich cyflwr tragywyddol. Mae gennych gystal sylfaen i ddisgwyl cydsyniad a nerth yspryd ffydd, yn y ffordd a'r drefn hon, i gyflawni ynoch y weithred o ffydd gyda gallu, ag oedd gyda hwythau gynt i edrych am y Tân nefol i ddyfod i lawr a difa ei haberthau, fel tystiolaeth o ddwyfol dderbyniad, pan oeddant ar ol gorchymmyn Duw, wedi gwneuthur yr hyn oedd ddyled arnynt i baratoi'r defnyddiau.

Cyngor arall yr wyf yn ei roddi i chwi, yw hyn, astudiwch nid yn unig i gasglu'r defnyddiau o ffydd,

ond byddwch wedi eich sefydlu yn gyflawn o wirionedd a siccrwydd pob peth y mae Duw yn ei ddatguddio yn ei air, yn enwedig o'r pethau hynny sydd fwya digyfrwng yn perthyn i'n iechydwriaeth trwy Grist.

Anghenrhaid yw i ni gredu gair yr efengyl, a rhoi ein sel wrth dystiolaeth Duw yn ei air: yn neullduol byddwch gyflawn siccr eich bod wedi treulio'r cwbl, ac yn anabl i dalu dim, wedi eich dinystro ac wedi eich colli eich hunain o bob dibenion ac amcanion, trwy dorriad o'r cyfammod cyntaf, gan eich bod tan lid Duw, melldith y gyfraith, ac awdyrdod satan; ac na does gennych fwy o allu i gynnorthwyo eich hunain allan o'r cyflwr truenus hwn, nag sydd gan faban newydd eni wedi ei daflu allan i ganol y maes Ezek. xvi. Ac wrth gloddio i'r graig hon o ba un i'ch naddwyd, na ofnwch fyned i'r gwaelod, yr wyf yn meddwl, i adnabod y gwaetha o honoch eich hunain; canys gwir ffydd sydd yn tarddu oddiwrth ddinistr; annobaith a hunain ffieiddio sydd yn gwneud ffordd i brisio a defnyddio yn addas y feddiginiaeth fendigedig; diffyg o angenrheidiau gartref sydd yn rhwymo dynion i fyned oddi cartref, naill, a'i gardotta, neu i brynny lle caffont hwy. Hunain-ymwadiad yn y pwngc o gyfiawnder a nerth, sydd yn landio'r enaid yng Nghrist, gan ddywedyd, 'diau yn yr Arglwydd y mae i mi gyfiawnder a nerth.' Eilwaith, astidiwch fod yn gyflawn siccr, na does dim help na chymmorth i chwi, allan o'ch cyflwr colledig, ond yn unig ar waith ffydd yn derbyn ac yn cymhwyso Crist ar distiolaeth gair Duw; ni does dim dyfod at y Tâd ond trwyddo ef, un enw arall trwy ba un y gall dynion fod yn gadwdig;

pob drws arall o dderbyniad sydd wedi ei gau a'i gondemnio er y cwymp. Argyhoedder chwi o allu a digonoldeb Crist i'ch hachyb oddiwrth bechod a'i holl disturus liaws o gystuddiau; y mae ef yn waredwr cadarn ar ba un y gosododd Duw ein cymmorth, abl i achyb hyd yr eithaf; credwch ei fod yn iachawdwr ym mhob peth wedi ei wneuthur yn gymmwys at ein anghenrheidiau wedi ei wneuthur gan Dduw i ni, yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth; a bod ei swydd ef fel Iachawdwr cystal a'i addewid ei hun, yn ei rwymo i achyb pob un ac a ddel atto mewn ffordd o gredu: bod bywyd tragywyddol yn eiddo chwi a'i fod gennych yn weithredol yn y funud y deloch i dderbyn ef fel rhad rodd Duw; 'yr hwn sydd ar Mâb gaudd y mae bywyd ganddo:' na does nag ammod na chymmwysiad, na gwaith na dyledswydd, yn cael ei ofyn yng ngair Duw, mewn trefn i gael hawl a thitl i fywyd tragywyddol, ond bod i chwi ddyfod i mewn ar hawl Crist yr hwn yw'r etifedd cyfiawn, ar hwn a wnaeth drosglwyddiad i ni o'n hawl yn ei Destament heb un math o os neu ammod. Os anturiwch wneuthur eich gweithredoed, eich dyledswyddau, neu ddim da ynoch, yn ammodau o ewyllys diwaetha Crist yr ydych yn cyfnewid ewyllys y marw, yr ydych mewn effaith yn dinystro rhydd-did y cyfammod grâs, ac yn adeiladu i fynu fur gwahaniaeth rhwng Crist a chwithau, yr hwn na fyddwch yn abl i ddringo i fynu.

( 3 ) Cyngor arall yr ydwyf yn ei roddi i chwi yw hyn, credwch mae eich dyledswydd yw credu mewn ufudd-dod i orchymmyn eglur Duw gyda golwg ar yspryd yr hwn sydd yn cael ei addo. Yn gyntaf

edrychwch y sylfaenau sydd gan eich ffydd i adeiladu y rhai a fynegwyd eisioes; ac yma deliwch eich llygaid at y gorchymmyn dwyfol a'r galwad y rhai sydd yn eich diogelu, yn eich annog, ac yn gofyn gennych i anturio ar y sylfaenau hyn; a pha cyd y bo' rhain yn cael eu cadw yn eich golwg, nid oes achos ofni rhyfig: pa fodd y gall fod yn rhyfig i ufuddhau gorchymmyn y nêf? Ie, y gorchymmyn mwya erioed a roddwyd i ddyn oddiar orsedd gogoniant uchod, Ioan. iii. 23. Y mae efe yn llefaru fel pe ni buasau orchymmyn arall yng ngair Duw, o ran ein bod yn cyflawni yr holl ddeddf fel cyfammod, yn y weithred gyntaf o gredu, trwy ymwadu a'n heiddo ein hunain, ac ymddarostwng i eiddo Mâb Duw, ag sydd yn sialensio y gyfraith, ac yn ei gogoneddu; a thrwy hynny ein hufudd-dod presennol ninnau hefyd i'r ddeddf fel rheol, fydd yn cael ei osod yn y fath fodd ag y mae yn gymmeradwy yn yr anwylyd: canys, gadewch i ni wneuthur yr hyn a fynnom, byth nis boddlonwn Dduw, neu fod yn gymmeradwy ganddo, hyd oni chredom yn enw ei Fâb, Heb. xi. 6. Am hynny yr wyf yn dywedyd etto, amcanwch at gredu mewn ufudd-dod i orchymmyn Duw, y mae yn gymmaint eich dyledswydd i gredu ag yw i chwi gyflawni un gorchymmyn arall o'r gyfraith foesol; ac anufudd-dod i'r gorchymmyn hwn o gredu a'ch damnia chwi dros fyth, ie, a'i gwna yn fwy effeithiol na mwrdrad, godineb, lledrad neu dorriad arall o'r gyfraith ag ellir ei enwi, attolwg dywedwch i mi, feistrad, pa ham yr ydych fyth yn plygu glîn, neu agor genau o flaen Duw mewn gweddi? A ydych yn myned yng nghylch y ddyledswydd hon, o ran bod gennych allu o honoch eich hunain i drawsu'r nêf a'ch gweddiau,

neu drefna eich hachos ger bron Duw? Nag ydych yn ddiau, ond o ran i Dduw eich gorchymmyn i alw arno, am hynny (deall fel yr ydych) er nas gwyddoch pa fodd i weddio na pha beth i weddio am dano, etto chwi anturiwch, ŷn awr pa ham na wnewch yr un peth yn achos credu, ag yn achos gweddio o ran bod un yn cael ei orchymmyn cystal a'r llall? Canys yr wyf ŷn dywedyd wrthoch, fod gennych cyn lleied gallu ynoch eich hunain i weddio ŷn iawn a chredu yn iawn. Mae llawer, fel y dywedais eisioes, sydd yn rhoddi heibio y ddyledswydd fawr o gredu o ddydd i ddydd, tan yr esgus o eisiau gallu i gredu: ond gwrth'adl yw hon sydd yn rhyfela yn erbyn yr holl ddyledswyddau yn gystal a hon o gredu. Nid y'm ni ddigonol o honom ein hunain, i feddwl un peth megis o honom ein hunain, megis y cadarnha'r Apastol ni. Ond a fydd i chwi oddiwrth y rheswm yma ro'i heibio treio meddwl ar y pethau sydd dda a buddiol i'ch eneidiau? Nag ŷdym, yr ydym yn cynnig myfyrio i, yr ydym yn amcanu ar y pethau sydd dda, ac wrth fyfyrio y tân sydd yn ennyn; Duw sydd yn dyfod i mewn ac anadliadau ei Yspryd, ac yna ein myfyrdodau am dano sydd felus, ac yr ydym yn llawen yn yr Arglwydd. Felly, tra fo'r enaid, oddiwrth deimlad o'i gyflwr colledig, yn amcanu treiglo, ac ymorphwys ei hun ar Grist mewn ufudd-dod i orchymmyn Duw, Duw sydd yn dyfod i mewn a'i yspryd ffydd, ac yn ein llanw o heddwch a gorfoledd trwy gredu.

(4) Er na byddoch yn cael dim o allu Duw yn deimladwy i gyd gerdded a'ch ymegniadau at ufudd-dod i'r gorchymmyn o gredu, etto na roddwch i fynu, ond parhewch fyth yn eich amcan. "Disgwyliwch wrth yr

Arglwydd byddwch hyderus, ac efe a gryfha eich calon, disgwyliwch meddaf wrth yr Arglwydd." Gwrthddadl. Mi gynnygias amrywiol weithiau i gredu, ond etto yr wyf mor belled oddiwrtho ac erioed; ni does m'o allu Duw yn cyd geredded, am hynny mi allaf ro'i heibio yn gyfan. Am atteb, yr wyf yn eich anfon at air yn Heb. x. 36, 37. "Canys rhaid i chwi wrth amynedd, fel wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid oblegid ychydig bachigyn etto, ar hwn sydd yn dyfod a ddaw ac nid oeda." Wrth geisio gweithredu ffydd mewn ufudd-dod i'r gorchymmyn dwyfol, y mae yn anghenrhaid i chwi wrth amynedd; o ran yr hwn sy'n credu ni fyfyria, rhaid i chwi fwriadu credu a disgwyl, a disgwyl a chredu heb fyth ro'i fynu: a phan y byddoch wedi gwneuthur ewyllys Duw yn yr achos hyn, cystal ag y galloch, rhaid i chwi gadw ymlaen gyda hwy sydd lân eu dwylo, er na bo'ch yn cael dim dylanwadau teimladwy i gyd gerdded; canys gorchymmyn Duw yn ei air, ac nid dylanwad ei Yspryd, yw rheol a mesur eich dyledswydd. Ac os parhewch i wneuthur ewyllys Duw yn y peth hyn, gyda golwg arno ef, yr hwn yw awdwr a pherpheithydd ein ffydd, chwi ellwch fod yn siccr ym mhen ychydig etto, mae'r hwn sydd yn dyfod a ddaw ac nid oeda. Ewyllys Duw a gwaith Duw yw, yr hwn wyt yn amcanu atto, sef credu yn yr hwn a anfonodd efe, ac a fydd ddim i Dduw grâs a chariad gyda pha un y mae tystiolaeth yn llifo i ro'i ei law wrth ei waith ei hun, a chynnorthwyo pechadur tlawd i wneuthur yr hyn yw ei ewyllys ei hun? Yn wir chwi ellwch fod yn siccr o'r un beth hyn, pan y rhoddodd ei air am dano " y bydd iddo weithio ynoch yr

ewyllysio a'r gallu o'i ewyllys da ei hun." Ni does dim mor hyfryd yn yr holl Fyd gyda Duw a gweled enaid tlawd yn amcanu glynnu wrth, a derbyn ei Grist ef: y mae ef megis yn cael ei glwyfo yn ei galon pan y bo' pechaduriad yn ddiog i gredu yn ei Fâb; ac a fydd ef gan hynny ddim yn barod i gynnorthwyo'r enaid tlawd sydd yn amcanu atto? Mam dyner chwi wyddoch, pan y bo' ei bronnau yn llawn wedi chwyddo gan laeth, a fydd yn barod nid yn unig i dynnu allan ei bron, ond i gynnorthwyo ei baban gwan atti, pan y bo' arno eisiau llaeth, neu yn amcanu sugno. A oes gan Fam y fath ymysgarodd at ei phlentyn sugno, ac oni does ymysgarodd o drugaredd anfeidrol mwy gan Dâd y trugareddau at yr enaid tlawd, sydd yn ceisio sugno bronnau llawnion ei râs a'i drugaredd, y rhai sy'n cael ei tynnu allan i bawb yng ngoruchwyliaeth yr efengyl? Ni fydd iddo ef ymysgarodd yr hwn sy'n danfon allan swn ar ol pechaduriad yng ngalwad yr efengyl, fod yn fyrr o ro'i ei law gynnorthwyol i'n nerthu i gredu; am hynny dywed gyda Dafyd Sal. xlii. "Gobeithiaf yn Nuw canys moliannaf ef etto am iechydwriaeth ei wyneb-pryd."

Mi brofais gredu er's cyd o amser, ac mor fynych fel yr wyf wedi blino yn hollol, fy nerth a ddarfu, ac etto dim gallu oddi uchod, pa beth a wnaf? Nid yw Duw yn dal sulw arnaf. Esa. xl. 27, 28. &c. "Pa ham y dywed Jacob, ac y llefarai Israel, cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd a'm barn aeth heibio'm Duw? Oni wyddost, oni chlywaist, na ddiffygia ac na flina Duw tragywyddoldeb, yr Arglwydd creawdwr Nef a daear? Ni ellir chwylio allan ei synwyr ef. Yr hwn a rydd nerth i'r diffygiol, ac a amlha gryfder

i'r dirym." Yr wyt yn dychmygu fod llaw gynnorthwyol Duw wedi ei thynnu i mewn, ac nad yw yn dal dim sulw ar dy fwriad i gredu; ond pa ham yr wyt yn dywedyd felly? Y mae ef yn agoshach nag yr wyt yn dirnad; wele y mae ef yn sefyll o'r tu ol i'r pared, yn barod i roddi gras a thrugaredd yn gymmorth cyfamserol, yn barod i ro'i gallu i'r diffygiol, a nerth i'r rhai dirym: a gallu oddi uchod i gredu, sydd agosfa, pan y byddom wedi myned fwya allan o honom ein hunain, yn y pwngc o nerth a digonoldeb, ac am hynny na roddwch heibio; disgwyliwch meddaf wrth yr Arglwydd, canys y rhai a ddisgwyliant wrtho a adnewyddant eu nerth. Ni does ond y dyn gwan yn unig a bwysa ar gymmorth un arall; yn awr ffydd yw pwyso ar Grist pan nas gallom sefyll ein hunain, Can. viii. 5. "Pwy yw hon sydd yn dyfod i fynu o'r anialwch gan bwyso ar ei hanwylyd?" Ni does yn unig ond y dyn blinedig a eistedd i lawr ac a orphwys ei hun; yn awr ffydd sydd orphwysiad yr enaid, yn neu ar Grist, Sal. xxxvii. "Distawn yn yr Arglwydd, a disgwyliwn wrtho." Heb. iv. "Yr hwn a gredodd a aeth i mewn i'w orphwysfa ef." pan nas gallo dyn wneud dim arall, pan y bo' mor egwan nas gall ro'i ei law ar ddim, etto fe orphwys ei hun i lawr: felly yma, am dy fod yn wan ac yn ddi nerth i un gwaith o'r ddeddf, am hynny yr Arglwydd sydd yn dy alw i fwrw dy enaid llwfr blinedig ar yr Arglwydd Iesu ar ba un y gosododd ef dy gymmorth, am hynny boed i dy wendid dy annog i fywiogi yn lle dy ddigalonni. Ond yn awr yr ydwyf yn dyfod i roddi gair o gyngor i'r rheini calonnau pa rai sydd yn cydsynio a'r cyngor rhagddywededig.

A ydych yn awr yn credu, er mae yn y radd leiaf? Gadewchi mi eich cynghori i beidio gorphwys mewn gradd issel o ffydd, ond ymestyn at y radd uchaf o honi. Anghofiwch y pethau o'r tu cefn ac ymestynwch at y pethau o'r tu blaen, credwch yn rhagorach nag y credasoch etto, ewch ymlaen o ffydd i ffydd, ac fel hyn dysgwch agoshau a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd: ac fel hyn byddwch yn blant i Abraham ffyddlon, "yr hwn nid amheuodd yr addewid trwy anghrediniaeth ond gan fod yn nerthol yn y ffydd a roddodd ogoniant i Dduw; ac yn gwbl sicer ganddo am yr hyn a addawasai efe ei fod yn abl i'w wneuthur hefyd." Chwi welwch pa beth oedd ffydd Abraham, trwy ba un y credodd heb ammeu; nid oedd e' ddim arall ond addewid o fywyd a iechydwriaeth trwy'r Messiah i ddyfod: wele y mae gennych yr un sylfaen ffydd o'ch blaen, gyda llawer mwy mantais tan y testament newydd, sef yr addewid o dderbyniad, heddwch, pardwn, grâs a gogoniant, trwy'r Messiah yr hwn sydd eisioes wedi dyfod, ac a orphennodd y gwaith a roddodd y Tâd iddo i'w wneuthur; am hynny, credwch heb ammeu fel y credodd ef. Er mwyn eich bywhau i ymestyn at radd mwy o ffydd, mi gaf gynnig yr ystyriaethau canlynol.

( 1 ) Ni's gellir yn hawdd ganfod ffydd fechan, nid yw ond fel hedyn mwstard, yn gorwedd yn y ddaear, yr hwn ni's gall un ond prin ei wahaniaethu oddiwrth y llwch sydd yn gorwedd tan ei draed; a phan na fo' ffydd yn cael ei chanfod, Duw sydd yn colli gogoniant ei râs, a hwythau'r cyssur o honi.

( 2 ) Y byd yr ydym yn byw ynddo sydd yn gofyn ffydd gref; " lloches llewod yw, a mynydd llew-

pardiad; y llew rhuadwy sydd yn myned odiamgylch gan geisio difa;" moroedd cochion a llawer Iorddonen o drallod sydd ar ein ffordd i Ganaan trwy'r anialwch dyrus. Y stormydd, tomhestloedd o erledigaethau a thrallodion all chwythu, yr hyn a wna gredadyn cryf i siglo a chrynnu; ac os felly, oni does achos gan y credadyn gwan gadarnhau ei hun, trwy astudio yn well nag y mae? Canys trwy ffydd yr ydym yn sefyll yn y dydd drwg.

( 3 ) Bodlonrwydd o ychydig ffydd, nid yw arwydd dda o wirionedd ffydd: canys (fel y dywedwyd eisioes) naftur gwir râs yw, llefein ar ol perffeithiad o honi, fydd yn ymestyn at y fwya. Y rhai sydd yn adnabod yr Arglwydd a ddylant ei adnabod ef.

( 4 ) Ystyriwch fanteision ffydd gref tu hwynt i ffydd wan. (1) Ffydd gref sydd a heddwch cadarn a sylweddol yn cyd gerdded a hi. Esa. xxvi 3. "Ti a gedwi mewn tangnefydd heddychol, yr hwn sydd a'i feddylfryd arnat ti:" ond ffydd wan sydd a'i heddwch yn cael ei gythryblu ar bob tro o eiddo rhagluniaeth. (2) Ffydd gref sydd yn dwyn llawenydd cryf gyda hi; oddi yma y dywedir ein bod yn cael ein llanw o lawenydd a thangnefydd trwy gredu; ie llawenydd ffydd fywiol sydd anrhaethadwy a gogoneddus. 1 Pet. i. 8. Ond yn awr y credadyn gwan er y gall fe allai gael ei lanw a gorfoledd o deimlad, etto ni does gandlo neinawr o orfoledd credu; oddi yna y mae ei fod ef bryd bynnag y bo' teimlad wedi pell'au ar fringc uffern, yn llefain, "anghofiodd Duw drugarhau, ei addewid a ballodd yn oes oesodd." (3) Ffyd gref sydd yn fwy sefydlog yn y storom, na ffydd wan; ffydd gref pan y bo'r storom yn chwythu a dafl allan angor go-

baith, ac a hwylia mewn diogelwch, gan lefain "nid ofnaf pe symmudai'r mynyddoedd a'u taflu i ddyfnder y mor, a'r dyfroedd ymderfysgu." Ond yn awr ffydd wan, fel Pedr wrth rodio ar y dyfroedd, sydd barod, wrth bob cam lefain allan "O feistr darfu am danom." Pan y bo' cyssuron caredig yn diffygio, pan y bo'r meusudd yn peidio rhoi eu cnwd, ffydd wan sydd barod i ddywedyd, darfu am danaf fi a'm teulu: ond ffydd gref a ddywed, cod fy nghalon ni does ofn, fy mara a roddir i mi, a'm dwfr sydd siccr, o herwydd Duw'r gwirionedd a ddywedodd yr hwn a bia'r ddaear a'i chyflawnder. Yr hwn sydd yn porthi'r Gigfran, ni ad ei blant i newynu: yr hwn sydd yn dilladu Lili'r maes ni's gad fi yn noeth. (4) Ffydd gref sydd a mwy o hyder ac hyfdra, yn ei mynediad i'r cyssegr, mwy o hawl yn y nêf nag sydd gan ffydd wan, Ioan. xiv. 13, 14. Marc. vii. 24. Iago. i. 6. Ffydd wan er na's gwrthod Duw ei herfyniadau, etto ei hatebion nid ydynt mor llawn ag eglur: ïe, mi anturiaf ddywedyd, fod anghrediniaeth, amheuaeth, ofnau, drwgdybiau, yn anurddo llwyddiant amryw o erfyniau rhagorol. (5) Ffydd gref sydd yn gwneud agoshâd angau yn fwy esmwyth nag yw i'r credadyn gwan. Ffydd gref sydd yn cymmeryd i fynu 'spieinddrych yr addewid, ac yn edrych tu hwynt i angau, i'r tîr pell, ac yn llawenhau yng ngobaith a gogoniant Duw, gan ddywedyd, fel y dywedodd Crist ein pen. Sal. xvi. "Llawenychodd fy nghalon ac ymhyfrydodd fy ngogoniant, fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith. Canys efe a ddangosagdd i mi lwybr y bywyd, y ffordd newydd a bywiol i onno o hyfrydwch, a'r digonolrwydd hynny o lawenydd sydd ar ddeheulaw Duw yn dragy-

wydd." Ffydd gref wrth edrych ar waredwr wedi ei dderchafu, sydd yn edrych ar angau ag uffern ym mysg yspail ei fuddugoliaeth, ac ar hynny yn gorfoleddu trosto fel gelyn wedi ei orchfygu a'i lâdd gan ddywedyd O angau pa le mae dy golyn? O uffern pa le mae dy fuddigoliaeth? Diolch i Dduw yr hwn sydd yn rhoddi i ni'r fuddigoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist." Ond yn awr ffydd wan sydd yn crynnu ac yn dychryn wrth agoshâd angau, rhag iddi gael ei llyngcu i fynu yn ymchwydd yr Iorddonen honno, gadewch i'r ystyriaethau hyn meddaf, i'ch bywiogi chwi i lefain ar ol cynnydd o'ch ffydd wan, fel y galloch agoshau mewn llawn hyder ffydd.

Mi derfynaf yr holl draethawd hwn gyda gair yn 1af. O annogaeth. 2. O gyngor i gredadyn gwan: canys ein hathro gogoneddus a orchymmynodd i ni gryfhau'r dwylo gweiniad, a chadarnhau'r gliniau llesg; ac a ddywedwn wrthynt hwy sydd o yspryd ofnus, ymgryfhewch ag nag ofnwch. 1af. Gair o gyssur ac annogaeth i'r Wŷn tlodion tyner a'r rhai gweiniad ym Mhraidd Duw, y rhai sydd yn fynych yn cloffi ac yn tramgywyddo trwy rym anghrediniaeth.

( 1 ) Gwybydd er dy gyssur, fod y credadyn gwanna mor agos yn perthyn i Dduw fel Tad a'r credadyn cryfa. Y baban iangaf a gwannaf yn y teulu sydd mor anwyl gan y Tâd a'r cyntaf-anedig neu'r Mâb sydd wedi dyfod i'w lawn nerth a'i faintioli. Nid yw pob cangen o'r pren o'r un rym a maintioli, etto'r brigyn mwya tyner sydd wedi ei uno a'r gwreiddyn ac yn cael rhan o'r sûdd cystal a'i gangen benna a chadarna: felly yma y credadyn gwanna yng Nghrist sy'n derbyn o'i yspryd cystal a'r cryfa. ( 2 ) Y credadyn gwan

sydd wedi ei wisgo a'r wisg wen o gyfiawnder Crist, ac sydd yn cael ei gyfiawnhau gymmaint trwyddi a'r cryfa. Ein harchoffeiriad mawr sydd wedi ei wisgo a gwisg o'i ben i'w draed, a pha un mae'r holl aelodau ei gorph dirgeledig wedi cael eu dilladu bawb cystal a'i gilydd. Mae yn wir am bob credadyn y naill fel y llall, "na does dim damnedigaeth i'r rhai sydd yng Nghrist Iesu." Rhuf. viii. 1. (3) Y radd leiafa gwanaf o ffydd a ddeil allan hyd y diwedd. Hwy oll a gedwir trwy allu Duw trwy ffydd i iechydwriaeth. Ni thyr ef y gorsen yssig, a'r llin yn mygu ni ddiffydd: lle bo'r gwaith da wedi ei ddechreu, ei ffyddlondeb ef sydd wedi ymrwymo ei ddwyn ef ymlaen hyd ddydd Crist. Y radd leiaf o ffydd sydd a gogoniant a iechydwriaeth wedi ei glymmu wrthi trwy addewid Duw cystal a'r gryfa, nid efe yr hwn sydd yn credu yn gryf, a fydd cadwedig, ond efe yr hwn sydd yn credu yn ddi dderfyniad pa un bynnag a'i cryf a'i gwan fyddo ei ffydd ef. (4) Ein Iachawdwr bendigedig yn gyffredin sydd yn tywallt ei ymysgaroedd mewn dull mwy tyner a theimladwy ar gredinwyr gweiniaid, na'r rhai cryfion. Bugail da Israel sydd yn dwyn yr wyn yn ei fynwes, ac yn coleddu'r mamogiaid: ac yma y mae fod credinwyr gweiniaid yn gyffredin a mwy o lawenydd teimladwy hyfryd a chyssur, na chredinwyr cryfion, yn bur gyffelyd i dad doeth a chariadus yr hwn a gymmer ei blentyn ieuangc ar ei lin, a chwareu ag ef, ac a'i cofleidia yn ei fynwes, er na âd ei serchiadau redeg allan yn y fath fodd at ei fâb o ortan a maintioli, canys ni fyddai hynny ond gwneuthur ynfyd o hono.

Fe allai y dywed y credadyn gwan, y pethau hyn ydynt gyssuron cryfion yn wir, pe gallwn gael hawl

ynddynt; ond hynny yw yr hyn yr wyf yn wastad yn ofni, na does gennyf ddim ffydd oll, na goes gymmaint a gronyn o hâd mwstard. Heblaw yr hyn a ddywedwyd am hyn yn yr rhan gyntaf o'r traethawd, mi gaf yn unig ofyn y ddau gwestiwn canlynol.

( 1 ) Onid yw eich calon yn dychrynu ac yn llewygu o'ch mewn, pan y bo'ch yn meddwl ymadel a'r Arglwydd Iesu? Os felly, hyn a ddywedaf, fod ei gariad ef wedi ei dywallt ar led eich calonnau trwy'r Yspryd Glân, ac yn ganlynol gwreiddyn ac egwyddor o ffydd, o ba le y mae hi yn tarddu, gan lynnu wrth yr Arglwydd fel haiarn wedi hogi ar y maen-tynn: ac yr ydwyf yn dywedyd wrthynt newyddion da, fel yr ydwyt ti yn ffieiddio ymadael ag ef felly y mae yntef yn ffieiddio rho'i ymaith, am hynny ni bydd byth ymadawiad.

( 2 ) Onid ydwyt yn cael aflonyddwch yn dy yspryd, ac anesmwythder yn dy fynwes, pan y byddo Duw yn ymguddio, fel asgwrn allan o'i le, neu Bysgod allan o'i helfen? Os felly, y mae gwraidd ffydd o'th mewn, bu Crist gyda thi mewn ffordd grâs a chariad, heblaw hyn nis gallasit wahaniaethu rhwng presennoldeb ag absennoldeb. Ac os ymwelodd Crist erioed a thi, ei ymweliad cyntaf ef ni bydd yn olaf: canys ei fynediad ef allan a ddarperir neu a gadarnheir fel y borau.

Yn awr yr wyf yn dyfod i gau i fynu'r cwbl gyd ag ychydig gynghorion i gredinwyr gweiniad, mewn trefn o gynnydd i'w ffydd at lawn sicrwydd.

( 1 ) Ymddarostyngwch, tan deimlad o weddill anghrediniaeth, a gwendid eich ffydd; canys y mae

uw yn rhoddi grâs, a grâs rhagorol i'r gostyngedig. Pa fwya bo' hunain yn cael ei thynnu lawr, uwch y Crist yn cael ei dderchafu yn y ffordd o gredu.

(2) Byddwch awyddus am rhagor o ffydd. Awydd mewn pethau eraill o'r byd hwn sydd eulun addoliaeth; ond hyn sydd ymhlith y pethau gorau a ganiateir i chwi yn egniol i ymofyn ar ei hol; a pha fwya y boch yn dymuno ac yn chwennych yspryd ffydd, mwya y cewch ef; "canys efe a ddiwalla yr enaid sychedig, ac a leinw'r enaid newynog a daioni. Agor dy safn a mi a'i llenwaf hi."

(3) Bydd hyddysg yn sylfaenau ffydd, megis y gosodir hwynt yn natguddiad yr efengyl, rhai o ba rai a ddarfu i mi bennodi yn yr ymadroddion a aeth heibio.

Yr wyf yn credu mae un rheswm mawr pan y mae cynnifer yn ffaelu credu oll, a pha ham y mae ffydd amrŷw o gredinwyr gwirioneddol yn aros mor wan, yw ei bod yn anwybodus o'r sylfaenau cryfion a siccr, sydd gan eu ffydd hwynt i sylfaenu arnynt. Credinwyr ofnys gweiniad, wedi ymsefydlu ar y sylfaen a osododd Duw yn Seion, sydd yn bur gyffelyb i ddyn a fydde yn sefyll ar graig gadarn sefydlog, a'i ben ef yn troi gan feddwdod ac y mae ef yn dych'mygu fod y graig yn troi a'i hwyneb yn issa gyd ag ef, lle nad yw y coll ddim yn y graig, ond ar ei ben ef ei hun. Ein ffydd sydd yn methu o herwyd ein hanwybodaeth o gadernid o gyfammod Duw a'i addewid; am hynny yr wyf yn dywedyd, astudiwch am fod yn fwy adnabyddus a'r addewid a ffyddlondeb, gallu a chariad, yr hwn sydd yn addo.

(4) Os y'ch am gael ffydd wan i gynhyddu a

chryfhau, yna arferwch yn fynych bob gradd wan o ffydd ag sydd gennych: canys y mae pob tueddiad grasol cystal a naturiol yn cynnyddu ac yn gwellhau wrth fynych arferiadau. I'r hwn sydd ganddo, ac sydd ŷn defnyddio yn well yr hyn sydd ganddo, y rhoddir. Hon yw'r ffordd i'ch hatling gael ei throi yn dalent; a'ch talent o ffydd trwy eich ymarferiadau mynych, a ddaw mewn amser cyfaddas yn ddeg talent.

Pan gaffoch ddim profiadau teimladwy o gariad yr Arglwydd, defnyddiwch hwynt, nid fel sylfaen o'ch ffydd, ond fel annogaethau ifyned yn y blaen i ymddiried ac i gredu, ar y sylfaen o ffydd a osodwyd o'ch blaen yn y gair. Y teimladau hyn o drugaredd yr Arglwydd sydd yn cael eu rhoi i chwi, nid i'ch meddwi ar y melusdra o honynt, ond i'ch hannog i ymddiried a chredu ynddo. Sal. xxxvi. 7. "Mor werthfawr yw dy drugaredd o Dduw! Am hynny meibion dynion a ymddiriedant dan gysgod dy adenydd." Bai cyffredin credinwyr yn yr oes hon yw, pan y byddont yn cael un gronyn o bresennoldeb teimladwy yna yn wir y maent yn gorfoleddu, ac y mae ganddynt achos da i wneuthur felly: ond pa bryd gyntaf y delo cwmmwl, eu ffydd cystal au llawenydd sydd yn darfod, ac y mae ganddynt cyn lleied ymddiried, i roddi yng ngair ac addewid Duw eu bywyd tragywyddol, pan y byddo ef allan o'u golwg, a phe buasant erioed heb dderbyn cymmwynas ar ei law. A hyn yw'r achos, yr wyf yn credu; pa ham y mae cynddrwg gyd ag amryw o honom yn y dyddiau hyn: ac am hynny gwellhawn ein bucheddau ŷn y pethau hyn. A pha gyssur bynnag a llawenydd

a fyddom yn ei gael yn ei bresennoldeb ef, bydded i'n hannog, ac i'n rhwymo i ymddiried a gobeithio, disgwyl a chredu ynddo, pan y byddo yn absennol oddiwrth ein teimlad. Ac os fel hyn y gwnawn ddefnydd o nodau grâs a chyssuron ei Yspryd, llawenydd yr Arglwydd fydd ein nerth; a'n llwybr yn wir fel llwybr y cyfiawn, ac fel y goleuni disglair, yr hwn sydd yn llewyrchu fwy fwy hyd hanner Dydd.

*DIWEDD*

T. WILLIAMS, ARGRAPHYDD,
*DOLGELLEU.*

( Pris Swllt a Chwe-cheiniog, wedi ei wnio. )

—o—

Abraham Jon[illegible]

Decr. 13th 18[illegible]

Abraham Jones [illegible]

Decr. 1[illegible]

Rule